



2022-2027

Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

SWYDDOG CYFRIFOL: DR LOWRI BROWN, PENNAETH ADDYSG

PARATOWYD GAN DÎM BLYNYDDOEDD CYNNAR, GOFAL PLANT A GWASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD CONWY –
01492 577850

Ffurflen Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

Enw'r Awdurdod Lleol:

Gwasanaethau Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Conwy
LL30 9GN

Enw'r swyddog cyfrifol:

Dr Lowri Brown
Pennaeth Gwasanaethau Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Dyddiad Cwblhau:

Mawrth 2022

Prif Ddatganiad

Yr adroddiad a ganlyn yw'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Llawn ar gyfer 2022-2027. Mae'n ychwanegu at y wybodaeth a welwyd yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Llawn flaenorol 2017-2022 a gwblhawyd yn Ebrill 2017 ac mewn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant blaenorol eraill. Mae'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Plant 2006. Mae Adran 22 Deddf Plant 2006 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau, pan fo'n bosib, gofal plant digonol i fodloni'r galw. Yr ADGP yw'r adnodd y gall awdurdodau lleol ei ddefnyddio i amlygu bylchau mewn darpariaeth a'u datrys pan fo'n bosib.

Cynnwys	Tudalen
1. Cyflwyniad / Cyd-destun	3
2. Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymgynghori	3
3. Yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant ac Asesiad o Anghenion Lles Lleol	6
4. Poblogaeth	8
5. Trosolwg – Gwasanaethau, Lleoedd a Mathau o Ofal Plant	22
5.1. Nifer y Darparwyr Gofal Plant a'r Math o Wasanaethau (Cofrestredig a heb eu cofrestru)	22
5.2. Dosbarthiad Daearyddol	24
6. Y Cyflenwad o Ofal Plant	39
6.1. Gwarchodwyr Plant	39
6.2. Gofal Dydd Llawn	58
6.3. Gofal Dydd Sesiynol	78
6.4. Gofal Clybiau Tu Allan i Orlau Ysgol	91
6.5. Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored	105
6.6. Crèche	105
6.7. Nanis	105
7. Deall Anghenion Rhieni/Gofalwyr	107
7.1. Canlyniadau'r Arolwg Rhieni	107
7.2. Adborth Ymgynghoriad Ynghylch y Galw	135
8. Rhwystrau Darpariaeth Gofal Plant	136
9. Traws Sirol	145
10. Covid - 19	147
11. Cynladwyedd	161
12. CSGA (WESP)	167
13. Rhaglenni Ariannu Gofal Plant	174
13.1. Cynnig Gofal Plant i Gymru	174
13.2. Darpariaeth Addysg Feithrin (C/S)	178
13.3. Dechrau'n Deg	179
13.4. Clybiau Brecwast am Ddim mewn Ysgolion	183
13.5. Cynllun Gofal Plant Di-dreth	183
13.6. Cynllun Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy a Chynllun Gwên	184
14. Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu	184
15. Dadansoddiad o'r Bylchau	191
16. Crynodeb o'r Anghenion heb eu cyflawni	194

1. Cyflwyniad/Cyd-destun

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydnabod pwysigrwydd gofal plant o safon trwy weithio gyda'n gilydd trwy Bartneriaeth Datblygiad Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBC GP). Datganiad cenhadaeth PDBC GP Conwy yw bod 'Pob plentyn yng Nghonwy yn cael y dechrau gorau posib mewn bywyd'. Nod y PDBC GP yw sicrhau bod plant yng Nghonwy yn cael mynediad at ofal plant o ansawdd uchel a chyfleoedd chwarae gwerthfawr.

Felly nod yr asesiad ar gyfer 2022 - 27 yw adnabod bylchau mewn darpariaeth gofal plant, gan gynnwys:

- Bylchau Daearyddol: diffyg gofal plant yn ôl ardal;
- Bylchau Incwm: diffyg gofal plant fforddiadwy;
- Bylchau Anghenion Penodol: diffyg gofal plant i blant anabl neu anghenion penodol eraill;
- Bylchau Amser: prinder gofal plant hyblyg pan fo ei angen, yn arbennig gan rieni sy'n gweithio;
- Bylchau Oedran: prinder gofal sy'n addas i grŵp oedran penodol;
- Bylchau Iaith: prinder darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- Bylchau Math: prinder yn y math o ddarpariaeth gofal plant;
- Bylchau teuluoedd sy'n ceisio gwaith: diffyg gofal plant sy'n addas i anghenion rhieni sy'n ceisio gwaith.

Mae'r asesiad hwn yn rhoi darlun manwl o ofal plant yn yr awdurdod lleol. Mae'n cynnwys cyflenwad gofal plant a'r galw am ofal plant, a'r rhwystrau a all fodoli i rieni gael y gofal plant o'u dewis.

2. Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymgynghori

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Phartneriaeth Datblygu Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant Conwy yn gwerthfawrogi ac yn cydnabod manteision ymgynghori, cyfranogi a chynnwys pobl yn ein prosesau penderfynu i ddarparu gwasanaeth yn y dyfodol ar gyfer anghenion y Sir.

Ymgynghorwyd ledled y sir. Cafwyd barn rhanddeiliaid trwy amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys holiaduron i rieni a ddarparwyd at bwrpas yr ADGP gan Lywodraeth Cymru (gweler Adran 7 o'r adroddiad hwn). Hefyd roedd holiaduron i ddarparwyr gofal plant, darparwyr chwarae, ysgolion, plant, cyflogwyr, sefydliadau gwirfoddol a phartneriaid o wasanaethau ieuchyd ac adrannau'r awdurdod lleol. Mae rhestr lawn o'r rhai a ymgynghorwyd â hwy isod. Anfonwyd holiaduron penodol at sefydliadau ymbarél gofal plant a grŵp Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yng Nghonwy.

Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori dros gyfnod o 6 wythnos a ddaeth i ben ar 10 Rhagfyr 2021. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar adroddiad drafft yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant ar gael ar wefan Conwy am gyfnod o 28 diwrnod.

Nod yr ymgynghoriad oedd ceisio cael barn ar bob agwedd o ofal plant gan gynnwys hygrychedd, fforddiadwyedd a chynaliadwyedd i ystyried unrhyw rwystrau y gallai grwpiau penodol eu hwynebu wrth gyrchu gofal plant. Mae canlyniadau'r ymgynghoriadau wedi cael eu defnyddio i lunio'r adroddiad hwn.

Yn ychwanegol at y canlyniadau a gafwyd o ymgynghori, mae Tîm Blynnyddoedd Cynnar a Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy wedi tynnu ar dystiolaeth storiol a gwybodaeth a gafwyd o ddelio ag ymholiadau a sgysiau gyda rhieni, darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth ledled y sir.

Cyflwynwyd y data a gasglwyd a chanlyniadau'r ymgynghoriad i PDBCGP Conwy (Partneriaeth Datblygu'r Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant) i lunio cynllun gweithredu drafft i baratoi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.

Rhestr ymgynghori:

Darparwyr Gofal Plant, Rhieni, Plant Conwy (diolch i Glybiau Plant Cymru Kids Club a gynhaliodd yr holiadur plant)

Grŵp Partneriaeth Datblygu'r Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant Conwy.

Tîm Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant Conwy a Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy.

Tîm Ymgynghorol Cyswllt Cyfnod Sylfaen Conwy

Dechrau'n Deg

Mudiad Meithrin

Clybiau Plant Cymru Kids Clubs

Blynnyddoedd Cynnar Cymru

PACEY Cymru

National Day Nurseries Association (NDNA Cymru)

Ysgolion yn cynnwys cynradd, uwchradd, anghenion dysgu ychwanegol a chanolfannau cynhwysol

Colegau Addysg Bellach

Cynrychiolwyr Etholedig Llywodraeth Leol

Bwrdd Diogelu Corfforaethol Conwy

Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Cyflogwyr Lleol a Chanolfan Fusnes Conwy

Grŵp Llywio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Conwy (CSCA)

Cymraeg i Blant

Gwasanaethau Rheoleiddio - Tai a Chludiant

Cartrefi Conwy

Cynlluniau Cyflogaeth Conwy
PaCE
Canolfan Byd Gwaith
Canolfannau Teuluoedd Conwy
Cydlynnydd AAY
Ymwelwyr Iechyd
Cynllun Cyn-Ysgol Iach Cynaliadwy
Gwasanaeth Datblygu Cymunedol Conwy – Hamdden
Tîm Datblygu Chwarae
Swyddog Datblygu Gofal Plant Gwynedd
Swyddog Datblygu Gofal Plant Sir Ddinbych
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Gwynedd
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Ddinbych
Cynllun Cefnogi Cyn-ysgol Conwy
Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy (CCGC)

3. Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant ac Asesiad Anghenion Lles Lleol

Cynnal yr Asesiad

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu darlun cyfredol, yn seiliedig ar dystiolaeth o'r farchnad gofal plant ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

Mae'r canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi y dylid cymryd y mwyafrif o'r data gofal plant o'r dadansoddiad dienw o'r Datganiadau Hunanasesiad Gwasanaeth (SASS). Darparwyd y wybodaeth i'r Awdurdodau Lleol mewn ffurf a wnaed yn ddiennw. Wedyn dadansoddwyd y data hwn ymhellach yn ôl 5 Ardal Asesiad Anghenion Lles Lleol Bwrdeistref Sirol Conwy.

Darperir y wybodaeth ddemograffig, y farchnad lafur lleol, incwm a budd-daliadau, tlodi ac amddifadedd yn Adran 4 Poblogaeth isod. Mae cynlluniau Lles Lleol Conwy yn seiliedig ar y dadansoddiad canlynol o wardiau.

Ardal 1 Gorllewin	Ardal 2 Gogledd	Ardal 3 Canolog	Ardal 4 Dwyrain	Ardal 5 South
Caerhun Bryn Capelulo Conwy Deganwy Llansanffraid Marl Pandy Pant-yr-afon/Penmaenan Pensarn	Craig-y-Don Gogarth Mostyn Penrhyn Tudno	Colwyn Eirias Glyn Llanddulas Llandrillo-yn-Rhos Llysfaen Mochdre Rhiw Betws yn Rhos	Abergele Pensarn Gele Bae Cinmel Llansannan Pentre Mawr Towyn	Betws-y-Coed Crwst Eglwysbach Gower Llangernyw Trefriw Uwch Conwy Uwchaled



Yn ogystal â data gofal plant mae'r asesiad yn cynnwys data demograffig diweddar ac yn gwerthuso ffactorau a allai effeithio ar y galw am ofal plant. Mae'r asesiad yn cynnwys data ar leoliadau sydd wedi agor a chau ers y diweddariad ADGP diwethaf ym Mehefin 2021.

Fel y nodwyd yn flaenorol mae Adran 26 Deddf Gofal Plant 2006 yn nodi'r angen i awdurdodau lleol gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant i ganfod bylchau ac i sefydlu cynlluniau i fodloni anghenion rhieni.

Er gwaethaf y pwysau parhaus a roddwyd ar y Gwasanaeth Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwybodaeth i Deuluoedd gan ofynion ymateb i bandemig Covid-19 dechreuwyd ar y gwaith ymgynghori ym mis Awst 2021. Darperir rhestr lawn o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn Adran 2 uchod. Mae'r rhestr yn cynnwys ymgynghori gyda phlant, rhieni a gofalwyr, lleoliadau gofal plant, cyflogwyr lleol, sefydliadau cefnogi gofal plant, rhanddeiliaid a'r rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd.

Er bod y broses o ddadansoddi'r canlyniadau wedi cymryd peth amser mae'r ymgynghoriad gyda rhieni a darparwyr wedi bod yn agoriad llygaid ac yn addysgiadol ar gyfer cynllunio i'r dyfodol. Bydd y canlyniad terfynol yn ddefnyddiol ar gyfer ystyriaeth yn y dyfodol i ddatblygu gwasanaethau gofal plant ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

4. Poblogaeth Conwy

Ffynhonnell ddata: Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol Conwy

[Proffil Poblogaeth - bwletin 202110 \(conwy.gov.uk\)](https://www.conwy.gov.uk/proffil-poblogaeth-bwletin-202110)

- Amcangyfrifir mai maint poblogaeth preswylwyr Bwrdeistref Sirol Conwy ar 30 Mehefin 2020 oedd 118,200 o bobl. Rhwng canol 2019 a chanol 2020 amcangyfrifir bod cyfanswm y bobl sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol wedi cynyddu tua 800 neu 0.8%.
- Ers 2010 mae poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cynyddu 3,500, sy'n 3.1% – cyfartaledd o tua 0.3% y flwyddyn, er nad yw cyfraddau newid wedi bod yn gyfartal dros y cyfnod. Yn yr un cyfnod, tyfodd poblogaeth Cymru 3.9% a thyfodd poblogaeth y Deyrnas Unedig 6.9%.
- Rhwng canol 2019 a chanol 2020 roedd y newid mewn poblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy o ganlyniad i:
 - newid naturiol negyddol o -600 o bobl (1,000 o enedigaethau a 1,600 o farwolaethau);
 - cynnydd mudo net o 1,550 o bobl (daeth tua 5,050 o bobl i Fwrdeistref Sirol Conwy i fyw a gadawodd tua 3,500 o bobl).
- Mae cyfraddau ffrwythlondeb a chyfraddau marwolaeth yn gostwng, yn cyffredinol.
- Ond, heb fudo, byddai poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy yn lleihau oherwydd mae mwy o farwolaethau na genedigaethau yn yr ardal bob blwyddyn.
- Dros gyfnod o ddeng mlynedd, mae cyfartaledd mudo allanol net o tua -150 yn y grŵp oedran 15-29 oed bob blwyddyn.
- Mae cyfartaledd mudo mewnol net o tua +400 yn y grŵp oedran 50-64 bob blwyddyn.
- Oed canolrifol poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy yw 50.0 oed (Cymru = 42.4; y DU = 40.2). Mae'r oed canolrifol wedi cynyddu o 46.6 i 50.0 oed yn y degawd diwethaf.
- Mae 27.9% o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy yn 65 oed a hŷn yn cymharu â 21.1% yng Nghymru gyfan a 18.6% ledled y DU.
- Erbyn 2040 rhagwelir
 - os yw'r duedd ganolog yn parhau, bydd gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth o 123,000 – cynnydd o 4,800 (4.1%) o lefelau amcangyfrif canol blwyddyn 2020.
 - os yw'r duedd amrywiolyn twf is yn parhau, bydd gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth o 117,750 – gostyngiad o -450 (-0.4%).
 - os yw'r duedd amrywiolyn twf uwch yn parhau, bydd gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth o 126,900 – cynnydd o 8,700 (7.4%).
 - daw cynnydd net yn y boblogaeth o fudo mewnol, oherwydd byddai newid naturiol yn unig (genedigaethau a marwolaethau) yn arwain at ostyngiad yn y cyfanswm.
- bydd twf poblogaeth yn y grŵp oedran 65+ oed. Bydd nifer y bobl o oedran gwaith a'r boblogaeth dan 16 oed yn gostwng.

- Mae dwysedd poblogaeth yn isel, 1.0 unigolyn yr hectar ledled y Fwrdeistref Sirol, ond mae'n cynyddu i 30 unigolyn yr hectar mewn rhai ardaloedd trefol ar yr arfordir.
- Mae'r crynadau mwyaf o bobl 65 oed a hŷn yn y setliadau arfordirol sef Abergele, Towyn, Llanddulas, Llandrillo-yn-Rhos, Llandudno (wardiau Craig-y-Don, Gogarth a Phenrhyn) a Deganwy. Rhanbarth etholiadol Craig-y-Don sydd â'r gyfran uchaf o bobl 65 oed a hŷn yn ei phoblogaeth (39.2%).
- Mae'r proffil oedran ieuengaf o bell ffordd yn y Fwrdeistref Sirol i'w gael yn ardal etholiadol / cyngor cymunedol Llysfaen, gyda dim ond 14.5% o'r boblogaeth 65+, a 22.6% o dan 16 oed.

Tabl 1.1: poblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy, 2020

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)

	Gwrywod	Benywod	Personau
Pob Oedran	57,600	60,600	118,200
0-4	2,750	2,500	5,250
5-9	3,150	3,000	6,150
10-14	3,200	3,100	6,300
15-19	3,000	2,750	5,700
20-24	3,000	2,650	5,600
25-29	3,000	2,850	5,800
30-34	3,000	2,950	5,950
35-39	2,850	3,050	5,900
40-44	2,850	2,850	5,650
45-49	3,300	3,600	6,900
50-54	4,000	4,400	8,400
55-59	4,350	4,750	9,150
60-64	4,100	4,450	8,550
65-69	3,850	4,250	8,100
70-74	4,250	4,450	8,700

75-79	3,050	3,300	6,350
80-84	2,000	2,600	4,600
85-89	1,250	1,800	3,050
90+	700	1,450	2,100
0-15	9,750	9,100	18,850
16-64	32,800	33,600	66,400
65+	15,100	17,850	32,950
85+	1,900	3,250	5,150

Mae preswylwyr y Fwrdeistref Sirol yn gyfystyr â 3.7% o boblogaeth Cymru, a 0.2% o boblogaeth y Deyrnas Unedig.

Mae gennym gyfran uwch o unigolion 65+ oed yn y boblogaeth nag unrhyw un o'n hawdurdodau cyfagos, sef 27.9% o'r boblogaeth, a chyfradd llawer uwch na chyfartaledd y DU, sef 18.6%. Gellir dod o hyd i gyfrannau'r un mor uchel o boblogaeth oed pensiwn mewn ardaloedd sy'n hysbys fel lleoliadau ymddeol, fel arfordir de orllewin Lloegr.

Mae'r gyfran uchel o henoed yn ein poblogaeth hefyd yn arwain at y ffaith bod cyfrannau plant (0-15 oed) a phreswylwyr oedran gwaith (16-65 oed) yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru a'r DU.

Tabl 1.2: poblogaeth ar gyfer ardaloedd cymharol, 2020

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, ONS

	Cyfanswm Poblogaeth	Gwrywod	Benywod	0-15 Oed	16-64 Oed	65+ Oed
BS Conwy	118,200	48.7%	51.3%	16.0%	56.2%	27.9%
Ynys Môn	70,450	49.3%	50.7%	16.9%	56.6%	26.5%
Gwynedd	125,150	49.6%	50.4%	16.6%	60.6%	22.8%
Sir Ddinbych	96,650	49.3%	50.7%	18.0%	57.7%	24.3%
Sir y Fflint	156,850	49.2%	50.8%	18.4%	60.4%	21.2%
Wrecsam	136,050	50.4%	49.6%	19.1%	60.5%	20.4%

Cymru	3,169,600	49.3%	50.7%	17.8%	61.2%	21.1%
Prydain Fawr	65,185,700	49.4%	50.6%	18.9%	62.4%	18.7%
Y Deyrnas Unedig	67,081,250	49.4%	50.6%	19.0%	62.4%	18.6%

Rhwng canol 2019 a chanol 2020 amcangyfrifir bod cyfanswm y bobl sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol wedi cynyddu tua 1,000 neu 0.8%. Fel arfer mae poblogaeth y Fwrdeistref Sirol yn cynyddu ychydig flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Ers 2010 mae poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cynyddu 3,500, sy'n 3.1% – cyfartaledd o 0.3% y flwyddyn, er nad yw cyfraddau newid wedi bod yn gyfartal dros y cyfnod. Yn yr un cyfnod tyfodd poblogaeth Cymru 3.9% a thyfodd poblogaeth y Deyrnas Unedig 6.9%.

Erbyn 2040 rhagwelir:

- Os yw'r duedd twf canolog yn parhau, bydd gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth o 123,000 – cynnydd o 4,800 (4.1%) o lefelau 2020 amcangyfrifon canol blwyddyn. Rhagwelir y bydd Bwrdeistref Sirol Conwy yn gyfystyr â 3.6% o boblogaeth Cymru ac o dan 0.2% o boblogaeth y DU sy'n debyg i'r ffigyrau cyfredol. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn tyfu o 3.6% yng Nghymru ar y cyfan yn yr un cyfnod, ac o 6.8% yn y DU.
- Os yw'r duedd amrywiolyn twf is yn parhau, bydd gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth o 117,750 – gostyngiad o -450 (-0.4%).
- Os yw'r duedd amrywiolyn twf uchel yn parhau, bydd gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth o 126,900 – cynnydd o 8,700 (7.4%).

Tabl 1.3: amcanestyniadau poblogaeth 2020-2040

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, ONS; amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol, sail-2018, Llywodraeth Cymru; amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol, sail-2018, ONS

	BS Conwy prif amcan-estyniad	BS Conwy Twf is	BS Conwy Twf uwch	Cymru Prif-amcan estyniad	DU Prif amcan estyniad
2020 (amcangyfrif canol flwyddyn)	118,200	118,200	118,200	3,169,600	67,081,250
2025	119,200	118,400	119,800	3,185,850	68,413,850
2030	120,450	118,550	121,900	3,222,650	69,624,050
2035	121,700	118,350	124,250	3,254,600	70,667,700
2040	123,000	117,750	126,900	3,284,300	71,641,700
Newid 2020-2040	4.1%	-0.4%	7.4%	3.6%	6.8%
Newid Blynnyddol ar gyfartaledd	0.2%	0.0%	0.4%	0.2%	0.3%

Nid yw poblogaeth y Fwrdeistref Sirol yn disodli ei hun yn naturiol. Gyda marwolaethau dros gyfnod o ddeng mlynedd yn gyfartaledd o 1,550 y flwyddyn a genedigaethau cyn lleied â 1,100 byddai poblogaeth BS Conwy yn lleihau tua 450 unigolyn y flwyddyn os na fyddai mudo mewnol i'r ardal. Mae nifer y genedigaethau a'r marwolaethau yn gymharol sefydlog bob blwyddyn. Mae mudo yn gyfran newid poblogaeth mwy cyfnewidiol sy'n anodd ei fesur, ac anoddach fyth i'w ragfynegi.

Tai a threfniadau byw

Aelwydydd (Cyfrifiad 2011)	BS Conwy	Cymru	Cymru a Lloegr
Cyfanswm yr aelwydydd	51,177	1,302,676	23,366,044
Holl aelwydydd un person	33.8%	30.8%	30.2%
- Un person oedran 65+	17.1%	13.7%	12.4%
Holl aelwydydd â phlant dibynnol	24.5%	28.2%	29.1%
- Rhiant unigol, plant dibynnol	6.2%	7.5%	7.2%
Holl aelwydydd pensiynwyr yn unig	29.2%	22.9%	20.9%

Incwm & budd-daliadau

Ffynhonnell Data: Gellir defnyddio'r ystadegau hyn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Cynhyrchwyd gan yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Gorffennaf 2021 uned.ymchwil@conwy.gov.uk / <http://www.conwy.gov.uk/ystadegau>

Incwm aelwydydd (CACI Pay Check 2020)	BS Conwy	Cymru	PF
Incwm canolrifol	29,450	29,000	33,300
Incwm chwarter isaf	17,200	16,600	18,650
Aelwydydd islaw 60% o ganol Prydain Fawr (= £19,967)	31.5%	32.9%	27.7%
Budd-daliadau (DWP Tachwedd 2020)	BS Conwy	Cymru	PF
Plant (oedran 0-15) Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)	5.5%	4.7%	4.4%
Oedran gweithio (oedran 16-66)			
Credyd Cynhwysol	14.4%	13.7%	13.8
Lwfans Ceisio Gwaith (JSA)	0.8%	0.6%	0.7%
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)	6.2%	6.5%	4.4%
Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)	0.3%	0.2%	0.6%
Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP)	7.7%	7.9%	5.4%
Lwfans Gofalwr	3.1%	3.1%	2.4%
Pensiynwyr (oedran 67+) Pensiwn y Wladwriaeth	29,250		
Credyd Pensiwn	13.7%	15.2%	13.8%
Lwfans Gweini	17.7%	17.0%	14.2%
Lwfans Anabledd (DLA)	5.7%	9.2%	5.5%
Taliadau Annibyniaeth Bersonol (PIP)	3.8%	5.3%	3.4%
Lwfans Gofalwr	3.8%	4.2%	2.9%

Tlodi ac amddifadedd

Ffynhonnell Data: Gellir defnyddio'r ystadegau hyn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Cynhyrchwyd gan yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Gorffennaf 2021 uned.ymchwil@conwy.gov.uk / <http://www.conwy.gov.uk/ystadegau>

Tlodi ac amddifadedd Plant mewn teuluoedd incwm isel – tlodi incwm cynharol (DWP 2019/2020)	BS Conwy	Cymru	PF
Plant mewn teuluoedd mewn gwaith	17.3%	16.8%	16.8%
Plant mewn teuluoedd nid mewn gwaith	7.4%	8.2%	6.7%
Cyfanswm	24.6%	25.0%	23.5%
Fel % yr holl blant 0-15 oed 'mewn gwaith' yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy. Tlodi incwm cynharol = islaw 60% o ganolrif y DU			
Mynegai amddifadedd lluosog (Llywodraeth Cymru 2019)		BS Conwy	
Cyfanswm ACEI mewn ardaloedd Mae data amddifadedd yn dangos nifer yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is (ACEI) yn yr ardal sy'n y 10% a 25% ACEI mwyaf amddifadus		71	
		10%	25%
Mynegai cyffredinol		4	11
Incwm		5	14
Cyflogaeth		5	15
Iechyd		3	10
Addysg		1	9
Mynediad i wasanaethau		9	18
Tai		6	17
Diogelwch cymunedol		0	4
Amgylchedd ffisegol		6	16

Economi a Chyflogaeth

Diwydiant Cyflogaeth (Cyfrifiad 2011)	BS Conwy	Cymru	Cymru a Lloegr
Pawb mewn gwaith (oed 16-74)	50,093	1,363,615	26,526,336
Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota	2.1%	1.7%	0.9%
Cloddio, chwarela, ynni, dŵr	1.6%	1.9%	1.5%
Cynhyrchu	4.9%	10.5%	8.9%
Adeiladu	8.2%	8.2%	7.7%
Cyfanwerthu a manwerthu	17.0%	15.6%	15.9%
Cludiant a storio	3.7%	3.9%	5.0%
Llety a gwasanaethu bwyd	9.9%	6.2%	5.6%
Cyfathrebu, cyllid, llety	5.2%	6.6%	9.7%
Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol	4.6%	4.3%	6.6%
Gwasanaeth cefnogi a gweinyddol	3.7%	4.0%	4.9%
Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn	7.1%	7.9%	6.0%
Addysg	10.2%	10.1%	9.9%
Iechyd a gwaith cymdeithasol	16.7%	14.5%	12.5%
Eraill	5.1%	4.5%	5.0%
Yn gweithio o'r cartref yn bennaf	7.2%	5.4%	5.4%
Dim cymhwyster (pawb oed 16+)	25.6%	25.9%	22.7%
Cymwysterau lefel 4 ac uwch	25.5%	24.5%	27.2%

Genedigaethau

Yn 2020 ganwyd 950 o fabanod i breswylwyr Bwrdeistref Sirol Conwy. Roedd hyn tua 50 yn llai o enedigaethau nag yn 2019.

Tabl 1.4: genedigaethau a ffrwythlondeb, 2020

Ffynhonnell: tabl ystadegau hanfodol VS1, ONS

	BS Conwy	Cymru	Cymru a Lloegr
Cyfanswm genedigaethau byw	950	28,650	613,950
Cymhareb G:B (2019)	1.14	1.05	1.06
Cyfradd enedigaeth amrwd	8.1	9.0	10.3
GFR	56.7	50.9	55.1
TFR	1.69	1.47	1.58

Nodwch: dyma'r data ar gyfer blwyddyn galendr 2020

Diffiniadau : Cyfradd enedigaeth amrwd = y 1000 preswylwyr:

Mae'r cyfradd ffrwythlondeb gyffredinol (GFR) yn nodi nifer y genedigaethau byw i bob 1,000 o fenywod 15-44 oed.

Cyfartaledd y gyfradd ffrwythlondeb (TFR) yw nifer cyfartalog y plant a fyddai'n cael eu geni i bob merch pe byddai merched yn profi'r cyfraddau ffrwythlondeb penodol i'w hoedran yn y flwyddyn galendr.

Tabl 1.5: Cyfraddau genedigaethau Bwrdeistref Sirol Conwy dros y blynyddoedd diwethaf

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

Blwyddyn	BS Conwy
2019	1,008
2018	1,013
2017	1,016
2016	1,050
2015	1,117

Plant

Diffinnir plant fel unigolion yn y boblogaeth sydd dan 16 oed.

Yn 2020 roedd 18,850 o bobl dan 16 oed ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

- Rhwng 2019 a 2020 gostyngodd nifer y bobl yn y boblogaeth dan 16 oed -0.7%. Yn y cyfnod deng mlynedd rhwng 2010 a 2020 lleihaodd nifer y bobl dan 16 oed o tua 300 o bobl, lleihad o -1.5%.
- Mae nifer y plant yn y boblogaeth wedi bod yn lleihau yn raddol dros y ddegawd ddiwethaf, gan adlewyrchu'r lleihad yn nifer y babanod a aned ar ddiwedd y 1990au / dechrau'r 2000au a'r dychwelyd at y duedd hon o gyfraddau genedigaeth is yn yr wyth mlynedd diwethaf fel ei gilydd.
- Mae'r grŵp oedran hwn yn 16.0% o'r boblogaeth o'i gymharu â 16.2% yn 2019 a 16.7% yn 2010. Erbyn 2040 rhagwelir y byddai yn 14.4% o'r boblogaeth yn unig.
- Mae poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy o 16.0% dan 16 oed yn cymharu ag 17.8% yng Nghymru gyfan ac 19.0% ledled y DU.
- Cymhareb gwrywod:benywod ar gyfer plant ym Mwrdeistref Sirol Conwy yw 100:93.7. Mae hyn yn cymharu â chyfraddau Cymru a'r DU. Nid yw'r gymhareb yn union gyfartal, oherwydd mae mwy o fechgyn yn cael eu geni na merched.

Iaith Gymraeg

- Roedd canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn amcangyfrif bod 30,600 o bobl 3 oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg a oedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Cymru.
- Roedd y gallu i siarad Cymraeg yn fwyaf cyffredin ymhlith y rhai o oedran ysgol a chynyddodd nifer yr achosion o siaradwyr Cymraeg tua'r gorllewin, a tua'r mewndir i'r ardaloedd mwy gwledig i ffwrdd o'r ardaloedd mwy poblog ar hyd yr arfordir.
- Fodd bynnag, mae llawer mwy o siaradwyr Cymraeg o ran niferoedd yn yr ardaloedd trefol nag yn yr ardaloedd gwledig sydd â phoblogaeth gwasgaredig.

Ethnigrwydd / Saesneg fel ail iaith

- Roedd grŵp ethnig Gwyn Prydeinig yn ffurfio 95.4% o'r boblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn ôl cyfrifiad 2011 (Cymru = 93.2%, Lloegr a Chymru = 80.5%). Yn 2001 roedd y grŵp hwn yn 96.8% o'r boblogaeth.
- Roedd y grŵp ethnig 'gwyn arall' yn cynnwys Gwyddelod, Ewropeaid gwyn eraill, Awstraliaid gwyn, a phobl wyn o'r Americas yn 2.3% o'r boblogaeth neu 2,650 o bobl yn 2011 o gymharu â 2.2% yn 2001. Yn 2011 y ffigwr ar gyfer Cymru oedd 2.4% a 5.5% ar gyfer Lloegr a Chymru.
- Roedd pobl ag ethnigrwydd cymysg yn 0.8% o'r boblogaeth yn 2011. Mae hyn yn cymharu â 0.4% yn 2001. Mae hyn tua 1,650 o bobl yn 2011. Mae'n cymharu â chanrannau o 1.0% yng Nghymru a 2.2% yn Lloegr a Chymru fel cyfanrwydd.
- Roedd yr holl ethnigrwydd eraill yn 1.5% o'r boblogaeth neu thua 1,800 o bobl, wedi cynyddu o 0.7% o'r boblogaeth neu 750 o bobl yn 2001. Mae hyn yn cymharu â chanlyniadau cyfrifiad 2011 o 3.4% ar draws Cymru a 11.8% ar gyfer Lloegr a Chymru. Y grŵp ethnig mwyaf o fewn y cyfanswm hwn ym Mwrdeistref Sirol Conwy yw Tsieineaidd gyda 0.3% o'r boblogaeth neu oddeutu 400 o bobl.

- Fe wnaeth Cyfrifiad 2011 hefyd ganfod fod gan tua 2% o gyfanswm poblogaeth y Fwrdeistref Sirol brif iaith sy'n wahanol i Gymraeg neu Saesneg. I'r rhai 3-15 oed roedd y ffigwr tua 1% neu tua 170 o blant. Mae Conwy wedi gweld cynnydd yn nifer y disgyblion sydd heb y Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf.

Ethnigrwydd mewn ysgolion

- Mae ysgolion yn monitro ethnigrwydd (a chenedl mewn rhai achosion) eu disgyblion. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer ysgolion ym Mwrdeistref Sirol Conwy wedi cael eu grwpio yn y tabl isod gan ddefnyddio categorïau'r Cyfrifiad. Mae data hefyd wedi cael ei ddarparu ar gyfer 'gwledydd newydd eu derbyn i'r UE'.
- Mae'r gyfran o ddisgyblion Prydeinig gwyn yn dipyn is na ffigwr Cyfrifiad 2011 ar gyfer y boblogaeth gyfan.
- Mae'r ffigyrau hyn hefyd yn cynnwys plant sy'n byw tu allan i'r ardal a addysgwyd yn ysgolion Awdurdod Addysg Lleol Conwy.

Tabl 1.5: grwpiau ethnig yn ysgolion Bwrdeistref Sirol Conwy
Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion

	2021		2011		2004	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Pob disgybl	15,857		16,012		15,496	
Gwyn Prydeinig	14,682	92.6%	15,181	94.8%	14,898	96.1%
Sipsi / Teithiwr	23	0.1%	12	0.1%	9	0.1%
Gwyn arall	358	2.3%	171	1.1%	156	1.0%
Cymysg	406	2.6%	267	1.7%	146	0.9%
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	153	1.0%	137	0.9%	57	0.4%
Du neu ddu Prydeinig	32	0.2%	20	0.1%	16	0.1%
Tsieineaidd neu Tsieineaidd Prydeinig	56	0.4%	33	0.2%	26	0.2%
Grŵp ethnig arall	61	0.4%	35	0.2%	25	0.2%
Ddim yn gwybod	86	0.5%	156	1.0%	163	1.1%
*Gwledydd newydd eu derbyn i'r UE	134	0.8%	30	0.2%	-	-

*Mae'r is-grŵp yma hefyd wedi ei gynnwys yn y categori 'gwyn arall' ac mae'n cynnwys gwledydd wnaeth ymuno â'r UE ers 2004: Bwlgaria, Croatia, Cyprus, Y Weriniaeth Siec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Malta, Gwlad Pwyl, Romania, Slofacia, Slofenia. Ni chasglwyd y data hwn yn 2004.

Anabledd

- Mae awdurdodau unedol yng Nghymru yn cadw cofrestr o gleientiaid gwasanaethau cymdeithasol gydag anableddau dysgu, corfforol neu synhwyraidd. Fodd bynnag, gan mai dim ond pobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau sydd ar y cofrestr, maent yn dangyfrifiad o bobl gydag anableddau. Mae'r tabl isod yn dangos y data diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer BS Conwy.

Tabl 2.3: Pobl sy'n derbyn taliadau budd-dal Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Bersonol, Awst 2020

Ffynhonnell: data budd-daliadau yr Adran Gwaith a Phensiynau, NOMIS & Stat-Xplore

	BS Conwy		Cymru	PF
	Nifer	fel % grŵp oedran	fel % grŵp oedran	fel % grŵp oedran
Pob person	14,528	12.4%	11.9%	8.4%
O dan 16 oed	1,038	5.5%	4.7%	4.3%
16-64 oed	5,494	8.0%	8.1%	5.9%
65+ oed	7,998	27.3%	31.6%	23.1%

Sylwer: mae'r ffigyrau hyn yn dangyfrifiad o bobl gydag anableddau.

- Mae rhywfaint o wybodaeth hefyd ar gael drwy ddata budd-daliadau Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) am bobl sy'n derbyn budd-daliadau Lwfans Byw i'r Anabl, Taliad Annibyniaeth Bersonol neu Lwfans Gweini.
- Nid yw hwn yn gyfrif cyflawn o'r holl bobl sydd ag anableddau gan na fydd pawb yn hawlio budd-daliadau (er enghraifft, os ydynt yn gweithio), ac efallai na fydd gan rai pobl sy'n anabl hawl i dderbyn taliadau. Mae'r data yma ar gael yn ôl y prif reswm dros hawlio a hyd y cais, yn ogystal ag yn ôl grŵp oedran.
- Er nad yw'n fesuriad o anabledd, mae data hefyd ar gael am bobl sydd â hawl i gael budd-daliadau allan-o-waith oherwydd rhesymau meddygol neu analluogrwydd (Lwfans Cefnogaeth Cyflogaeth neu Fudd-daliadau Analluogrwydd). Ym mis Awst 2020, y ffigwr ar gyfer BS Conwy oedd 4,423 o hawl wyr. Mae dadansoddiad o'r ffigwr hwn yn ôl rheswm meddygol dros hawlio ar gael hefyd.
- Nid yw'n bosibl eto gallu defnyddio'r ystadegau a gyhoeddwyd ar gyfer Credyd Cynhwysol i nodi hawl wyr sydd â hawl i gael budd-daliadau allan-o-waith oherwydd rhesymau meddygol neu analluogrwydd, ond bydd y wybodaeth hon yn cael ei hychwanegu i'w bwletin hwn pan fydd ar gael.

Plant ag Anableddau

- Gwybodaeth am nifer y plant ag anableddau. Nifer y plant o dan 16 oed sy'n hawlio lwfans anabledd yng Nghonwy yw 820.
- **Ffynhonnell ddata:** Ystadegau Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer Mai 2016, fel y'u cynhyrchwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac ar gael o'r system NOMIS.
- Nifer y plant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd

Anghenion Dysgu Ychwanegol fesul Sector - CBYLD – 20 Ebrill 2021				
SECTOR	CAM AAA			CYFANSWM
	A	P	S	
Cynradd	673	1051	49	1773
Uwchradd	650	686	63	1399
Arbennig	0	0	246	246
Cyfanswm	1323	1737	358	3418

A – Gweithredu Ysgol

P- Gweithredu Ysgol a Mwy

S – Datganiad Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ffynhonnell Data: Cyfrifiad Blynnyddol Ysgolion ar Lefel Disgyblion Conwy 2016

5. Trosolwg – Gwasanaethau, Lleodd a Mathau o Ofal Plant

5.1 Nifer y Darparwyr Gofal Plant a'r Math o Wasanaethau (Cofrestredig ac Heb eu Cofrestru / Cymeradwyo)

Mae Conwy yn anarferol yn yr ystyr bod ganddo un lleoliad cofrestredig sy'n lleoliad i gymuned benodol o'r tu allan i'r ardal. Nid oes yr un o'r teuluoedd sy'n defnyddio'r cyfleuster hwn yn breswylwyr yng Nghonwy. Felly at ddiben yr adroddiad ADGP nid yw'r sefydliad hwn wedi'i gynnwys yn y data. Felly, cyfanswm nifer y lleoliadau cofrestredig yng Nghonwy ym mis Gorffennaf 2021 yw 147 ond dim ond 146 fydd yn cael eu cynnwys yn yr asesiad hwn. Mae yna hefyd 2 nani wedi'u cofrestru o dan y Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021. Hyd yma nid yw'r nanis hyn wedi ymgysylltu.

Cymerwyd y data ar gyflenwad a galw o'r wybodaeth ddienw Hunanasesiad Datganiad Gwasanaeth (SASS) anhysbys a ddarperir i awdurdodau lleol gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Os cymerwyd data o unrhyw ffynhonnell arall, nodir hyn yn yr adroddiad. Gan ddefnyddio gwybodaeth leol y Timau Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwybodaeth i Deuluoedd mae'n amlwg o rai o'r ymatebion nad yw darparwyr wedi deall y cwestiynau yn llawn. Fodd bynnag, dadansoddwyd y data fel y'i derbyniwyd ac eithrio lle mae gwarchodwyr plant wedi nodi eu bod yn darparu Addysg Gynnar. Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ariannu unrhyw warchodwyr plant i ddarparu Addysg Gynnar. Fodd bynnag, gallant fod yn dilyn y cwricwlwm yn agos.

Sylwer: Trwy gydol yr adroddiad hwn cyfeirir at ofal Dydd Llawn a Meithrinfa Ddydd Llawn fel Gofal Dydd Llawn.

Nifer y darparwyr cofrestredig a heb eu cofrestru yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Math o Ofal Plant	Cofrestredig	Heb eu Cofrestru / Cymeradwyo	Gwasanaethau Gofal Plant a Gynigir	Cofrestredig	Heb eu Cofrestru / Cymeradwyo
Gwarchodwr Plant	58	0	Ar agor tymor ysgol a gwyliau	57	
			Ar agor tymor ysgol yn unig	1	
			Cyn ysgol	58	
			Ar ôl ysgol	58	
			Ar ôl 6pm	2	
			Gofal dros nos	0	
			Gofal penwythnos	3	
			Darpariaeth Gwyliau (nid yw pob un ar agor ar gyfer pob gwyliau ysgol)	57	
Gofal Dydd Plant					

Gofal Dydd Llawn	43	0	Ar agor tymor ysgol a gwyliau	29	
			Ar agor tymor yn unig	14	
			Cyn ysgol	23	
			Ar ôl ysgol	29	
			Ar ôl 6pm	1	
			Cinio	20	
			Gofal penwythnos	2	
			Cylch Meithrin neu Gylch Chwarae	16	
Gofal Dydd Sesiynol	25	0	Ar agor tymor ysgol a gwyliau	0	
			Ar agor tymor yn unig	25	
			Bore	18	
			Prynhawn	14	
			Cinio	13	
			Gofal Cofleidiol	13	
Gofal y tu allan i Oriau Ysgol	20	3	Cyn ysgol	1	
			Ar ôl Ysgol	19	
			Tymor ysgol yn unig	10	3
			Tymor ysgol a gwyliau	9	
			Gwyliau yn unig	1	
			Penwythnos	0	
			Ar ôl 6pm	0	
			Dros Nos	0	
Crèche	0	0			
Nani	2	Dim gwybodaeth	Gofal Dydd Llawn	2	
Darpariaeth Chwarae Agored	0	Yn amrywio yn ôl adnodd ac amser y flwyddyn			
CYFANSWM	148				
Mae 146 o leoliadau wedi'u cofrestru'n llawn gan CIW ac mae 2 wedi'u cofrestru o dan Gynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021					

5.2 Dosbarthiad Daearyddol

Dosbarthiad Daearyddol Darparwyr Gofal Plant a'r Gwasanaethau a ddarperir (Cofrestredig ac Wedi'u Heithrio / Cymeradwyo)

Gofal Plant Cofrestredig yn ôl Ardal	Gwarchodwyr	Gofal Dydd Llawn	Sesiynol	Clybiau tu allan i'r ysgol	Crèche	Nanis	Darpariaeth Chwarae Agored	Cyfanswm
Ardal 1 Gorllewin	11	8	7	7	0	0	0	33
Ardal 2 Gogledd	4	11	3	4	0	0	0	22
Ardal 3 Canolog	21	13	8	7	0	0	0	49
Ardal 4 Dwyrain	15	6	1	1	0	0	0	23
Ardal 5 De	7	5	6	1	0	0	0	19
CYFANSWM	58	43	25	20	0	0	0	146

Gofal Plant heb eu cofrestru / cymeradwyo yn ôl Ardal	Gwarchodwyr	Gofal Dydd Llawn	Sesiynol	Clybiau tu allan i'r ysgol	Crèche	Nanis	Darpariaeth Chwarae Agored	Cyfanswm
Ardal 1 Gorllewin	0	0	0	0	0	0	0	0
Ardal 2 Gogledd	0	0	0	0	0	0	0	0
Ardal 3 Canolog	0	0	0	1	0	0	0	1
Ardal 4 Dwyrain	0	0	0	0	0	0	0	0
Ardal 5 De	0	0	0	2	0	0	0	2
						2 Nanis ar gynllun cymeradwyo gwirfoddol - ni allwn nodi lle maent yn gweithredu	Mae chwarae mynediad agored yn cael ei redeg o bryd i'w gilydd yn dibynnu ar gyllid ac adnoddau.	

Dosbarthiad Daearyddol y lleoedd gofal plant cofrestredig yn ôl math o'r ffurflen SASS:

Lleoedd Amser Tymor yn ôl ardal:

Gofal Plant Cofrestredig yn ôl Ardal	Gwarchodwyr	Gofal Dydd Llawn	Sesiynol	Clybiau tu allan i'r ysgol	Crèche	Nanis	Darpariaeth Chwarae Agored	Cyfanswm
Ardal 1 Gorllewin	76	233	196	328	0	0	0	833
Ardal 2 Gogledd	34	427	76	110	0	0	0	647
Ardal 3 Canolog	186	641	206	175	0	0	0	1208
Ardal 4 Dwyrain	118	292	19	39	0	0	0	468
Ardal 5 De	59	108	125	24	0	0	0	316
CYFANSWM	473	1701	622	676	0	0	0	3472

Lleoedd Gwyliau yn ôl ardal:

Gofal Plant Cofrestredig yn ôl Ardal	Gwarchodwyr	Gofal Dydd Llawn	Sesiynol	Clybiau tu allan i'r ysgol	Crèche	Nanis	Darpariaeth Chwarae Agored	Cyfanswm
Ardal 1 Gorllewin	70	190	0	68	0	0	0	328
Ardal 2 Gogledd	34	382	0	110	0	0	0	526
Ardal 3 Canolog	176	508	0	175	0	0	0	859
Ardal 4 Dwyrain	124	266	0	0	0	0	0	390
Ardal 5 De	59	70	0	24	0	0	0	153
CYFANSWM	463	1416	0	377	0	0	0	2256

Gellir gweld dadansoddiad o'r ddarpariaeth gwyliau yn ôl y cyfnod gwyliau isod yn yr adran cyflenwad a galw.

Mae 2 Nani wedi cofrestru o dan Gynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021 ond nid yw'n bosibl rhoi eu lleoliadau daearyddol.

Ledled y sir nid oes Crèche. Mae darpariaeth Chwarae Agored yn amrywio yn dibynnu ar gyllid ac amser y flwyddyn - nid oes yr un wedi'i gofrestru.

Lleoedd Gofal Plant – Cyflenwad a Galw yn ôl Math o Ofal Plant

Yn ystod y cyfnod y SASS, roedd sawl ffactor nad oeddent efallai wedi rhoi gwir adlewyrchiad o'r hyn y gallai'r galw am lleoedd gofal plant fod yn y dyfodol. Yn ystod y cyfnod hwn roedd pandemig Covid 19 yn dal i effeithio ar bresenoldeb staff a phlant.

Sylwch: mae'r cwestiwn SASS sy'n ymwneud â rhestrau aros yn cyfeirio at restr aros am le “uniongyrchol” ond gall darparwyr fod wedi cynnwys plant sydd ar restr aros ond nad oes angen lle “uniongyrchol” arnyn nhw ar hyn o bryd.

Dosbarthiad Daearyddol Lleoedd Gofal Plant yn ôl Math o Ofal Plant - Cyflenwad a Galw - Yn Ystod y Tymor

Math o Ofal Plant	Cyfanswm nifer y lleoedd ar gyfer bob math o sesiwn	Lleoedd Tymor			
		Nifer ar gyfartaledd yn mynychu bob wythnos yn ôl canlyniadau SASS	Cyfanswm lleoedd gwag yn ôl math o sesiwn.	Cyfanswm nifer plant ar restr aros yn ôl math o sesiwn.	Nifer lleoedd gofal plant sydd ei angen (h.y. nifer yn mynychu a nifer ar restr aros.
Gwarchodwyr Plant -					
Ardal 1 Gorllewin	185	100	13	14	114
Ardal 2 Gogledd	272	145	46	3	154
Ardal 3 Canolog	436	281	163	10	291
Ardal 4 Dwyrain	130	59	22	7	66
Ardal 5 De	273	94	118	4	98
CYFANSWM	1296	679	362	38	723
Gofal Dydd					
Gofal dydd llawn					
Ardal 1 Gorllewin	1043	857	123	40	897
Ardal 2 Gogledd	2196	1495	416	44	1513
Ardal 3 Canolog	3480	2353	604	28	2381
Ardal 4 Dwyrain	1838	1572	113	21	1740
Ardal 5 De	451	576	116	10	586
CYFANSWM	9008	6853	1372	143	7117
Sesiynol					
Ardal 1 Gorllewin	630	899	220	0	899
Ardal 2 Gogledd	180	125	28	0	125

Ardal 3 Canolog	434	589	26	9	598
Ardal 4 Dwyrain	38	34	0	0	34
Ardal 5 De	255	315	26	18	333
CYFANSWM	1537	1962	300	27	1989
Gofal Tu Allan i'r Ysgol					
Ardal 1 Gorllewin	328	242	222	10	252
Ardal 2 Gogledd	110	75	94	0	75
Ardal 3 Canolog	318	321	120	25	346
Ardal 4 Dwyrain	78	222	0	8	230
Ardal 5 De	24	37	20	0	37
CYFANSWM	858	897	456	43	940
Cyfanswm i bob math o ofal plant – amser tymor dros y Sir	12699	10391	2490	251	10769

Mae'n ymddangos o'r uchod bod digon o leoedd gofal plant ar draws y sir i ateb y galw cyffredinol. Fodd bynnag, o ffynonellau data eraill, Tîm Blynnyddoedd Cynnar Conwy a Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd mae'n hysbys bod bwlch mewn gofal sesiynol yn Ardal 4 i'r Dwyrain o'r sir.

Dosbarthiad Daearyddol Lleuedd Gofal Plant yn ôl Math o Ofal Plant - Cyflenwad a Galw - Yn Ystod Gwyliau Ysgol

Nid oedd dyddiadau'r SASS yn disgyn yn ystod wythnos gwyliau ysgol. Felly nid yw'n bosibl dadansoddi presenoldeb yn ôl math o sesiwn ar gyfer gofal plant yn ystod y gwyliau trwy ddefnyddio data'r SASS. Y cwestiwn a ofynnwyd gan y SASS, a oedd lleoliadau yn bwriadu agor yn ystod y gwahanol gyfnodau gwyliau. Er y gofynnwyd i ddarparwyr nodi sawl diwrnod y byddent yn agor yn ystod pob gwyliau, mae'n ymddangos bod rhai wedi ymateb gyda nifer y diwrnodau'r wythnos tra bod eraill wedi ateb gyda nifer y diwrnodau y byddent ar agor dros gyfnod y gwyliau yn gyfan gwbl. Felly nid yw'n bosibl asesu nifer y diwrnodau y byddent ar agor. Fodd bynnag, dangosir nifer y lleoliadau a'r lleuedd sydd ar gael yn ôl ardal yn ystod gwyliau.

Mae'n amlwg bod mwy o ddarparwyr yn gweithredu yn ystod gwyliau'r haf tra bod llai o leoliadau ar agor yn ystod gwyliau'r Nadolig. Nododd ychydig o leoliadau eu bod yn ansicr a fyddant yn agor ai peidio. Nid ydynt hwy wedi'u cynnwys yn y nifer sy'n cynnig gwasanaeth. Efallai eu bod yn ansicr o'r galw ac efallai na fydd yn gwneud synnwyr ariannol iddynt agor.


Nid oes darparwyr gofal plant Sesiynol ar agor yn ystod y gwyliau.



Dadansoddiad daearyddol o leoliadau sy'n agor yn ystod amseroedd gwyliau Ysgol



Gofal yn ystod Gwyliau	Gwyliau'r Haf	Hanner tymor yr Hydref	Nadolig	Hanner Tymor Chwefror	Y Pasg	Hanner Tymor Mai
Gwarchodwyr Plant						
Ardal 1 Gorllewin	10	10	4	10	9	9
Ardal 2 Gogledd	4	3	0	3	3	3
Ardal 3 Canolog	19	13	8	18	18	17
Ardal 4 Dwyrain	13	11	4	10	11	11
Ardal 5 De	7	7	0	7	6	6
Cyfanswm	53	44	16	48	47	46
Gofal Dydd Llawn						
Ardal 1 Gorllewin	5	5	5	5	5	5
Ardal 2 Gogledd	8	8	8	8	8	8
Ardal 3 Canolog	8	7	6	7	7	7
Ardal 4 Dwyrain	5	5	5	5	5	5
Ardal 5 De	3	3	2	3	3	3
Cyfanswm	29	28	26	28	28	28
Clybiau Tu Allan i Ysgol						
Ardal 1 Gorllewin	2	1	1	1	1	1
Ardal 2 Gogledd	3	4	3	4	4	4
Ardal 3 Canolog	3	3	1	3	3	3
Ardal 4 Dwyrain	0	0	0	0	0	0
Ardal 5 De	1	1	0	1	1	1
Cyfanswm	9	9	5	9	9	9
Gofal Sesiynol	0	0	0	0	0	0

Cyfanswm - Sirol	91	81	47	85	84	83
-------------------------	----	----	----	----	----	----

Nifer y lleoedd Gwyliau ar gael yn ôl ardal ddaearyddol a math o wyliau








Rhestrau Aros Lleodd Gofal Plant yn ystod cyfnodau Gwyliau

Ychydig iawn o ddarparwyr a nododd fod ganddynt restr aros am leoedd gwyliau. Nid oes unrhyw un o'r Clybiau Allan o Ysgol yn y sir restr aros.


Nid oedd dim rhestr aros am le gwyliau yn naill ai Ardal 1 Gorllewin nac Ardal 2 Gogledd y sir.

Nid oedd rhestr aros ar gyfer Hanner Tymor Hydref na gwyliau'r Nadolig.

Yr unig restr aros am wyliau ar gyfer gwarchodwyr plant oedd yn ystod gwyliau'r Haf ac fe'i dangosir yn y tabl isod. Efallai nad oedd gwarchodwyr plant wedi gofyn i'w rhieni am eu hanghenion am wyliau eraill ar yr adeg y cymerwyd y SASS:



Yr unig restr aros mewn lleoliad gofal dydd llawn oedd yn Ardal 3 Canolog gweler y siart isod. Efallai mewn gwirionedd mai yr un 8 plentyn ydynt.



Amseroedd Sesiynau Gwyliau - Nododd mwyafrif o'r darparwyr nad oes unrhyw newid amser eu sesiynau yn ystod y gwyliau i'w gymharu â'r sesiynau amser tymor. Roedd y rhai a nododd newid fel a ganlyn:


Newid mewn amser sesiynau	Ardal 1 Gorllewin	Ardal 2 Gogledd	Ardal 3 Canolog	Ardal 4 Dwyrain	Ardal 5 De
Gwarchodwyr	0	0	0	1	0
Gofal dydd llawn	0	0	3	0	0
Clybiau Tu Allan i Orlau Ysgol	2	4	2	0	1

Gall y rhan fwyaf o'r newidiadau hyn fod oherwydd bod clybiau tu allan i oriau ysgol yn agor trwy gydol y dydd yn ystod y gwyliau yn hytrach na darparu gofal cyn neu ar ôl ysgol. Nid yw rhai lleoliadau yn darparu "gofal cyn ysgol" yn ystod y tymor gan fod gan lawer o ysgolion glwb brecwast sy'n cael ei redeg dan adain y cynllun Clwb Brecwast Am Ddim i ysgolion.

Darpariaeth Eithriedig a Chymeradwy - Gwyliau Ysgol


Mae 3 chlwb ar ôl ysgol heb ei cofrestru yn y sir. Maent wedi eu lleoli ar safleoedd ysgol. Mae 2 yn Ardal 5 De ac 1 wedi'i leoli yn Ardal 4 Dwyrain. Mae'r ddau yn y De yn gyfrwng Cymraeg a'r un yn y Dwyrain yn gyfrwng Saesneg. Maent i gyd yn agored i blant sy'n mynychu'r ysgol lle maent wedi'u lleoli. Maent yn gweithredu am llai na 2 awr. Maent yn agor yn bennaf yn ôl y galw a dim ond yn ystod y tymor. Eu cost ar gyfartaledd yw £8 y sesiwn.

Darpariaeth iaith yn ôl ardal ddaearyddol:



Gellir gweld mai'r ardal gyda'r nifer fwyaf o leoliadau Cymraeg yw Ardal 5 De. Nid yw hyn yn syndod gan fod dadansoddiad demograffig yr ardal hon yn dangos fod y boblogaeth yn fwy tebygol o siarad Cymraeg.

Dadansoddiad o'r ddarpariaeth iaith yn ôl math gofal plant ledled y sir:



Gallu mewn ieithoedd eraill heblaw am y Saesneg neu'r Gymraeg:


Cantoneg / Tsiec / Pwyleg	1 gwasanaeth Gofal Dydd Llawn yn ward Marl (Ardal 1 Gorllewin)
Ffrangeg / Pwyleg	1 gwarchodwr ward Tudno (Ardal 2 Gogledd)
Iaith Arwyddion	1 gwasanaeth Sesiynol ward Eirias (Ardal 3 Canolog)
Sbaeneg	1 gwasanaeth Gofal Dydd Llawn ward Penrhyn (Ardal 2 Gogledd)

Dadansoddiad iaith staff:

O'r rhai a atebodd yr adran hon o'r SASS dangosir y dadansoddiad o allu staff i siarad Cymraeg yn y tabl isod:

Gallu staff i siarad Cymraeg	Nifer y staff yn rhugl yn y Gymraeg	Nifer y staff gyda gallu cymedrol o'r Gymraeg	Nifer y staff sydd a dim ond ychydig neu dim Cymraeg	Nifer y staff yn gweithio yn y gwasanaethau
Ardal 1 Gorllewin	31	35	63	129
Ardal 2 Gogledd	19	38	65	122
Ardal 3 Canolog	29	56	118	203
Ardal 4 Dwyrain	20	27	53	100
Ardal 5 De	53	7	4	64
Cyfanswm	152	163	303	618

O'r tabl hwn gallwn weld bod canran y staff ledled y sir sy'n gallu siarad Cymraeg fel a ganlyn:



Gellir gweld dadansoddiad pellach o'r gwasanaethau ac o gostau gofal plant ac oriau agor yn adrannau Mathau Gofal Plant yr adroddiad hwn.

Dadansoddiad o leoliad lleoliadau gofal plant:

Dyma'r dadansoddiad o lle mae lleoliadau gofal plant wedi'u lleoli ledled y sir yn ôl math o ofal plant ac yn ôl ardal:

Lleoliad Darparwyr Gofal Plant

Ardal 1 Gorllewin	Safle Ysgol	Preifat	Cyfleuster Cymunedol	Cyflogwr	Addoldy	Cyfanswm
Gwarchodwyr	0	11	0	0	0	11
Gofal Dydd Llawn	3	3	0	2	0	8
Sesiynol	6	0	1	0	0	7
Clwb Tu Allan i Orlau Ysgol	5	0	2	0	0	7
Cyfanswm	14	14	3	2	0	33

Ardal 2 Gogledd	Safle Ysgol	Preifat	Cyfleuster Cymunedol	Cyflogwr	Addoldy	Cyfanswm
Gwarchodwyr	0	4	0	0	0	4
Gofal Dydd Llawn	3	5	1	1	1	11
Sesiynol	3	0	0	0	0	3
Clwb Tu Allan i Orlau Ysgol	4	0	0	0	0	4
Cyfanswm	10	9	1	1	1	22

Ardal 3 Canolog	Safle Ysgol	Preifat	Cyfleuster Cymunedol	Cyflogwr	Addoldy	Cyfanswm
Gwarchodwyr	0	21	0	0	0	21
Gofal Dydd Llawn	6	5	1	1	0	13
Sesiynol	6	0	1	0	1	8
Clwb Tu Allan i Orlau Ysgol	4	2	1	0	0	7
Cyfanswm	16	28	3	1	1	49

Ardal 4 Dwyrain	Safle Ysgol	Preifat	Cyfleuster Cymunedol	Cyflogwr	Addoldy	Cyfanswm
-----------------	-------------	---------	----------------------	----------	---------	----------

Gwarchodwyr	0	15	0	0	0	15
Gofal Dydd Llawn	1	4	0	1	0	6
Sesiynol	0	0	1	0	0	1
Clwb Tu Allan i Orlau Ysgol	1	0	0	0	0	1
Cyfanswm	2	19	1	1	0	23

Ardal 5 De	Safle Ysgol	Preifat	Cyfleuster Cymunedol	Cyflogwr	Addoldy	Cyfanswm
Gwarchodwyr	0	7	0	0	0	7
Gofal Dydd Llawn	1	3	1	0	0	5
Sesiynol	4	0	1	0	1	6
Clwb Tu Allan i Orlau Ysgol	1	0	0	0	0	1
Cyfanswm	6	10	2	0	1	19

O'r uchod, gallwn weld bod prinder lleoedd gofal plant sy'n gallu darparu Addysg Gynnar ar safleoedd ysgolion yn Ardal 4 Dwyrain. Caeodd un ddarpariaeth gofal plant gwirfoddol yn barhaol yn ystod 2020. Mae Tîm Blynnyddoedd Cynnar Conwy a'r sefydliad ymbarél Blynnyddoedd Cynnar Cymru wedi ceisio ailgychwyn y ddarpariaeth gymunedol hon ond mae recriwtio wedi bod yn broblem gan gynnwys dod o hyd i adeilad addas yn yr ardal. Mae'r gallu i ehangu ar safleoedd ysgolion yn ardal Abergele wedi profi'n broblem. Mae cynlluniau ar gyfer ysgol newydd yn yr ardal yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Nid oes lle ar y safleoedd presennol sy'n addas i'w fuddsoddi a datblygu ymhellach. Mae'r ysgol babanod cyfrwng dwyieithog lleol yn cefnogi ar hyn o bryd drwy lenwi'r bwlch dros dro tra bod y prosesau moderneiddio ysgolion cynradd ar waith.

Ansawdd y ddarpariaeth

Yr adborth gan randdeiliaid oedd bod y gofal plant yn bennaf o ansawdd da neu'n rhagorol.

Mae cymwysterau staff gofal plant yn gyffredinol dda yng Nghonwy. Mae dadansoddiad llawn o hyfforddiant a chymwysterau'r gweithlu i'w weld yn Adran 14 o'r adroddiad hwn.

Daeth pwysigrwydd gofal plant o safon yn rhan hanfodol o'r ymateb i Covid-19. Roedd parodrwydd darparwyr i ddiwallu anghenion rhieni sy'n weithwyr allweddol wrth ymateb i'r llu o gyfyngiadau a osodwyd yn drawiadol. Yn ogystal â'r angen i adolygu eu hasesiadau risg yn gyson i sicrhau diogelwch y staff a'r plant yn eu gofal.

Llwyddodd Tîm Blynnyddoedd Cynnar a Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy i fod yn gyfrwng i ddehongli a rhannu'r wybodaeth bwysig i ddarparwyr a ddaeth gan Lywodraeth Cymru a hynny'n newid yn aml ac yn barhaus. Sicrhwyd bod ein darparwyr yn derbyn y wybodaeth

ddiweddaraf, arweiniad a chefnogaeth yn ddyddiol. Bu sefydliadau CWLWM yn cysylltu â'u haelodau ac yn darparu cymorth ychwanegol. Llwyddodd darparwyr gofal plant Conwy i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu cynnal drwy'r amser.

Ers yr ADGP diwethaf mae'r rhan fwyaf o leoliadau gofal plant sy'n cael eu rhedeg gan bwyllgorau rheoli gwirfoddol wedi cyflawni statws busnes a chyfreithiol mwy sefydlog trwy dderbyn cyngor a chymorth gan Dîm Blynnyddoedd Cynnar Conwy a'r sefydliadau ymbarél gofal plant. Mae pob un wedi cyflawni statws Sefydliad Corfforedig Elusennol ac eithrio 4 sy'n y broses o drawsnewid.

Casglwyd sgoriau'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer darparwyr gofal plant hefyd o'r SASS. Ymatebodd 122 o leoliadau i ddweud eu bod yn darparu bwyd yn eu gwasanaeth, a 24 o leoliadau ddim yn darparu bwyd. O'r 122 sy'n darparu bwyd dim ond 10 ddywedodd eu bod yn codi ffi ychwanegol am fwyd. Roedd gan 108 o leoliadau system rheoli diogelwch bwyd ar waith. Mae 90 o leoliadau wedi'u cofrestru fel busnes bwyd gyda'r Awdurdod Lleol ac mae 69 o leoliadau wedi'u harolygu gan yr Awdurdod Lleol fel busnes sy'n paratoi bwyd. O'r lleoliadau a ymatebodd i'r adran hon o'r SASS roedd gan 60 sgôr yr Asiantaeth Safonau Bwyd o 5 ac roedd gan 5 o leoliadau sgôr o 4.

6. Cyflenwad Gofal Plant

6.1. Gwarchodwyr Plant

6.1.1. Dadansoddiad o'r cyflenwad o Warchodwyr Plant

Mae'r data Gwarchodwyr Plant a ddaeth o'r SASS yn dangos bod 58 o Warchodwyr Plant cofrestredig yn y sir. Mae Gwasanaeth Gwybodaeth Teulu Conwy yn ymwybodol bod 3 pâr o'r 58 hyn yn darparu gofal gyda'i gilydd mewn cartref dynodedig un ohonynt.

Cyfanswm y lleoedd cofrestredig ar gyfer pob Gwarchodwr Plant ledled y sir yw 479.

Newidiadau yn y cyflenwad gwarchodwr plant ers i Covid-19 ddechrau (Mawrth 2020):


- 6 cofrestriad newydd (roedd rhai wedi dechrau hyfforddiant cyn Covid)
- 1 ailgofrestriad (wedi bod ar ataliad gwirfoddol)
- 3 Gwarchodwr plant ar gau dros dro
- 4 gwarchodwr plant gorffen a di-gofrestru (1 wedi ymddeol, 1 wedi symud allan o'r ardal, 2 reswm anhysbys)

laith

Defnyddiwyd y categorïau iaith isod yn y SASS i ofyn pa iaith y darperir y gofal ynddi:

- Prif iaith - Saesneg
- Prif iaith - Cymraeg
- Saesneg a Chymraeg


Dangosir dadansoddiad iaith y 58 Gwarchodwr Plant yn y siart a ganlyn.




Mae un gwarchodwr yn ward Tudno yn Ardal 2 Gogledd wedi datgan y gall gynnig Ffrangeg a Phwyleg yn ogystal â Saesneg.

Dosbarthiad daearyddol

Canran a nifer ym mhob ardal fel a ganlyn:



Mae'r nifer lleiaf o warchodwyr yn Ardal 2 Gogledd. Er bod prinder o warchodwyr yn yr ardal hon mae sawl darparwr gofal llawn.



Does dim gwarchodwyr cyfrwng Cymraeg yn ardal Gorllewin a Dwyrain o'r sir er bod darparwyr sesiynol sy'n cynnig cyfrwng Cymraeg.

Ystod o wasanaethau gwarchod plant yn ôl ardal ddaearyddol

Mae'r adran nesaf yn dangos nifer y lleoedd sydd ar gael yn ôl math o sesiwn, presenoldeb, rhestr aros a'r galw wedi'u dadansoddi yn ôl ardal ddaearyddol. Ni ddisgynnodd y dyddiadau gan y SASS yn ystod cyfnod gwyliau. Felly nid oes unrhyw ddata presenoldeb ar gael i gyfnodau gwyliau. Fodd bynnag, mae'r data ar gyfer rhestrau aros gwyliau wedi'u cynnwys.


Sylwer: Mae'r cwestiwn a ofynnwyd yn y SASS sy'n ymwneud â rhestrau aros yn cyfeirio at restr aros am le "uniongyrchol". Ond gall darparwyr fod wedi cynnwys plant sydd ar restr aros ond ddim angen lle ar hyn o bryd.

Mae'r ystod o sesiynau a ddangosir yn y siartiau fel a ganlyn:

Gofal Dydd Llawn
Gofal Hanner diwrnod AM
Gofal Hanner diwrnod PM
Gofal Cyn Ysgol
Gofal Ar ôl Ysgol
Gofal Ar ôl 6pm
Gofal Penwythnos
Gofal Dros Nos

Ardal 1 Gorllewin:

Mae 11 o warchodwyr plant yn Ardal 1 Gorllewin. Nifer y lleoedd cofrestredig o'r 11 gwarchodwr plant hyn yw 76. Dangosir nifer y lleoedd ar gyfer y sesiynau a ddarperir yn y siart a ganlyn. Nododd 3 gwarchodwr plant eu bod yn darparu Addysg Gynnar. Fodd bynnag, ym Mwrdeistref Sirol Conwy ni ariennir unrhyw warchodwyr plant i ddarparu'r lleoedd Addysg Gynnar. Efallai bod y gwarchodwyr plant hyn naill ai wedi camddeall y cwestiwn neu'n dymuno nodi eu bod yn darparu gofal cofleidiol i'r plant hynny sy'n derbyn Addysg Gynnar mewn lleoliad arall.



Yn Ardal 1 Gorllewin mae'r holl leoedd sydd ar gyfer gofal oriau anghymdeithasol, Gofal Ar ôl 6pm a gofal penwythnos yn cael eu cynnig gan un lleoliad gwarchodwr plant.

Amser agor tymor ysgol - Mae pob un o'r 11 gwarchodwr plant yn agored amser tymor. Nid yw rhai yn gweithredu bob dydd gwaith o'r wythnos.

Diwrnod yr wythnos	Nifer y gwarchodwyr sydd ar gau ar y diwrnodau hyn
Dydd Llun	2
Dydd Mawrth	0
Dydd Mercher	1
Dydd Iau	1
Dydd Gwener	4

Gwyliau - argaeledd, lleoedd a galw

Nid yw'r holl warchodwyr plant yn Ardal 1 - Gorllewin yn agor yn ystod gwyliau fel y gwelir yn y tabl isod. Mae mwy o warchodwyr plant ar gau adeg y Nadolig. Nid yw hyn yn syndod ac mae lefel ymholiadau'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn dangos bod hwn yn gyfnod isel o alw am ofal plant pan fydd llawer o rieni yn cymryd gwyliau blynyddol.

Fe welir nad oes rhestr aros yn yr ardal hon yn ystod amseroedd gwyliau

Ardal 1	Gwyliau Haf	Hanner Tymor Hydref	Nadolig	Hanner Tymor Chwefror	Y Pasg	Hanner Tymor Mai
Lleoliadau	10	10	4	10	9	9
Lleoedd	70	70	27	70	60	65
Rhestr aros	0	0	0	0	0	0

Amseroedd Agor Dyddiol:

Mae pob gwarchodwyr plant yn ardal y Gorllewin yn agor am 08:00 y bore heblaw am un sy'n agor am 08:15am


3 yn aros ar agor tan 18:00

6 yn aros ar agor tan 17:30

2 yn aros ar agor tan 17:00

Ardal 2 Gogledd

Mae 4 gwarchodwr plant yn Ardal 2 Gogledd. Nifer y lleoedd cofrestredig o'r 4 gwarchodwr plant hyn yw 34. Dangosir nifer y lleoedd ar gyfer y sesiynau a ddarperir yn y siart a ganlyn. Nododd 3 gwarchodwr plant hefyd eu bod yn darparu Addysg Gynnar. Fodd bynnag, ym Mwrdeistref Sirol Conwy ni ariennir unrhyw warchodwyr plant i ddarparu'r lleoedd Addysg Gynnar. Efallai bod y gwarchodwyr plant hyn naill ai wedi camddeall y cwestiwn neu'n dymuno nodi eu bod yn darparu gofal cofleidiol i'r plant hynny sy'n derbyn Addysg Gynnar mewn lleoliad arall.



Nid oes unrhyw warchodwyr plant yn cynnig gofal oriau anghymdeithasol yn Ardal 2 Gogledd.

Amser agor tymor ysgol - Mae pob un o'r 4 gwarchodwr plant yn agor amser tymor. Nid yw rhai yn gweithredu pob dydd o'r wythnos.

Ni atebodd gwarchodwyr plant ardal y Gogledd yr adran am ba ddyddiau o'r wythnos y maent yn agor neu'n cau.

Gwyliau - argaeledd, lleoedd a galw

Nid yw'r holl warchodwyr plant yn Ardal 2 Gogledd yn agor yn ystod gwyliau fel y dangosir yn y tabl isod. Mae mwy o warchodwyr plant ar gau adeg y Nadolig. Nid oes yr un yn agor adeg y Nadolig sy'n gyfnod o alw isel pan fydd llawer o rieni yn cymryd gwyliau blyneddol.

Nid oes rhestr aros yn yr ardal hon.


Ardal 2	Gwyliau Haf	Hanner Tymor Hydref	Nadolig	Hanner Tymor Chwefror	Y Pasg	Hanner Tymor Mai
Lleoliadau	4	3	0	3	3	3
Lleoedd	34	25	0	25	25	25
Rhestr aros	0	0	0	0	0	0

Amseroedd Agor bob Dydd:

Ni atebodd unrhyw un o'r gwarchodwyr plant yn yr ardal hon y cwestiwn ar amseroedd agor.

Ardal 3 – Canolog

Mae 21 o warchodwyr plant yn Ardal 3 Canolog. Nifer y lleoedd cofrestredig o'r 21 o warchodwyr plant hyn yw 186. Dangosir nifer y lleoedd ar gyfer y sesiynau a ddarperir yn y siart a ganlyn.



Mae'r holl lleoedd ar gyfer gofal oriau anghymdeithasol, ar ôl 6pm a gofal penwythnos yn Ardal 3 Canolog yn cael eu cynnig gan un lleoliad gwarchodwr plant.

Amser agor tymor - Mae pob un o'r 21 gwarchodwyr plant yn agor amser tymor.

Nid yw rhai gwarchodwyr plant ar agor bob dydd o'r wythnos fel a ganlyn:

Diwrnod yr wythnos	Nifer y gwarchodwyr sydd ar gau ar y diwrnodau hyn
Dydd Llun	0
Dydd Mawrth	1
Dydd Mercher	0
Dydd Iau	2
Dydd Gwener	8

Gwyliau – argaeledd, lleoedd a galw

Ardal 3	Gwyliau Haf	Hanner Tymor Hydref	Nadolig	Hanner Tymor Chwefror	Y Pasg	Hanner Tymor Mai
Lleoliadau	19	13	8	18	18	17
Lleoedd	156	110	72	156	156	120
Rhestr aros	3	0	0	0	0	0

Nid yw pob gwarchodwr plant yn Ardal 3 Canolog ar agor yn ystod amseroedd gwyliau. Mae llai ar agor yn ystod gwyliau'r Nadolig sy'n gyfnod o alw isel.

Mae rhestr aros o 3 phlentyn yn ystod gwyliau'r Haf.

Amseroedd Agor Dyddiol:

Mae amseroedd agor a chau gwarchodwyr plant yn yr ardal hon fel a ganlyn:


2 yn agor am 7:30 am
 1 yn agor am 7:50 am
 15 yn agor am 8:00 am
 1 yn agor am 8:30 am
 1 yn agor am 15:00 ar gyfer gofal ar ôl ysgol yn unig

Mae'r amseroedd cau fel a ganlyn:

1 yn cau am 17:00
 9 yn cau am 17:30
 1 yn cau am 17:35
 9 yn cau am 18:00

Ardal 4 Dwyrain

Mae 15 o warchodwyr plant yn Ardal 4 Dwyrain. Nifer y lleoedd cofrestredig o'r 15 gwarchodwr plant hyn yw 124. Dangosir nifer y lleoedd ar gyfer y sesiynau a ddarperir yn y siart a ganlyn.



Nid oes unrhyw warchodwyr plant yn cynnig gofal oriau anghymdeithasol yn Ardal 4 Dwyrain.

Amser agor tymor - O'r 15 gwarchodwr plant yn Ardal 4 Dwyrain mae 14 yn agor amser tymor. Nid yw rhai yn gweithredu bob dydd o'r wythnos.

Mae rhai gwarchodwyr plant yn cau rai diwrnodau o'r wythnos fel a ganlyn:

Diwrnod yr wythnos	Nifer y gwarchodwyr sydd ar gau ar y diwrnodau hyn
Dydd Llun	2
Dydd Mawrth	0
Dydd Mercher	1
Dydd Iau	0
Dydd Gwener	3

Gwyliau - argaeledd, lleoedd a galw

Mae 1 gwarchodwr plant yn ardal y Dwyrain 4 yn gweithredu yn ystod y gwyliau yn unig ar gyfer plant oed ysgol nad oes angen gofal arnynt yn ystod y tymor. Mae hi wedi cofrestru ar gyfer 6 lle.

O'r 15 gwarchodwr plant yn yr ardal hon dim ond 13 sy'n darparu gofal gwyliau. Gweler y tabl isod.

Mae un plentyn ar y rhestr aros am wyliau'r Haf.

Ardal 4	Gwyliau Haf	Hanner Tymor Hydref	Nadolig	Hanner Tymor Chwefror	Y Pasg	Hanner Tymor Mai
Lleoliadau	13	11	4	10	11	11
Lleoedd	109	92	34	83	93	93
Rhestr aros	1	0	0	0	0	0

Amseroedd Agor Dyddiol:

O'r gwarchodwyr plant a atebodd yr adran hon mae'r amseroedd agor a chau fel a ganlyn:

2 ar agor am 7:30

3 ar agor am 7:45

8 ar agor am 8:00

1 yn cau am 17:00


6 yn cau am 17:30

1 yn cau am 17:50

5 yn cau am 18:00

Ardal 5 De

Mae 7 gwarchodwr plant yn Ardal 5 De. Nifer y lleoedd cofrestredig o'r 7 gwarchodwr plant hyn yw 59. Dangosir nifer y lleoedd ar gyfer y sesiynau a ddarperir yn y siart a ganlyn.



Cynigir gofal plant penwythnos yn Ardal 5 De gan un gwarchodwr plant yn unig.

Amser agor tymor yr ysgol – Mae'r 7 gwarchodwr plant ar agor yn ystod tymor yr ysgol. Nid yw rhai ar agor pob diwrnod o'r wythnos.

Mae rhai gwarchodwyr yn cau rhai diwrnodau'r wythnos fel a ganlyn:

Diwrnod yr wythnos	Nifer y gwarchodwyr sydd ar gau ar y diwrnodau hyn
Dydd Llun	1
Dydd Mawrth	0
Dydd Mercher	1
Dydd Iau	0
Dydd Gwener	2

Gwyliau – argaeledd, lleoedd a galw

Mae pob un o'r 7 gwarchodwr plant cofrestredig yn Ardal 5 y De yn darparu gofal gwyliau, er nad oes yr un ar agor yn ystod gwyliau'r Nadolig sy'n gyfnod o alw isel. Dangosir dadansoddiad o leoliadau a lleoedd yn y tabl isod.

Dim ond 1 plentyn sydd ar restr aros yn ystod gwyliau'r haf.

Ardal 5	Gwyliau Haf	Hanner Tymor Hydref	Nadolig	Hanner Tymor Chwefror	Y Pasg	Hanner Tymor Mai
Lleoliadau	7	7	0	7	6	6
Lleoedd	59	59	0	59	49	49
Rhestr aros	1	0	0	0	0	0

Amseroedd Agor Dyddiol:

O'r gwarchodwyr plant a ymatebodd i'r adran hon mae'r amseroedd cau ac agor fel a ganlyn:

3 ar agor am 7:45

4 ar agor am 8:00


2 yn cau am 17:00

3 yn cau am 17:30

2 yn cau am 18:00

Costau

Daeth y data costau oddi ar wefan Dewis. Dyma'r costau fesul awr ar gyfartaledd ar gyfer gwarchodwyr plant ledled y sir.




O'r rhai atebodd y cwestiwn am ostyngiadau ar y SASS mae 13 o'r gwarchodwyr yn cynnig gostyngiadau i frodyr a chwiorydd.

Oedran

Mae pob gwarchodwr plant yn cynnig gofal i blant o oedran geni heblaw un yn Llandudno sy'n gofalu am blant o 3 mis oed, un ym Mae Colwyn yn cynnig gofal o 6 mis oed ac un arall o 12 mis oed.

Nid oes yr un ohonynt yn cynnig gofal i blant dros 12 oed.

Dyma ddadansoddiad o nifer y plant ar y llyfrau gan Warchodwyr Plant dros y sir.



Cynnig Gofal Plant i Gymru

Mae pob gwarchodwr plant yng Nghonwy wedi cofrestru ar Gynnig Gofal Plant i Gymru, heblaw am un. Mae'r gwarchodwr plant hwn yn Ardal 1 Canolog.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y gwarchodwyr plant sydd wedi cofrestru i gynnig y Cynnig Gofal Plant i Gymru. Ond ar adeg y SASS nid oeddent yn derbyn cyllid o dan y cynllun. Gallai hyn fod oherwydd nad oes ganddynt blant yn y grŵp oedran hwnnw, neu oherwydd nad yw gwarchodwyr plant yn cael eu hariannu i ddarparu Addysg Gynnar a gall rhieni ddewis gofal cofleidiol ar safleoedd ysgolion lle mae hyn yn bodoli.

Ardal 1 Gorllewin	5 gwarchodwr
Ardal 2 Gogledd	1 gwarchodwr
Ardal 3 Canolog	9 gwarchodwr
Ardal 4 Dwyrain	8 gwarchodwr
Ardal 5 De	1 gwarchodwr

Trosolwg o'r iaith a gynigir gan y rhai sy'n darparu Cynnig Gofal Plant i Gymru

Gwarchodwyr Plant	Nifer y lleoliadau cyfrwng Saesneg sydd wedi'u cofrestru i gyflawni'r Cynnig	Nifer y lleoliadau cyfrwng Cymraeg sydd wedi'u cofrestru i gyflawni'r Cynnig	Nifer y lleoliadau sydd wedi cofrestru i ddarparu'r Cynnig sy'n defnyddio'r Saesneg a'r Gymraeg
Ardal 1 Gorllewin	10	0	1
Ardal 2 Gogledd	4	0	0
Ardal 3 Canolog	17	3	1
Ardal 4 Dwyrain	13	0	1
Ardal 5 De	2	2	2

Gofal plant di-dreth

Mae'r cwestiwn ar y SASS yn gofyn a oes gan warchodwyr plant rieni sy'n defnyddio'r gofal plant di-dreth ar hyn o bryd yn hytrach na gofyn ydynt wedi cofrestru i ymuno â'r cynllun. Dyma'r canlyniadau o'r SASS.

Ardal 1 Gorllewin	5
Ardal 2 Gogledd	4
Ardal 3 Canolog	17
Ardal 4 Dwyrain	10
Ardal 5 De	5
Cyfanswm rhieni sy'n defnyddio GPDD	41


Felly ar hyn o bryd mae gan 41 o'r 55 lleoliadau deuluoedd sy'n hawlio'r gofal plant di-dreth

Dechrau'n Deg – mae un gwarchodwr yn Ardal 3 Canolog yn darparu Dechrau'n Deg.

Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Anghenion Addysgol Arbennig


Dyma'r data Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sirol ar gyfer y darparwyr Gwarchodwyr Plant a atebodd yr adran ADY o'r ffurflen SASS.

Gwarchodwyr Plant - darpariaeth ADY/AAA



Gweler isod cyfanswm y nifer y plant sy'n derbyn cefnogaeth gan warchodwyr plant yn y sir.

Nifer ADY/AAA a gefnogir gan warchodwyr



Cymwysterau

Gweler y wybodaeth o'r ffurflen SASS ar gyfer cymwysterau gwarchodwr plant yn y siart isod.


Y cwestiwn a ofynnwyd yn y SASS oedd "Pa un o'r cymwysterau canlynol sydd gennych chi?"

Deall sut i sefydlu Gwasanaeth Gofal Plant yn y Cartref – CYPOP 5

Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (CCLD)

Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref – CGPC (IHC)

Paratoi ar gyfer ymarfer ym maes gwarchod plant – PGP (PCP)



Cymwysterau eraill a gyflawnwyd gan warchodwyr plant yng Nghonwy oedd:

Gwobr Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae (L2APP) - 1 gwarchodwr plant

Gwobr Lefel 3 wrth Drosglwyddo i Chwarae o Flynyddoedd Cynnar - 1 gwarchodwr plant

Gwaith Chwarae Diploma Lefel 3; Egwyddorion ar Waith. (P3) yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma - 1 gwarchodwr plant

Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae - 1 gwarchodwr plant

Cryfderau a Gwendidau

Cryfderau:

- Mae Gwarchodwyr plant yn darparu ystod eang o wasanaethau gyda'r mwyafrif yn darparu dewis o ofal amser llawn neu ran-amser.
- Mae'r rhan fwyaf o Warchodwyr Plant ar agor yn ystod y gwyliau ac yn debygol o gynnig oriau hyblyg.
- Mae gwarchodwyr plant yn cynnig gofal i ystod eang o grwpiau oedran. Fel y gwelir ar y siartiau uchod, maent yn barod i drafod darparu gofal i'r oedran hŷn.
- Dim ond 4 o blant sydd ar restr aros ledled y sir sy'n awgrymu bod cyflenwad digonol yn y math hwn o ofal plant. Cyfeiriodd y cwestiwn ynghylch rhestrau aros a ofynnwyd yn y SASS at y rhai ar restr aros am le "ar unwaith". Mae'n ddigon posib bod hyn wedi'i gamddehongli gan Warchodwyr Plant sy'n aml yn dal rhestr aros ar gyfer teuluoedd lle gallai rhiant fod ar gyfnod mamolaeth.
- Mae'r cyflenwad o Warchodwyr Plant wedi aros yn gyson er gwaethaf heriau Covid.
- Roedd mwyafrif y Gwarchodwyr Plant yn ymwybodol o'r cod ADY
- Mae pob un o'r Gwarchodwyr Plant yng Nghonwy yn cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant i Gymru heblaw am un.
- Heblaw yn ardal y Gogledd, mae Gwarchodwyr Plant yn gyffredinol yn opsiwn rhatach i rieni.

Gwendidau:

- Nid yw nifer y'r Gwarchodwyr Plant yn cynnig gofal bob dydd o'r wythnos ond yn dewis gweithio 4 diwrnod yr wythnos.
- Nid oes fawr o ddewis o Warchodwyr Plant mewn rhai ardaloedd, yn enwedig Ardaloedd 1 Gorllewin a 2 Gogledd.
- Ychydig iawn o Warchodwyr Plant yn ardaloedd arfordirol y sir sy'n gallu darparu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dim ond 3 Gwarchodwr Plant ledled y sir sy'n cynnig oriau anghymdeithasol neu ofal penwythnos. Er bod hwn yn gynnydd o'i gymharu â'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) llawn ddiwethaf.

6.2. Gofal Dydd Llawn / Meithrinfa Dydd Llawn

6.2.1. Dadansoddiad o'r cyflenwad o ofal Dydd Llawn / Darpariaeth Meithrinfa Ddydd Llawn

Defnyddir y diffiniad Gofal Dydd Llawn drwy'r adroddiad i gynrychioli Gofal Dydd Llawn a Gofal Meithrinfa Dydd Llawn.

Mae'r data Gofal Dydd Llawn a ddarperir o'r ffurflen SASS yn dangos bod 43 o ddarparwyr gofal Dydd Llawn cofrestredig yn y sir. Mae'r rhain yn gyfuniad o Feithrinfeydd Dydd a Chylchoedd Meithrin neu Grwpiau Chwarae sy'n darparu mwy na 4 awr o ofal y dydd.

Cyfanswm y lleoedd cofrestredig ar gyfer yr holl ofal Dydd Llawn ledled y sir yw 1701.


Newidiadau yn y cyflenwad darparwyr gofal Dydd Llawn ers i bandemig Covid-19 ddechrau (Mawrth 2020) - Nid oes yr un wedi cau yn ystod y cyfnod hwn er bod un feithrinfa yn Ardal 4 Dwyrain wedi cau cyn Covid -19. Mae 1 lleoliad newydd wedi cofrestru yn Ardal 2 Gogledd.

laith

Y categorïau o'r iaith y darperir y gofal ynddynt o'r ffurflen SASS oedd:

- Prif iaith - Saesneg
- Prif iaith - Cymraeg
- Saesneg a Chymraeg

Dangosir dadansoddiad iaith y 43 darparwr Gofal Dydd Llawn yn y siart a ganlyn




Nododd 1 lleoliad gofal dydd llawn yn ward Marl (Ardal 1 Gorllewin) y gallant ddarparu Cantoneg / Tsiec / Pwyleg.

Nododd 1 lleoliad gofal dydd llawn yn ward Penrhyn (Ardal 2 Gogledd) y gallant ddarparu gofal yn Sbaeneg.


Dosbarthiad daearyddol

Mae canran a nifer pob ardal fel a ganlyn:



Mae'r nifer lleiaf o leoliadau yn ardal y Dwyrain a'r De.

Ystod o wasanaethau gofal dydd llawn yn ôl ardal ddaearyddol



Nid oes darparwr cyfrwng Saesneg yn Ardal 5 De.

Nid oes darparwr cyfrwng Cymraeg yn Ardal 2 Gogledd

Ystod o wasanaethau gofal dydd llawn yn ôl ardal ddaearyddol

Mae'r adran nesaf yn dangos nifer y lleoedd sydd ar gael yn ôl math o sesiwn, presenoldeb, rhestr aros a'r galw wedi'u dadansoddi yn ôl ardal ddaearyddol. Ni ddisgynnodd dyddiadau y SASS yn ystod cyfnod gwyliau. Felly nid oes unrhyw ddata presenoldeb ar gael i gyfnodau gwyliau. Fodd bynnag, mae'r data ar gyfer rhestrau aros gwyliau wedi'u cynnwys.

Sylwer: mae'r cwestiwn a ofynnwyd yn y SASS sy'n ymwneud â rhestrau aros yn cyfeirio at restr aros am le "uniongyrchol" ond gall darparwyr fod wedi cynnwys plant sydd ar restr aros ond nad oes angen lle ar hyn o bryd.

Mae'r ystod o sesiynau a ddangosir yn y siartiau fel a ganlyn

Gofal Dydd Llawn

Gofal Hanner diwrnod AM

Gofal Hanner diwrnod PM

Addysg Gynnar

Gofal Cyn Ysgol

Gofal Ar ôl Ysgol

Gofal Ar ôl 6pm

Cinio

Gofal Penwythnos


Gofal Dros Nos

Cylch/Grwpiau Chwarae AM

Cylch/Grwpiau Chwarae PM

Ardal 1 Gorllewin

Mae 8 darparwr gofal dydd llawn yn Ardal 1 Gorllewin. Nifer y lleoedd cofrestredig yn yr 8 darparwr Gofal Dydd Llawn hyn yw 233. Dangosir nifer y lleoedd ar gyfer y sesiynau a ddarperir yn y siart a ganlyn. Nododd 5 lleoliad gofal dydd llawn eu bod yn darparu Addysg Gynnar.



Nid oes gwasanaeth Gofal Dydd Llawn yn Ardal 1 Gorllewin sy'n cynnig gofal oriau anghymdeithasol, ar ôl 6pm na dros y penwythnos.

Agor amser tymor - mae'r holl ddarparwyr ar agor bob dydd gwaith o'r wythnos yn ystod y tymor. Mae rhestr aros yn ystod y tymor.

Gwyliau - argaeledd, lleoedd a galw

Ardal 1 Gorllewin	Gwyliau Haf	Hanner Tymor Hydref	Nadolig	Hanner Tymor Chwefror	Y Pasg	Hanner Tymor Mai
Lleoliadau	5	5	5	5	5	5
Lleoedd	165	165	165	165	165	165
Rhestr aros	0	0	0	0	0	0

Mae 5 allan o'r 8 gwasanaeth yn Ardal 1 gorllewin ar agor yn ystod y gwyliau.

Nid oes rhestr aros yn ystod unrhyw wyliau.

Amseroedd Agor Dyddiol:

Mae amseroedd agor a chau yn yr ardal hon ar gyfer gofal dydd llawn fel a ganlyn:


3 ar agor am 7:30
2 ar agor am 8:00
1 ar agor am 8:40
1 ar agor am 9:00
1 ar agor am 11:45

Amseroedd cau yw:

1 yn cau am 14:45
1 yn cau am 15:00
1 yn cau am 16:15
1 yn cau am 17:30
1 yn cau am 17:45
3 yn cau am 18:00

Ardal 2 Gogledd

Mae 11 darparwr Gofal Dydd Llawn yn Ardal 2 Gogledd. Nifer y lleoedd cofrestredig gan yr 11 darparwr Gofal Dydd Llawn yw 427. Dangosir nifer y lleoedd ar gyfer y sesiynau a ddarperir yn y siart a ganlyn. Nododd 6 lleoliad Gofal Dydd Llawn eu bod yn darparu Addysg Gynnar.



Amseroedd agor tymor ysgol - mae'r holl leoliadau gofal dydd llawn yn Ardal 2 Gogledd ar agor bob dydd gwaith o'r wythnos yn ystod y tymor heblaw am un sy'n cau ar ddydd Llun. Mae un lleoliad yn cynnig gofal penwythnos ond dim un yn cynnig Gofal Ar ôl 6pm.

Gwyliau - argaeledd, lleoedd a galw

Nid yw'r holl leoliadau Gofal Dydd Llawn yn agor yn ystod amseroedd gwyliau. Fodd bynnag, mae pob un o'r 8 sy'n agor am gyfnodau gwyliau yn darparu gwasanaeth yn ystod pob cyfnod gwyliau. Nid oes rhestr aros yn ystod amseroedd gwyliau yn yr ardal hon.

Ardal 2 Gogledd	Gwyliau Haf	Hanner Tymor Hydref	Nadolig	Hanner Tymor Chwefror	Y Pasg	Hanner Tymor Mai
Lleoliadau	8	8	8	8	8	8
Lleoedd	341	341	341	341	341	341
Rhestr aros	0	0	0	0	0	0

Amseroedd Agor Dyddiol:

Mae amseroedd agor a chau yn yr ardal hon ar gyfer gofal dydd llawn fel a ganlyn:


4 ar agor am 7:30
 1 ar agor am 7:45
 1 ar agor am 8:00
 1 ar agor am 8:30
 1 ar agor am 8:50
 2 ar agor am 9:00
 1 ar agor am 11:15

Amseroedd cau yw:

2 yn cau am 15:00
 1 yn cau am 16:00
 2 yn cau am 17:00
 6 yn cau am 18:00

Ardal 3 Canolog

Mae 13 darparwr gofal dydd llawn yn Ardal 3 Canolog. Nifer y lleoedd cofrestredig gan y 13 darparwr Gofal Dydd Llawn hyn yw 641. Dangosir nifer y lleoedd ar gyfer y sesiynau a ddarperir yn y siart a ganlyn. Nododd 10 lleoliad Gofal Dydd Llawn eu bod yn darparu Addysg Gynnar.



Amseroedd agor tymor ysgol - Mae pob un o'r 13 lleoliad ar agor yn ystod y tymor ar bob diwrnod gwaith yn ystod yr wythnos. Nid yw'r lleoliadau hyn yn darparu gofal oriau anghymdeithasol.

Gwyliau - argaeledd, lleoedd a galw

Nid yw'r holl leoliadau gofal dydd llawn yn yr ardal hon ar agor yn ystod cyfnodau gwyliau. Nid yw 5 lleoliad yn agor yn ystod unrhyw wyliau. Mae rhestr aros yn ystod rhai amseroedd gwyliau yn yr ardal hon fel y dangosir yn y tabl isod.

Ardal 3 Canolog	Gwyliau Haf	Hanner Tymor Hydref	Nadolig	Hanner Tymor Chwefror	Y Pasg	Hanner Tymor Mai
Lleoliadau	8	7	6	7	7	7
Lleoedd	508	490	427	490	490	490
Rhestr aros	14	0	0	6	8	8

Mae rhestr aros yn ystod rhai cyfnodau gwyliau ac mae'n debyg bod yr un plant yn cael eu cyfri ar gyfer y gwahanol gyfnodau gwyliau.

Amseroedd Agor Dyddiol:

Mae amseroedd agor a chau yn yr ardal hon ar gyfer gofal dydd llawn fel a ganlyn:


1 ar agor am 7:15
 2 ar agor am 7:30
 1 ar agor am 7:45
 4 ar agor am 8:00
 1 ar agor am 8:30
 4 ar agor am 9:00

Amseroedd cau yw:

2 yn cau am 15:00
 2 yn cau am 15:15
 1 yn cau am 17:00
 4 yn cau am 17:30
 64 yn cau am 18:00

Ardal 4 Dwyrain

Mae 6 darparwr gofal dydd llawn yn Ardal 4 Dwyrain. Nifer y lleoedd cofrestredig gan y 6 darparwr Gofal Dydd Llawn hyn yw 292. Dangosir nifer y lleoedd ar gyfer y sesiynau a ddarperir yn y siart a ganlyn. Nododd 4 lleoliad Gofal Dydd Llawn eu bod yn darparu Addysg Gynnar.



Amseroedd agor tymor ysgol - Mae pob un o'r 6 darparwr ar agor yn ystod y tymor trwy gydol dyddiau gwaith yr wythnos. Nid yw'r lleoliadau hyn yn darparu gofal oriau anghymdeithasol.

Gwyliau - argaeledd, lleoedd a galw

Nid yw un o'r lleoliadau gofal dydd llawn yn yr ardal hon yn agor yn ystod amseroedd gwyliau. Mae 5 lleoliad ar agor yn ystod yr holl wyliau. Nid oes rhestr aros yn ystod amseroedd gwyliau yn yr ardal hon fel y dangosir yn y tabl isod.

Ardal 4 Dwyrain	Gwyliau Haf	Hanner Tymor Hydref	Nadolig	Hanner Tymor Chwefror	Y Pasg	Hanner Tymor Mai
Lleoliadau	5	5	5	5	5	5
Lleoedd	266	266	266	266	266	266
Rhestr aros	0	0	0	0	0	0

Amseroedd Agor Dyddiol:

Mae amseroedd agor a chau yn yr ardal hon ar gyfer Gofal Dydd Llawn fel a ganlyn:

2 ar agor am 7:00

1 ar agor am 7:15

1 ar agor am 7:30

1 ar agor am 8:00

1 ar agor am 9:00

Amseroedd cau yw:


1 yn cau am 15:00

1 yn cau am 17:30

4 yn cau am 18:00

Ardal 5 De

Mae 5 darparwr Gofal Dydd Llawn yn Ardal 5 De. Nifer y lleoedd cofrestredig gan y 5 darparwr Gofal Dydd Llawn hyn yw 108. Dangosir nifer y lleoedd ar gyfer y sesiynau a ddarperir yn y siart a ganlyn. Nododd 3 lleoliad Gofal Dydd Llawn eu bod yn darparu Addysg Gynnar.



Amseroedd agor tymor ysgol - - Mae pob un o'r 5 darparwr ar agor bob diwrnod gwaith o fewn yr wythnos. Nid yw'r lleoliadau hyn yn darparu gofal oriau anghymdeithasol.

Gwyliau - argaeledd, lleoedd a galw

Nid yw pob un o'r 5 lleoliad Gofal Dydd Llawn yn yr ardal hon yn agor yn ystod gwyliau ysgol. Nid yw 2 yn agor yn ystod unrhyw un o'r gwyliau. Nid oes rhestr aros yn ystod gwyliau yn yr ardal hon fel y dangosir yn y tabl isod.

Ardal 4 Dwyrain	Gwyliau Haf	Hanner Tymor Hydref	Nadolig	Hanner Tymor Chwefror	Y Pasg	Hanner Tymor Mai
Lleoliadau	3	3	2	3	3	3
Lleoedd	70	70	28	70	70	70
Rhestr aros	0	0	0	0	0	0

Amseroedd Agor Dyddiol:


Mae amseroedd agor a chau yn yr ardal hon ar gyfer gofal dydd llawn fel a ganlyn:

3 ar agor am 8:00
1 ar agor am 8:15
1 ar agor am 12:30

Amseroedd cau yw:
2 yn cau am 15:00
3 yn cau am 18:00

Cost


Cymerwyd y data costau oddi ar wefan Dewis. Dyma'r costau fesul awr ar gyfartaledd dros Feithrinfeydd Dydd ledled y sir.



O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn y SASS ar ostyngiadau, dywedodd 15 darparwr Gofal Dydd Llawn eu bod yn rhoi gostyngiad i frodyr a chwiorydd.

Oedran

Mae 17 Meithrinfa Ddydd Llawn yn cynnig gofal i blant o oed geni heblaw am un yn Neganwy sy'n gofalu am y rhai o 6 mis oed ac un yn Llanrwst (De) sy'n cynnig gofal o 3 mis oed.



Dechrau'n Deg - Mae 17 o leoliadau Gofal Dydd Llawn / Meithrinfa Ddydd Llawn yn darparu gofal Dechrau'n Deg yn ardaloedd dynodedig Dechrau'n Deg. Mae lleoliad ychwanegol yn Ardal 1 Gorllewin a oedd yn cefnogi plentyn o dan y cynllun Dechrau'n Deg oherwydd amgylchiadau penodol yn ystod y cyfnod hwn.

Cynnig Gofal Plant i Gymru

Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn (Tachwedd 2021) roedd pob un ond 4 o'r 43 lleoliad Gofal Dydd Llawn yng Nghonwy wedi cofrestru i ddarparu Cynnig Gofal Plant i Gymru. O'r pedwar hwn nid yw 3 yn darparu ar gyfer yr oedran yma ar hyn o bryd.

Ymysg y rhai sy'n rhan o'r cynllun dim ond un lleoliad gofal dydd llawn yn Ardal 5 De oedd ddim yn derbyn cyllid o dan y cynllun yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n debyg bod hyn oherwydd nad oedd ganddynt blant yn yr oedran cywir ar yr adeg y cymerwyd y SASS.

Dyma ddadansoddiad o'r rhai sy'n cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant i Gymru ar hyn o bryd yn ôl iaith i'w weld isod. Mae'r lleoliad yn Ardal 5 De nad oedd ganddynt blant ar y cynllun pan gymerwyd y SASS hefyd yn lleoliad cyfrwng Cymraeg:

Gofal Dydd Llawn	Nifer y lleoliadau cyfrwng Saesneg sydd wedi'u cofrestru i ddarparu'r Cynnig	Nifer y lleoliadau cyfrwng Cymraeg sydd wedi'u cofrestru i ddarparu'r Cynnig	Nifer y lleoliadau sydd wedi cofrestru i ddarparu'r Cynnig sy'n defnyddio'r Saesneg a'r Gymraeg
Ardal 1 Gorllewin	3	3	2
Ardal 2 Gogledd	9	0	1
Ardal 3 Canolog	10	1	2
Ardal 4 Dwyrain	5	1	0
Ardal 5 De	0	4	1

Gofal Plant Di-dreth

Mae'r cwestiwn ar y SASS yn gofyn a oes gan ddarparwyr rieni sy'n defnyddio'r gofal plant Di-dreth ar hyn o bryd yn hytrach na gofyn a yw'r darparwyr wedi ymuno â'r cynllun. Dyma'r canlyniadau gan y SASS ar gyfer darparwyr Gofal Dydd Llawn.


Nifer y sefydliadau sydd â rhieni sy'n defnyddio'r Gofal Plant Di-dreth. (gwybodaeth SASS)	Gofal dydd llawn
Ardal 1 Gorllewin	5
Ardal 2 Gogledd	8
Ardal 3 Canolog	9
Ardal 4 Dwyrain	5
Ardal 5 De	4
CYFANSWM	31

Felly mae gan 31 o'r 43 lleoliad deuluoedd sy'n hawlio'r gofal plant di-dreth ar hyn o bryd.

Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig


Dyma'r data Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer y sir a gymerwyd o'r ffurflen SASS ar gyfer lleoliadau Gofal Dydd Llawn a atebodd yr adran ADY.

Darpariaeth ADY/AAA Gofal dydd Llawn



Dangosir isod gyfanswm y plant sy'n derbyn cefnogaeth gan leoliadau Gofal Dydd Llawn yng Nghonwy.

Nifer y plant ADY / AAA a ddarperir ar eu cyfer/gefnogir gan ddarparwyr Gofal Dydd Llawn yng Nghonwy



Cymwysterau

Roedd y wybodaeth o'r ffurflen SASS ar gyfer cymwysterau lleoliadau Gofal Dydd Llawn fel a ganlyn.

Y cwestiwn a ofynnwyd yn y SASS oedd "Faint o staff sydd â'r lefelau isod fel eu cymhwyster uchaf?"

Cymhwyster Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant lefel 2	Cymhwyster Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant lefel 3	Cymhwyster Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant lefel 5	Cymhwyster sy'n berthnasol i ofal plant ond heb ei restru	Dim cymwysterau Ymarferydd Gofal Plant ffurfiol	Cyfanswm y staff sydd â Chymhwyster Ymarferwyr Gofal Plant
39	179	57	40	58	372

Hefyd yn y SASS gofynnwyd i leoliadau roi data ar gymwysterau Gwaith Chwarae eu staff. Dyma'r canlyniadau ar gyfer lleoliadau gofal dydd llawn yng Nghonwy.

Cymwysterau Chwarae – staff gofal dydd llawn	Nifer y staff
Gwobr Lefel 2 Ymarfer Gwaith Chwarae (L2APP)	3
Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae	7
Diploma Lefel 2; Gwaith Chwarae; * Egwyddorion ar Waith (P3) - yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma	0
Gwobr Lefel 3 mewn Rheoli Cynllun Chwarae Gwyliau	1
Gwobr Lefel 3 Trosglwyddo i Waith Chwarae o'r Blynnyddoedd Cynnar	11
Diploma Lefel 3 Gwaith Chwarae	16
Diploma Lefel 3 Gwaith Chwarae; * Egwyddorion ar Waith. (P3) - yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma	2
Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae	1
Cymhwyster sy'n berthnasol i chwarae	4
Ymarferwyr Chwarae heb gymwysterau ffurfiol	24
Cyfanswm y staff sy'n ymarferwyr chwarae	69

Cryfderau a gwendidau:

Cryfderau:

- Ychydig iawn o restrau aros sy'n y sector Gofal Dydd Llawn ac eithrio yn ystod Gwyliau'r Haf. Gall y rhestr aros hon fod ar gyfer plant sydd fel arall yn mynychu darpariaeth gofal cofleidiol yn ystod y tymor
- Mae'r cyflenwad Gofal Dydd Llawn wedi aros yn gyson er gwaethaf y pandemig Covid-19 gyda'r un nifer y ddarparwyr ag yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant diwethaf.
- Mae lleoliadau Gofal Dydd Llawn yn fwy tebygol o allu darparu gofal trwy gydol y flwyddyn a pheidio â chau ar gyfer gwyliau staff.

Gwendidau:

- Nid yw llawer o'r lleoliadau sydd wedi'u cofrestru fel Gofal Dydd Llawn gan AGC (CIW) yn cynnig gwasanaeth Meithrin Dydd Llawn. Mae llawer yn cynnig gofal sesiynol ac nid ydynt ar agor yn ystod y gwyliau. Gall hyn fod yn rheswm dros fwch mewn gofal yn ystod y gwyliau mewn rhai ardaloedd.
- Fel arfer mae'r lleoliadau Gofal Dydd Llawn sy'n cynnig gofal sesiynol yn darparu ar gyfer grŵp oedran cyfyngedig, sef oedran 2-4 oed yn bennaf. Fel arfer nid yw'r sefydliadau hyn yn agor yn ystod cyfnodau gwyliau, gall hyn arwain at gostau gofal plant uwch i rieni yn ystod cyfnodau gwyliau. Fodd bynnag, mae'r Cynnig Gofal Plant i Gymru wedi lleihau'r costau hyn i rai rhieni sy'n gweithio.
- Fel y gwelir nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, nid oedd y lleoliadau Gofal Dydd Llawn hynny sy'n cynnig gofal sesiynol yn gallu cynnig gofal i rieni gweithwyr allweddol yn ystod y cyfnodau clo Covid-19. Yn bennaf oherwydd eu bod wedi cau a rhoi'r staff ar ffyrlo.
- Ychydig iawn o leoliadau sy'n cynnig gofal penwythnos.
- Mae'r costau fel arfer yn uwch yn y math hwn o ofal plant.

6.3. Gofal Sesiynol

6.3.1 Dadansoddiad o gyflenwad Gofal Plant Sesiynol.

Mae'r data Gofal Sesiynol a ddarperir o'r ffurflen SASS yn dangos bod 25 o leoliadau Sesiynol cofrestredig yn y sir.

Mae rhai Cylchoedd meithrin neu Grwpiau chwarae yn y sir wedi eu cofrestru fel lleoliadau Gofal Dydd Llawn gan eu bod yn cynnig mwy nag un sesiwn y dydd. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn adran Gofal Dydd Llawn yr adroddiad hwn.

Cyfanswm y lleoedd cofrestredig ar gyfer pob lleoliad Sesiynol o fewn y sir yw 622.


Mae newidiadau yn y ddarpariaeth gofal dydd Sesiynol ers y ADGP diwethaf a chyn dechrau pandemig Covid 19. Mae un Grŵp Chwarae cyfrwng Saesneg yn Abergele (Ardal 4 Dwyrain) wedi cau a heb allu denu staff na lleoliad i ailagor.

laith

Y categorïau o'r iaith y darperir y gofal ynddynt o'r ffurflen SASS oedd:

- Prif iaith - Saesneg
- Prif iaith - Cymraeg
- Saesneg a Chymraeg


Dangosir dadansoddiad iaith y 25 lleoliad Sesiynol yn y siart a ganlyn.




Yn ogystal â hyn, mae 1 darpariaeth Sesiynol yn ward Eirias (Ardal 3 Canolog) yn cynnig iaith Arwyddion Prydeinig (BSL).

Dosbarthiad daearyddol

Mae canran a nifer pob ardal fel a ganlyn:



Mae'r nifer lleiaf o wasanaethau yn Ardal 4 Dwyrain.



Nid oes unrhyw leoliadau Sesiynol Cymraeg yn Ardal 3 Canolog. Nid oes unrhyw leoliadau Sesiynol Saesneg yn ardaloedd y Dwyrain na'r De.

Ystod o wasanaeth Sesiynol yn ôl ardal ddaearyddol

Mae'r adran nesaf yn dangos nifer y lleoedd sydd ar gael yn ôl math o sesiwn, presenoldeb, rhestr aros a galw wedi'u dadansoddi yn ôl ardal ddaearyddol. Nid oedd dyddiadau'r SASS yn ystod cyfnod gwyliau. Nid oes unrhyw un o'r gwasanaethau sesiynol yn agor yn ystod cyfnod gwyliau.

Sylwch: mae'r cwestiwn SASS sy'n ymwneud â rhestrau aros yn cyfeirio at restr aros am le "uniongyrchol" ond gall darparwyr fod wedi cynnwys plant sydd ar restr aros nad oes angen lle ar hyn o bryd.

Mae'r ystod o sesiynau a ddangosir yn y siartiau fel a ganlyn:

Boreau


Prynhawniau

Cinio

Addysg Gynnar

Ardal 1 Gorllewin

Mae 7 darparwr Sesiynol yn Ardal 1 Gorllewin. Nifer y lleoedd cofrestredig yn y 7 darparwr Sesiynol hyn yw 196. Dangosir nifer y lleoedd ar gyfer y sesiynau a ddarperir yn y siart a ganlyn. Nododd pob un o'r 7 lleoliad eu bod yn darparu Addysg Gynnar.



Nid oes unrhyw leoliad Sesiynol sy'n darparu gofal anghymdeithasol neu benwythnos.


Amseroedd agor yn ystod tymor ysgol – mae un lleoliad yn cau ar ddydd Gwener

Oriau agor dyddiol: mae 3 lleoliad yn cynnig sesiynau prynhawn yn unig.
3 ar agor bore a'r prynhawn ac mae un ar agor yn y bore yn unig.
Nid oes unrhyw restrau aros.

Gwyliau - nid oes lleoliad ar agor yn ystod y cyfnodau gwyliau.

Ardal 2 Gogledd

Mae 3 darparwr Sesiynol yn Ardal 2 Gogledd. Nifer y lleoedd cofrestredig gan y 3 darparwr Sesiynol hyn yw 76. Dangosir nifer y lleoedd o sesiynau a ddarperir yn y siart a ganlyn. Nododd pob un o'r 3 lleoliad eu bod yn darparu Addysg Gynnar.



Nid oes unrhyw leoliadau Sesiynol sy'n darparu gofal anghymdeithasol neu benwythnos.


Amseroedd agor yn ystod tymor ysgol - Pob lleoliad ar agor bob diwrnod gwaith o'r wythnos.

Amseroedd Agor Dyddiol: mae 2 leoliad yn cynnig sesiynau bore a phrynhawn ac mae un ar agor yn y bore yn unig.
Nid oes unrhyw restrau aros.

Gwyliau - nid oes lleoliad ar agor yn ystod cyfnodau gwyliau.

Ardal 3 Canolog

Mae 8 darparwr Sesiynol yn Ardal 3 Canolog. Nifer y lleoedd cofrestredig yr 8 darparwr Sesiynol hyn yw 206. Dangosir nifer y lleoedd ar gyfer y sesiynau a ddarperir yn y siart a ganlyn. Nododd 7 o'r lleoliadau eu bod yn darparu Addysg Gynnar.



Nid oes unrhyw leoliad Sesiynol sy'n darparu gofal anghymdeithasol neu benwythnos.


Amseroedd agor yn ystod tymor ysgol - Pob lleoliad yn agor bob diwrnod gwaith o'r wythnos.

Amseroedd Agor Dyddiol: mae 1 lleoliad yn cynnig sesiynau bore a phrynhawn, mae 5 ar agor yn y bore yn unig, 2 ar agor yn y prynhawniau yn unig. Mae rhestr aros o 3 plentyn.

Gwyliau - nid oes lleoliad sy'n agor yn ystod y cyfnodau gwyliau.

Ardal 4 Dwyrain

Mae 1 darparwr Sesiynol yn Ardal 4 Dwyrain. Nifer y lleoedd cofrestredig gan yr un darparwr Sesiynol hyn yw 19. Dangosir nifer y lleoedd ar gyfer y sesiynau a ddarperir yn y siart a ganlyn. Nododd y lleoliad hwn eu bod yn darparu Addysg Gynnar.



Nid oes unrhyw leoliadau Sesiynol sy'n darparu gofal anghymdeithasol neu benwythnos.


Amseroedd agor yn ystod tymor ysgol - Mae'r lleoliad hwn yn agor bob diwrnod gwaith o'r wythnos.

Oriau agor dyddiol: Mae'r lleoliad yn agor boreau yn unig.

Gwyliau - Nid yw'r lleoliad hwn yn agor yn ystod cyfnodau gwyliau.

Ardal 5 De

Mae 6 darparwr Sesiynol yn Ardal 5 De. Nifer y lleoedd cofrestredig gan y 6 darparwr Sesiynol hyn yw 125. Dangosir nifer y lleoedd ar gyfer y sesiynau a ddarperir yn y siart a ganlyn. Nododd 3 o'r lleoliadau eu bod yn darparu Addysg Gynnar.



Nid oes unrhyw leoliadau Sesiynol sy'n darparu gofal anghymdeithasol neu benwythnos.

Amseroedd agor yn ystod tymor ysgol - mae 1 lleoliad yn cau ar ddydd Llun.

Nid yw 1 lleoliad yn agor ar ddydd Mercher

Nid yw 3 lleoliad ar agor ar ddydd Gwener


Amseroedd Agor Dyddiol: mae 3 lleoliad yn cynnig boreau yn unig, 3 ar agor yn y prynhawniau yn unig.

Mae rhestr aros o 14 o blant ar gyfer sesiynau bore a 4 o blant ar gyfer sesiwn brynhawn.

Gwyliau - nid oes lleoliad ar agor yn ystod y cyfnodau gwyliau.

Costau

Cymerwyd y data costau oddi ar wefan Dewis. Dyma'r costau fesul awr ar gyfartaledd o fewn lleoliadau Sesiynol ar draws y sir.




O'r rhai a roddodd ateb i'r cwestiwn hwn yn y SASS dim ond un sy'n rhoi gostyngiad i frodyr a chwiorydd.

Oedran

Cymerwyd data oedran o wefan Dewis Cymru ac o'r ffurflen SASS. Mae pob lleoliad yn darparu ar gyfer y grŵp oedran 2 - 4 oed. Fel y gwelir eisoes yn yr adran "amseroedd agor a'r dadansoddiad daearyddol" mae rhai sefydliadau yn darparu gofal cofleidiol i'r rhai sy'n mynychu ysgol yn rhan-amser trwy redeg mwy nag un sesiwn y dydd.

Mae un o'r lleoliadau ar safle ysgol yn Ardal 5 De yn darparu sesiynau gofal cofleidiol ar gyfer plant rhan-amser oed ysgol a sesiynau ar ôl ysgol ar gyfer plant oed ysgol, gweler y siart isod. Mae'r siart hefyd yn dangos nifer y lleoliadau plant sydd ar eu llyfrau. Cymerwyd data ar gyfer y siart o'r ffurflen SASS.



Cynnig Gofal Plant i Gymru

Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn (Tachwedd 2021) roedd pob un o'r 25 lleoliad Sesiynol yng Nghonwy wedi cofrestru i ddarparu Cynnig Gofal Plant i Gymru.

O'r data SASS gallwn weld bod 21 o leoliadau Sesiynol ar draws y sir yn derbyn cyllid o dan y cynllun ar y pryd. Efallai nad oedd gan y gweddill blant yn y grŵp oedran hwnnw ar yr adeg y cymerwyd y SASS (3 a 4 oed).

Mae dadansoddiad y rhai a gyflwynodd y Cynnig Gofal Plant i Gymru yn ôl iaith ar yr adeg y cymerwyd y SASS fel a ganlyn:

Gofal Sesiynol	Nifer y lleoliadau cyfrwng Saesneg sydd wedi cofrestru i ddarparu'r Cynnig	Nifer y lleoliadau cyfrwng Cymraeg sydd wedi cofrestru i ddarparu'r Cynnig	Nifer y lleoliadau sydd wedi cofrestru i ddarparu'r Cynnig sy'n defnyddio'r Saesneg a'r Gymraeg
Ardal 1 Gorllewin	4	2	1
Ardal 2 Gogledd	1	2	0
Ardal 3 Canolog	7	0	1
Ardal 4 Dwyrain	0	1	0
Ardal 5 De	0	5	0

Gofal Plant Di-dreth

Mae'r cwestiwn ar y SASS yn gofyn a oes gan ddarparwyr rieni sy'n defnyddio'r Gofal Plant Di-dreth ar hyn o bryd yn hytrach na gofyn a yw'r darparwyr wedi ymuno â'r cynllun. Dyma'r canlyniadau gan y SASS ar gyfer darparwyr gofal Sesiynol.

Nifer y sefydliadau sydd â rhieni sy'n defnyddio'r Gofal Plant Di-dreth (gwybodaeth SASS)	Gofal Sesiynol
Ardal 1 Gorllewin	5
Ardal 2 Gogledd	1
Ardal 3 Canolog	5
Ardal 4 Dwyrain	0
Ardal 5 De	2
CYFANSWM	13


Mae gan 13 o'r 25 o leoliadau deuluoedd sy'n hawlio'r gofal plant di-dreth ar hyn o bryd. Gan fod y lleoliadau Sesiynol yn gofalu am blant 3 a 4 oed yn bennaf, mae'n ddigon posib bod llawer o rieni'n hawlio'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn hytrach na Gofal Plant Di-dreth yn y cyfnod hwn.

Dechrau'n Deg – Mae 5 gwasanaeth Sesiynol yn darparu gofal o dan Gynllun Dechrau'n Deg yn ardaloedd dynodedig Dechrau'n Deg.


Anghenion Dysgu Ychwanegol

Dyma ddata Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) y sir a gymerwyd o'r ffurflen SASS ar gyfer lleoliadau Sesiynol a atebodd yr adran ADY.

ADY/AAA - Gwasanaethau Sesiynol yn Sir Conwy



Nifer y plant ADY / AAA a ddarperir ar eu cyfer/gefnogir gan ddarparwyr sesiynol



Cymwysterau

Roedd y wybodaeth o'r ffurflen SASS ar gyfer cymwysterau lleoliadau Sesiynol fel a ganlyn.

Y cwestiwn a ofynnwyd yn y SASS oedd "Faint o staff sydd efo'r isod fel eu cymhwyster uchaf?"

Cymhwyster Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant lefel 2	Cymhwyster Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant lefel 3	Cymhwyster Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant lefel 5	Cymhwyster sy'n berthnasol i ofal plant ond heb ei restru	Dim cymwysterau Ymarferydd Gofal Plant ffurfiol	Cyfanswm y staff sydd â Chymhwyster Ymarferwyr Gofal Plant
10	51	17	6	11	94

Hefyd roedd cwestiwn yn y SASS yn gofyn i leoliadau roi data ar gymwysterau Gwaith Chwarae eu staff. Dyma'r canlyniadau ar gyfer lleoliadau Sesiynol yng Nghonwy.

Cymwysterau Chwarae –Sesiynol	Nifer y staff
Gwobr Lefel 2 Ymarfer Gwaith Chwarae (L2APP)	0
Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae	1
Diploma Lefel 2; Gwaith Chwarae; * Egwyddorion ar Waith (P3) - yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma	2
Gwobr Lefel 3 mewn Rheoli Cynllun Chwarae Gwyliau	0
Gwobr Lefel 3 Trosglwyddo i Waith Chwarae o'r Blynnyddoedd Cynnar	1
Diploma Lefel 3 Gwaith Chwarae	1
Diploma Lefel 3 Gwaith Chwarae; * Egwyddorion ar Waith. (P3) - yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma	1
Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae	0
Cymhwyster sy'n berthnasol i chwarae	2
Ymarferwyr Chwarae heb gymwysterau ffurfiol	1

Cryfderau / Gwendidau

Cryfderau:

- Heblaw am ardal Abergele yn Ardal 4 y Dwyrain mae cyflenwad da o ofal sesiynol.
- Yn gyffredinol mae'n ymddengys fod y cyflenwad iaith yn gyfartal dros yr ardaloedd.
- Ychydig iawn o blant sydd ar restr aros
- Mae costau ar gyfartaledd yn rhatach na mathau eraill o ofal plant
- Mae pob lleoliad wedi'i gofrestru i ddarparu Cynnig Gofal Plant Cymru.
- Roedd pob lleoliad yn ymwybodol o'r cod ADY newydd
- Mae gofal sesiynol yn aml wedi'i leoli ar safleoedd ysgol sy'n helpu rhieni sy'n gweithio sydd hefyd â phlant yn yr ysgol.
- Mae'r rhan fwyaf o leoliadau ar agor 5 diwrnod yr wythnos

Gwendidau:

- Er bod bwlch yn y cyflenwad o ofal sesiynol yn nhref Abergele, mae hyn wedi effeithio'n bennaf ar y gallu i ddarparu Addysg Gynnar a Dechrau'n Deg trwy gyfrwng y Saesneg. Darperir Addysg Gynnar cyfrwng Cymraeg gan ddarparwr Gofal Dydd Llawn sy'n y dref.
- Nid oes unrhyw leoliadau sesiynol cyfrwng Saesneg yn Ardal 4 Dwyrain ac Ardal 5 De o'r sir.
- Mae lleoliadau sesiynol fel arfer yn darparu ar gyfer plant 2 – 4 oed yn unig
- Dim lleoliadau sesiynol ar agor yn ystod gwyliau ysgol
- Nid oes unrhyw leoliadau sesiynol yn cynnig gofal oriau anghymdeithasol ac nid yw llawer ohonynt yn agor y tu allan i oriau ysgol a gall hyn arwain at ddifffyg gofal cofleidiol.
- Lle nad oes gofal cofleidiol yn bodoli efallai na fydd plant yn gallu cael mynediad i'w horiau Addysg Gynnar.

6.4: Gofal Plant Tu Allan i Orlau Ysgol

6.4.1. Dadansoddiad cyflenwad Gofal Plant Tu Allan i Orlau Ysgol

Mae'r data Gofal Plant Tu Allan i Orlau Ysgol a ddarperir o'r ffurflen SASS yn dangos bod 20 o leoliadau cofrestredig yn y sir. Cyfanswm y lleoedd cofrestredig ar gyfer pob lleoliad Gofal Plant Tu Allan i Orlau Ysgol o fewn y sir yw 834.


Mae rhai newidiadau yn y ddarpariaeth Gofal Plant Tu Allan i Orlau Ysgol ers y ADGP diwethaf a chyn dechrau pandemig Covid 19. Mae un Clwb yn Ardal 5 De wedi cau ac un arall yn Ardal 5 De wedi di-gofrestru oherwydd nad oedd galw am ofal am fwy na 2 awr y dydd.

Iaith

Y categorïau o'r iaith y darperir y gofal ynddynt o'r ffurflen SASS oedd:


- Prif iaith - Saesneg
- Prif iaith - Cymraeg
- Saesneg a Chymraeg

Dangosir dadansoddiad iaith y 20 lleoliad Gofal Plant Tu Allan i Orlau Ysgol yn y siart a ganlyn.




Dosbarthiad daearyddol

Mae canran a nifer pob ardal fel a ganlyn:



Mae'r nifer lleiaf o leoliadau yn ardaloedd y Dwyrain a'r De. Yn gyffredinol, mae gan ardal y Dwyrain lawer o warchodwyr plant a lleoliadau gofal dydd llawn sy'n cynnig gofal ar ôl ysgol. Mae hyn hefyd yn wir am ardal y De er bod hon yn ardal fawr, â phoblogaeth ar wasgar.



Ychydig iawn o leoliadau Gofal Plant Tu Allan i Orlau Ysgol sy'n gyfrwng Cymraeg ledled y sir. Fodd bynnag, mae llawer sy'n nodi eu bod yn ddwyieithog.

Ystod o wasanaeth Clybiau tu allan i'r ysgol yn ôl ardal ddaearyddol

Mae'r adran nesaf yn dangos nifer y lleoedd sydd ar gael yn ôl math o sesiwn, presenoldeb, rhestr aros a'r galw wedi ei ddadansoddi yn ôl ardal ddaearyddol. Nid oedd dyddiadau'r SASS yn ystod cyfnod gwyliau. Felly nid oes unrhyw ddata presenoldeb ar gael i gyfnodau gwyliau. Fodd bynnag, mae'r data ar gyfer lleoedd gwyliau a rhestrau aros wedi'i gynnwys.

Sylwch: mae'r cwestiwn SASS sy'n ymwneud â rhestrau aros yn cyfeirio at restr aros am le "uniongyrchol" ond gall darparwyr fod wedi cynnwys plant sydd ar restr aros nad ydynt angen lle ar hyn o bryd.

Mae'r ystod o sesiynau a ddangosir yn y siartiau fel a ganlyn:

Boreau

Prynhawniau


Ar ôl 6pm

Gofal Penwythnos

Gofal Dros Nos

Ardal 1 Gorllewin

Mae 7 darparwr Clwb Tu Allan i Orlau Ysgol yn Ardal 1 Gorllewin. Nifer y lleoedd cofrestredig yn y 7 darparwr Clwb Tu Allan i Orlau Ysgol hyn yw 328. Dangosir nifer y lleoedd ar gyfer y sesiynau a ddarperir yn y siart a ganlyn.



Nid oes unrhyw leoliadau sy'n darparu gofal cyn ysgol – efallai bod hyn oherwydd bod ysgolion yn yr ardal yn darparu Clybiau Brecwast o dan y Cynllun Clybiau Brecwast am Ddim mewn Ysgolion ac nid oes fawr o alw oherwydd hyn. Nid oes unrhyw glybiau sy'n darparu gofal oriau anghymdeithasol.


Amseroedd agor tymor ysgol - Mae'r holl ddarparwyr yn agor bob diwrnod gwaith o'r wythnos yn ystod y tymor. Mae rhestr aros o 10 plentyn am le ar ôl ysgol.

Gwyliau - argaeledd, lleoedd a galw: Mae'r 7 lleoliad ar agor yn ystod pob gwyliau. Nid oes unrhyw restrau aros wedi'u nodi ar gyfer gwyliau ysgol.

Orlau agor dyddiol: 2 ar agor am 14:45 y gweddill yn agor am 15:00 yn ystod y tymor. 1 yn cau am 17:30. 1 am 17:45 a'r gweddill yn cau am 18:00.

Ardal 2 Gogledd

Mae 4 darparwr Clwb Tu Allan i Orlau Ysgol yn Ardal 2 Gogledd. Nifer y lleoedd cofrestredig yn y 4 darparwr Clwb Tu Allan i Orlau Ysgol hyn yw 110. Dangosir nifer y lleoedd ar gyfer y sesiynau a ddarperir yn y siart a ganlyn.



Nid oes unrhyw leoliadau sy'n darparu gofal cyn ysgol - efallai bod hyn oherwydd bod ysgolion yn yr ardal yn darparu Cynllun Clybiau Brecwast am Ddim mewn ysgolion ac nid oes fawr o alw oherwydd hyn. Nid oes unrhyw glybiau sy'n darparu gofal oriau anghymdeithasol.


Amseroedd agor tymor – Mae'r 4 darparwr yn agor bob diwrnod gwaith o'r wythnos yn ystod y tymor. Nid oes rhestr aros.

Gwyliau - argaeledd, lleoedd a galw: Mae'r 4 lleoliad ar agor yn ystod y gwyliau. Fodd bynnag, nid ydynt yn agor yn ystod pob gwyliau. Mae un clwb ar gau yn ystod gwyliau'r Haf a'r Nadolig. Nid oes unrhyw restrau aros wedi'u nodi ar gyfer gwyliau ysgol.

Oriau agor dyddiol: Mae'n ymddangos bod pob lleoliad yn rhan o'r ddarpariaeth gofal cofleidiol ac ar agor tan 18:00. Oherwydd bod canlyniadau'r SASS yn anhysbys, mae'n anodd asesu a ydynt yn darparu sesiynau ar gyfer gwahanol oeddrannau plant trwy gydol y dydd yn hytrach na gofal ar ôl ysgol yn unig.

Ardal 3 Canolog

Mae 7 darparwr Clwb Tu Allan i Oriau Ysgol yn Ardal 3 Canolog. Nifer y lleoedd cofrestredig yn y 7 darparwr Clwb Tu Allan i Oriau Ysgol hyn yw 333. Dangosir nifer y lleoedd ar gyfer y sesiynau a ddarperir yn y siart a ganlyn.



Nid oes unrhyw leoliadau sy'n darparu gofal cyn ysgol - efallai bod hyn oherwydd bod ysgolion yn yr ardal yn darparu Cynllun Clybiau Brecwast am Ddim mewn ysgolion ac nid oes fawr o alw o'r herwydd. Nid oes unrhyw glybiau sy'n darparu gofal oriau anghymdeithasol.

Amseroedd agor tymor ysgol – Mae 6 darparwr yn agor bob diwrnod gwaith o'r wythnos yn ystod y tymor. Mae un ar gau bob dydd Gwener. Mae rhestr aros o 25 o blant dros yr ardal i gyd.


Gwyliau - argaeledd, lleoedd a galw: Dim ond 3 gwasanaeth sydd ar agor yn ystod cyfnodau gwyliau. O'r tri hyn dim ond un sydd ar agor yn ystod gwyliau'r Nadolig. Gall hyn fod yn gyfnod lle mae'r galw yn isel. Nid oes unrhyw restrau aros wedi'u nodi ar gyfer gwyliau ysgol.

Mae un clwb sy'n agor yn ystod y gwyliau yn unig ac yn benodol ar gyfer plant oed ysgol.

Oriau agor dyddiol: Dim ond 4 lleoliad atebodd yr adran hon ar y ffurflen SASS. O'r rhai atebodd mae'n ymddangos eu bod yn rhan o ddarpariaeth gofal cofleididol ac ar agor tan naill ai 17:00 neu 18:00. Oherwydd bod canlyniadau'r SASS yn anhysbys, mae'n anodd asesu a ydynt yn darparu sesiynau ar gyfer gwahanol oeddrannau plant trwy gydol y dydd yn hytrach na gofal ar ôl ysgol yn unig.

Ardal 4 Dwyrain

Dim ond un Clwb Tu Allan i Orlau Ysgol sydd wedi cofrestru yn ardal y Dwyrain. Nifer y lleoedd cofrestredig yw 39. Dangosir nifer y lleoedd ar gyfer y sesiynau a ddarperir yn y siart a ganlyn.



Mae'r lleoliad hwn ar safle ysgol lle nad yw'r ysgol yn darparu Clwb Brecwast Am Ddim. Nid yw'r clwb yn darparu gofal oriau anghymdeithasol.


Amseroedd agor tymor ysgol - Mae'r clwb ar agor bob dydd o'r wythnos yn ystod y tymor. Mae rhestr aros o 4 o blant.

Gwyliau - argaeledd, lleoedd a galw: Nid yw'r clwb yn agor yn ystod gwyliau ysgol yn bennaf oherwydd diffyg staffio a dim sicrwydd ymlaen llaw o'r galw.

Oriau agor dyddiol: Mae'r clwb ar agor rhwng 8am a 9am yn y bore a rhwng 15:00 a 18:00 yn y prawn.

Ardal 5 De

Dim ond un Clwb Tu Allan i Orlau Ysgol sydd wedi cofrestru yn ardal y Dwyrain. Nifer y lleoedd cofrestredig yw 24. Dangosir nifer y lleoedd ar gyfer y sesiynau a ddarperir yn y siart a ganlyn.



Nid yw'r Clwb yn darparu gofal cyn ysgol. Gall hyn fod oherwydd bod ysgolion yr ardal yn rhan o'r cynllun Clwb Brecwast Am Ddim mewn Ysgolion Nid yw'r clwb yn darparu gofal oriau anghymdeithasol.


Amseroedd agor tymor ysgol - Mae'r clwb ar agor bob dydd o'r wythnos yn ystod y tymor. Nid oes rhestr aros.

Gwyliau - argaeledd, lleoedd a galw: Mae'r clwb yn agor yn ystod yr holl wyliau heblaw'r Nadolig pan fydd y galw yn draddodiadol isel.

Oriau agor dyddiol: Mae'r clwb ar agor rhwng 15:00 a 18:00.

Costau

Cymerwyd y data costau oddi ar wefan Dewis. Dyma'r costau fesul awr ar gyfartaledd o fewn lleoliadau ar gyfer Clybiau Tu Allan i Oriau Ysgol ar draws y sir.




O'r rhai a roddodd ateb i'r cwestiwn hwn yn y SASS mae 6 Clwb Tu Allan i Ysgol yn cynnig gostyngiadau i frodyr a chwiorydd.

Oedran

Mae'r data oedran i ddarparwyr Gofal Plant Tu Allan i Orlau Ysgol yn y SASS yn ddryslyd. Mae rhai wedi ateb eu bod yn darparu ar gyfer plant o dan oedran ysgol. Gall hyn fod oherwydd eu bod yn rhan o leoliad sy'n cynnig sesiynau gwahanol trwy gydol y dydd ac nad ydynt wedi ateb yn benodol am yr oriau y tu allan i oriau ysgol. Felly mae'n rhaid ystyried hyn wrth edrych ar y data.

Mae'r data o Dewis hefyd yn gwrth-ddweud y data o'r SASS. Nid oedd unrhyw un o'r data o Dewis yn cynnwys plant dros 12 oed ond mae'r "nifer ar lyfrau" a gymerwyd o'r SASS yn dangos bod 2 blentyn yn yr ystod 15-17 oed.

Mae lleoliadau Clybiau Tu Allan i Orlau Ysgol yn darparu ar gyfer plant oedran 3/4 hyd at 12 oed.



Cynnig Gofal Plant i Gymru

Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn (Tachwedd 2021) roedd 14 o'r Clybiau tu Allan i Orlau Ysgol wedi cofrestru i ddarparu Cynnig Gofal Plant i Gymru. Nid yw rhai o'r 6 sydd heb gofrestru yn darparu ar gyfer yr oedran hwn ar hyn o bryd.

O'r rhai sydd wedi ymuno â'r cynllun, nid oedd 2 Glwb tu Allan i oriau Ysgol yn Ardal 2 Gogledd ac 1 yn Ardal 3 Ganolog yn derbyn cyllid yn ystod cyfnod y SASS. Gallai hyn fod oherwydd nad oedd ganddynt blant yn yr oedran ar y pryd.

Dadansoddiad o'r rhai sy'n cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant i Gymru ar hyn o bryd yn ôl iaith.

Clybiau tu allan i'r ysgol	Nifer y lleoliadau cyfrwng Saesneg sydd wedi cofrestru i ddarparu'r Cynnig	Nifer y lleoliadau cyfrwng Cymraeg sydd wedi cofrestru i ddarparu'r Cynnig	Nifer y lleoliadau sydd wedi cofrestru i ddarparu'r Cynnig sy'n defnyddio'r Saesneg a'r Gymraeg
Ardal 1 Gorllewin	5	0	2
Ardal 2 Gogledd	1	0	2

Ardal 3 Canolog	1	1	1
Ardal 4 Dwyrain	0	1	0
Ardal 5 De	0	0	0

Gofal Plant Di-dreth


Mae'r cwestiwn ar y SASS yn gofyn a oes gan ddarparwyr rieni sy'n defnyddio'r Gofal Plant Di-dreth ar hyn o bryd yn hytrach nag a yw'r darparwyr wedi ymuno â'r cynllun. Dyma'r canlyniadau gan y SASS ar gyfer darparwyr Clybiau Tu Allan i Orlau Ysgol.

Nifer y sefydliadau sydd â rhieni sy'n defnyddio'r Gofal Plant Di-dreth. (gwybodaeth SASS)	Clybiau Tu Allan i'r ysgol
Ardal 1 Gorllewin	7
Ardal 2 Gogledd	3
Ardal 3 Canolog	7
Ardal 4 Dwyrain	0
Ardal 5 De	1
CYFANSWM	18


Felly mae gan 18 o'r 20 lleoliad deuluoedd sy'n hawlio'r gofal plant Di-dreth ar hyn o bryd

Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Anghenion Addysgol Arbennig

Dyma ddata Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) y sir a gymerwyd o'r ffurflen SASS ar gyfer lleoliadau Clybiau Tu Allan i Orlau Ysgol a atebodd yr adran ADY.



Dangosir isod gyfanswm y plant sy'n cael eu cefnogi gan leoliadau Clwb Tu Allan i Orlau Ysgol yng Nghonwy.



Cymwysterau

Roedd y wybodaeth o'r ffurflen SASS ar gyfer cymwysterau lleoliadau Clybiau Tu Allan i'r Ysgol fel a ganlyn.

Y cwestiwn a ofynnwyd yn y SASS oedd "Faint o staff sydd â'r rhain fel eu cymhwyster uchaf?"

Cymhwyster Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant lefel 2	Cymhwyster Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant lefel 3	Cymhwyster Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant lefel 5	Cymhwyster sy'n berthnasol i ofal plant ond heb ei restru	Dim cymwysterau Ymarferydd Gofal Plant ffurfiol	Cyfanswm y staff sydd â Chymhwyster Ymarferwyr Gofal Plant
12	23	10	5	9	59

Hefyd o fewn y SASS fe ofynnwyd i leoliadau roi data ar gymwysterau Gwaith Chwarae eu staff. Dyma'r canlyniadau ar gyfer lleoliadau Clybiau Tu Allan i Orlau Ysgol yng Nghonwy.

Cymwysterau Chwarae - Clybiau Tu Allan i Orlau Ysgol	Nifer y staff
Gwobr Lefel 2 Ymarfer Gwaith Chwarae (L2APP)	4
Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae	8
Diploma Lefel 2; Gwaith Chwarae; * Egwyddorion ar Waith (P3) - yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma	1
Gwobr Lefel 3 mewn Rheoli Cynllun Chwarae Gwyliau	0
Gwobr Lefel 3 Trosglwyddo i Waith Chwarae o'r Blynnyddoedd Cynnar	6
Diploma Lefel 3 Gwaith Chwarae	21
Diploma Lefel 3 Gwaith Chwarae; * Egwyddorion ar Waith. (P3) - yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma	1
Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae	0
Cymhwyster sy'n berthnasol i chwarae	2
Ymarferwyr Chwarae heb gymwysterau ffurfiol	21
Cyfanswm y staff sy'n ymarferwyr chwarae	64

Cryfderau / Gwendidau

Cryfderau:

- Darparu gofal cofleidiol i blant oed ysgol er mwyn galluogi rhieni i weithio.
- Mae'r rhan fwyaf yn opsiwn rhad i deuluoedd plant oed ysgol
- Mae'r rhan fwyaf wedi cofrestru i gyflwyno Cynnig Gofal Plant Cymru er eu bod yn bennaf yn darparu ar gyfer plant oedran ysgol llawn amser.
- Mae gan gymharol fwy o staff gymhwyster chwarae na mathau eraill o ofal plant.
- Argaeledd y math hwn o ofal plant yn y rhan fwyaf o ardaloedd

Gwendidau:

- Ychydig o leoliadau cyfrwng Cymraeg
- Effeithiwyd ar gynaliadwyedd clybiau y tu allan i oriau ysgol gan nifer y rhieni sydd wedi gweithio gartref yn ystod pandemig Covid-19 ac nad ydynt wedi teimlo'r angen i ddefnyddio gofal plant ar ôl ysgol. Er enghraifft, mae gan Ardal 1 lefel uchel o leoedd gwag.
- Cynaliadwyedd rhai gwasanaethau yr effeithir arnynt gan y fenter Clybiau Brecwast am Ddim mewn Ysgolion sy'n arwain at lawer o ddarparwyr yn tynnu gwasanaeth Cyn Ysgol yn ôl.
- Mae diffyg gofal ar ôl ysgol ar rai safleoedd ysgol.
- Mae diffyg cysondeb yn y galw gan rieni sy'n effeithio ar gynaliadwyedd lleoliadau
- Bwlch o fewn darpariaeth gwyliau clwb y tu allan i oriau ysgol yn Abergele.

6.5 Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored

6.5.1. Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored

Nid oes unrhyw ddarpariaeth Chwarae Mynediad Agored cofrestredig yng Nghonwy. Felly nid oedd unrhyw ddata o'r datganiad SASS ar gyfer y categori hwn.

Oriau agor:

Mae Chwarae Mynediad Agored yn cael ei sefydlu gan dîm Chwarae Conwy pan fo cyllid ar gael.

6.5.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Ddim yn berthnasol

6.6 Crèche

6.6.1. Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Crèche

O'r wybodaeth o'r SASS ac o ddata Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy nid oes cyfleusterau Crèche ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

6.6.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Ddim yn berthnasol

6.7 Nanis

6.7.1. Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Nanis

Nid yw nanis yn cael eu cynnwys ar ffurflen SASS felly cymerir y wybodaeth sy'n ymwneud â nanis o ddata'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol a ddarperir i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd gan CIW.

Mae llai o nanis ar y rhestr hon nag ar adeg yr adroddiad ADGP llawn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'r nifer sydd ar restr yn amrywio gan ddibynnu a yw'r nanis yn cael eu cyflogi gan deuluoedd sy'n dymuno defnyddio'r cynllun.

Nid yw'r data yn rhoi manylion darpariaeth iaith na lle mae'r nanis yn darparu eu gwasanaeth.

6.7.2. Crynodeb o'r cryfderau a'r gwendidau allweddol

Cryfderau:

- Yn bennaf mae hwn yn opsiwn sy'n addas i'r rhai sy'n gweithio oriau anghymdeithasol.
- Mae'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn caniatáu i deuluoedd sy'n defnyddio'r cynllun gael elfen gofal plant credydau treth gwaith

Gwendidau:

- Yn gyffredinol mae nanis ond yn gallu gweithio i un teulu ar y tro gan y gofalir am y plant yn eu cartref eu hunain.
- Gall yr oriau anghymdeithasol a'r gymhareb isel o nani i blant olygu fod y math hwn o ofal plant yn gymharol ddud. Fodd bynnag mae'r telerau ac amodau yn llwyr rhwng y rhieni, fel y cyflogwr, a'r nani fel y cyflogai.
- O dro i dro cysylltir â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ond mae'n anodd cadw'r wybodaeth hon yn gyfredol.

Adran 7: Anghenion Rhieni/Gofalwyr (Galw am Ofal Plant)

Cynhaliwyd Arolwg Cenedlaethol yn gofyn i rieni am eu barn am ofal plant. Roedd yn edrych ar ddefnydd presennol o ofal plant a'r galw am ofal plant. Llenwodd 381 o rieni yng Nghonwy yr arolwg oedd ar agor rhwng 1 Hydref a 31 Hydref 2021.

Adran 7.1 Canlyniadau Arolwg Rhieni

Ymwadiad - Mae Conwy yn seilio'r adroddiad yma ar 381 o ymatebion gan rieni yn y Sir. Mae yna rywfaint o wahaniaeth yn y nifer y ymatebion rhwng y tablau Smart Survey a rhai Excel a lawrlwythwyd. Y rheswm am hyn yw bod yr arolwg ar-lein yn cynnwys opsiwn i arbed drafft o'u hymateb - gan alluogi pawb oedd wedi arbed eu hatebion i gyflwyno ymateb ar ôl y dyddiad cau. Er mwyn sicrhau cysondeb, dim ond canlyniadau'r arolwg a gyflwynwyd ar neu cyn 31 Hydref y mae Conwy yn eu defnyddio. Nid ydynt yn cynnwys unrhyw ganlyniadau a gyflwynwyd ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae'r adroddiad wedi'i osod yn yr un ffordd â'r arolwg. Mae pob pennawd yn cyfeirio at y cwestiynau a ofynnwyd i'r rhieni.

Pan fydd dyfyniadau gan rieni'n cael eu cynnwys yn yr asesiad yma (yn y fersiwn Saesneg), maent wedi'u cynnwys yn union fel maent yn ymddangos yn yr Arolwg Rhieni. Nid oes unrhyw newidiadau gramadegol na sillafu wedi'u gwneud. Mae dyfyniadau'r rhieni mewn italig. Mae sylwadau gan rieni wedi'u cyfieithu ac nid ydynt o reidrwydd yn yr iaith a ddefnyddiodd y rhiant.

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich cartref orau?

Llenwyd yr arolwg gan rieni, darpar rieni, neiniau a theidiau, gofalwyr maeth, a gofalwyr sydd â gorchmynion gwarchodaeth arbennig. Mae'r tabl isod yn dangos cyfansoddiad yr aelwyd gan bawb a ymatebodd.

Disgrifiad o'r aelwyd	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Gen i mae'r unig gyfrifoldeb am fy mhlant	18.37%	70
Rydw i'n rhannu cyfrifoldeb am fy mhlant gyda rhywun rydw i'n byw â nhw	76.12%	290
Rydw i'n rhannu cyfrifoldeb am fy mhlant gyda rhywun nad ydw i'n byw â nhw	5.51%	21
Rydw i'n ddarpar riant	1.57%	6
Rydw i'n ofalwr maeth	0.79%	3
Rydw i'n daid neu'n nain	1.31%	5
Arall	0.52%	2
Wedi ateb		381
Wedi sgipio		0

Faint yw oedran eich plentyn/plant?

O'r rhieni a atebodd roedd 285 (75.19%) yn rhieni i blant cyn ysgol (plant 0 - 4 oed), tra bod gan 183 (48.28%) ohonynt blant 5 - 8 oed, roedd gan 106 (27.97%) blant 9-11 oed, ac roedd gan 73 (19.26%) blant 12-17 oed.

Oedran y plant	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
O dan 2	24.27%	92
2 oed	18.73%	71
3 oed	17.94%	68
4 oed	14.25%	54
5 – 8 oed	28.28%	183
9 – 11 oed	27.97%	106
12 – 17 oed	19.26%	73
Wedi ateb		379
Wedi sgipio		2

A yw eich plentyn/plant 3 neu 4 oed yn manteisio ar le addysg gynnar a ariennir yn yr ysgol neu feithrinfa?

Atebodd 121 o rieni y cwestiwn yma. O'r rhieni yma, dywedodd 77 (63.64%) eu bod yn manteisio ar le mewn lleoliad Addysg Blynyddoedd Cynnar yng Nghonwy tra bod 3 (2.48%) wedi dweud eu bod yn manteisio ar le mewn Awdurdod Lleol gwahanol. Llenwyd yr arolwg yma yn ystod mis Hydref. Gan nad oes yna gyllid Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn y lleoliadau Gofal Plant yn ystod tymor yr hydref yng Nghonwy, mae'n rhaid i'r rhain fod yn blant sydd mewn dosbarth Meithrin mewn Ysgol Gynradd.

Ydi eich plentyn/plant 3 neu 4 oed yn manteisio ar le Addysg y Blynyddoedd Cynnar a ariennir mewn ysgol neu gyda darparwr gofal plant?	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Ydi, yn yr Awdurdod Lleol rydw i'n byw	63.64%	77
Ydi, mewn Awdurdod Lleol gwahanol i'r un rydw i'n byw	2.48%	3
Yn mynd i ddechrau'n fuan	6.61%	8
Nac ydi	19.83%	24
Amherthnasol	4.96%	6
Wedi ateb		121
Wedi sgipio		260

Dywedodd 8 (6.61%) o rieni y byddent yn manteisio ar gyllid Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn fuan. Fe all y rhain fod yn rhieni i blant a aned rhwng mis Medi a mis Rhagfyr a fydd yn gallu manteisio ar gyllid Addysg y Blynyddoedd Cynnar o fis Ionawr.

Gofynnwyd pam i'r 24 rhiant a ddywedodd nad oeddent wedi manteisio ar Addysg y Blynyddoedd Cynnar. Cafwyd atebion gan 16 ohonynt. Roedd y rhain yn amrywio o ddewis y rhieni, bod y rhieni wedi drysu, bod y plant yn rhy hen neu'n rhy ifanc, neu am resymau penodol iawn.

Dywedodd rhai rhieni mai dewis rhieni oedd y rheswm - rhieni yn dewis defnyddio darparwr Gofal Plant nad oedd yn cynnig Addysg y Blynyddoedd Cynnar, neu fod yn well ganddynt fod eu plentyn yn derbyn gofal mewn un lleoliad yn hytrach na mynd at sawl darparwr gwahanol.

Nid yw'n addas lle rydw i'n byw. I gael mynediad at leoliad addysg a ariennir byddai'n rhaid iddi symud o'r feithrinfa mae hi wedi'i mynychu ers ei bod yn 1 oed. Byddai ei gofal yn cael ei rannu ar draws sawl darparwr mewn diwrnod, yn hytrach nag mewn un lle fel mae hi ar hyn o bryd.

Roedd rhieni eraill wedi drysu gan feddwl nad oeddent yn gymwys neu nad oedd ar gael yn eu hardal mewn iaith benodol:

Nid ydw i'n gymwys gan nad ydw i'n gweithio

Rydw i'n derbyn grant gofal plant tuag at gostau drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru gan fy mod yn fyfyrwr yn y brifysgol.

Nid yw ar gael yn Saesneg yn fy ardal

Rhoddodd un rhiant reswm penodol iawn:

Nid oes gen i fisa Haen 2, ac nid oes gen i hawl i arian cyhoeddus

Fe gaeodd y broses ymgeisio am Gyllid Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn ddiweddar yng Nghonwy. Mae 203 o geisiadau wedi bod yn llwyddiannus.

A yw eich plentyn/plant 3 neu 4 oed yn manteisio ar ofal plant a ariennir gan y llywodraeth (y Cynnig Gofal Plant)?

Yn ôl canlyniadau'r arolwg, atebodd 119 o rieni y cwestiwn yma. O'r rhain, dywedodd 55 (47.9%) o rieni eu bod yn manteisio ar y Cynnig Gofal Plant yng Nghonwy, tra dywedodd 1 rhiant (0.84%) eu bod yn manteisio arno mewn awdurdod lleol gwahanol. Roedd 20 (16.81%) yn credu y byddent yn manteisio arno yn fuan. Nid oedd gan 18 (7.56%) unrhyw fwiad o fanteisio arno ac roedd 9 rhiant (7.56%) yn ansicr.

Ydi eich plentyn 3 neu 4 oed yn manteisio ar y Cynnig Gofal Plant?	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Ydi, yn yr awdurdod lleol rydw i'n byw	47.90%	57
Ydi, mewn Awdurdod Lleol gwahanol i'r un rydw i'n byw	0.84%	1
Na - ond mae'n bosibl y byddaf yn manteisio arno'n fuan/yn y dyfodol	16.81%	20

Na - nid oes gen i fwriad o fanteisio arno	15.13%	18
Ddim yn siŵr	7.56%	9
Amherthnasol	15.13%	18
Wedi ateb		119
Wedi sgipio		262

Gofynnwyd i rieni a ddewisodd beidio â derbyn y Cynnig Gofal Plant oedd eu rheswm. Atebodd 20 rhiant i'r cwestiwn.

Roedd y rhesymau'n amrywio - dewis y rhieni o ran y darparwr Gofal Plant i'w ddefnyddio; rhieni ddim yn gwybod beth oedd ganddynt hawl iddo; ddim yn gymwys oherwydd incwm, gofal plant yn rhy ddrud, plant yn rhy hen neu'n rhy ifanc; cyllid ar gael o ffynonellau eraill a phryderon ynghylch gallu darparwyr gofal plant i edrych ar ôl plant gydag anghenion ychwanegol.

Dywedodd rhai rhieni nad oedd y Cynnig Gofal Plant yn opsiwn yn y darparwr Gofal Plant roedden nhw'n ei ddefnyddio. Dywedodd un rhiant oedd wedi dewis bod yn rhiant oedd yn aros gartref nad oeddent yn gymwys fel teulu gan nad oedd hi'n gweithio. Dywedodd y byddent dal yn gymwys am gymorth mewn rhai gwledydd os mai dim ond un rhiant oedd yn gweithio. Ond nid dyma oedd y sefyllfa yng Nghymru.

Fe hoffwn i, ond mae'n rhaid i'r ddau riant fod yn gweithio iddo fod ar gael, a gan fod gen i blentyn iau, ni allaf weithio ar hyn o bryd. Dwi'n teimlo y byddai fy mhlentyn 4 oed yn elwa o fwy o ofal plant y tu allan i'r 2 awr ddynodedig y dydd yn yr ysgol feithrin. Petaswn i'n gweithio hefyd yn ogystal â fy ngŵr, fe fyddem ni'n gymwys am ofal plant ychwanegol. Mae hyn ar gael mewn rhai gwledydd, ond ddim yma.

Dywedodd dau riant nad oedden nhw'n gwybod beth yr oedd ganddynt hawl i'w gael.

Dwi ddim yn gwybod gyda beth y medra' i gael help!

Dywedodd rhai rhieni nad oeddent yn gymwys oherwydd incwm. Serch hynny ni wnaethant nodi ai'r rheswm am hyn oedd nad oeddent yn ennill digon neu am eu bod yn ennill gormod. Dywedodd un rhiant eu bod yn cael arian gan Gyllid Myfyrwyr Cymru ac fe soniodd rhiant arall am gost Gofal Plant.

Mae gofal plant yn rhy ddrud hyd yn oed gyda chymorth y wlad

Mynegodd un rhiant bryder am allu darparwyr Gofal Plant i edrych ar ôl plant anabl.

Dwi'm yn teimlo bod llawer o weithwyr gofal plant proffesiynol wedi'u hyfforddi digon gydag awtistiaeth ac ADHD

A yw eich plentyn/plant 2 neu 3 oed yn manteisio ar ofal plant Dechrau'n Deg?

Atebodd 133 o rieni y cwestiwn hwn. Serch hynny, dim ond 6 (4.51%) ddywedodd eu bod yn defnyddio Dechrau'n Deg. Dywedodd y mwyafrif nad oeddent yn derbyn Dechrau'n Deg neu nad oeddent yn gymwys, a dyna oedd i'w ddisgwyl gan y cwestiwn yma.

Ydi eich plentyn 2 neu 3 oed yn manteisio ar ofal plant Dechrau'n Deg?	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Ydi	4.51%	6
Na	87.22%	116
Ddim yn siŵr	4.51%	6
Amherthnasol	17.29%	23
Wedi ateb		133
Wedi sgipio	248	

Gofynnwyd i'r rhieni a ddywedodd nad oeddent yn manteisio arno beth oedd eu rhesymau. Roedd hi'n amlwg o'r ateb nad oedd llawer o bobl yn gwybod beth oedd Dechrau'n Deg neu ei fod yn eu drysu. Roedd yr atebion yn cynnwys nad oedd rhieni'n gwybod beth oedd o, dweud nad oedd y lleoliadau roeddynt yn ei ddefnyddio yn ei gynnig o, dweud nad oedd gwarchodwyr plant yn rhan o'r cynllun ac eraill yn dweud eu bod yn derbyn Treth Credyd neu dâl Mamolaeth, ac felly nad oeddent yn gymwys.

Serch hynny, fe soniodd y mwyafrif o rieni am annhegwch ymddangosiadol y system ac nad oeddent yn gymwys am nad oeddent yn byw mewn ardal cod post Dechrau'n Deg. Soniodd llawer ohonynt am 'Loteri Cod Post'. Roedd sylwadau rhai o'r rhieni'n eithaf miniog gan ddweud nad oeddent yn meddwl bod y system yn deg iawn.

Dyma'r system fwyaf annheg dwi wedi dod ar ei thraws. Rydym ni'n byw mewn hen blasty sydd wedi'i drosi i floc o fflatiau. Nid oes UNRHYW waith diweddarw wedi digwydd a dyma'r unig rent y gall y rhieni ei fforddio (mae POB fflat yn cael ei rentu gan rieni a phlant). Mae tai eraill yn yr ardal yn gefnog. Ond na, dydyn ni ddim yn gymwys o dan y cynllun. Ar y llaw arall, mae ardal gefnog Deganwy yn gymwys am y cynllun Dechrau'n Deg.

Sylwch fod brawddeg olaf y dyfyniad yma'n anghywir - a dyna pam yr annhegwch ymddangosiadol.

Dywedodd un rhiant maeth faint y byddai o fudd i blant sy'n derbyn gofal petaent yn gallu cael gafael ar Ofal Plant Dechrau'n Deg.

Nid fy mod yn dewis, nid ydym ni mewn ardal Dechrau'n Deg, ond fe fyddai'r plant rydym ni'n gofalu amdanynt, yn elwa cymaint o hyn, ond byddai'n rhaid i ni dalu amdano. Fe ddylai fod am ddim i blant sy'n derbyn gofal.

Ydych chi'n dymuno manteisio ar ofal plant a ariennir gan y llywodraeth (y Cynnig Gofal Plant) pan fydd eich plentyn yn gymwys yn 3 oed?

Atebodd 71 o rieni y cwestiwn hwn. O'r rhain, dywedodd 71 (96.2%), ia gyda'r gweddill yn dweud na fyddent (1 - 1.41%), nid oeddent yn sicr (3 - 4.23%) nad oeddent yn gymwys (1 – 1.41%).

Hoffech chi fanteisio ar y Cynnig Gofal Plant) pan fydd eich plentyn yn gymwys yn 3 oed?	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
--	---------------	-----------------------

Hoffwn	92.96%	66
Na	1.41%	1
Ddim yn siŵr	4.23%	3
Amherthnasol	1.41%	1
Wedi ateb		71
Wedi sgipio		310

Gofynnwyd i'r rhai oedd wedi dewis peidio manteisio ar y Cynnig Gofal Plant beth oedd eu rhesymau. Fe atebodd pedwar ohonynt y cwestiwn yma.

Nid oedd un rhiant yn gymwys i ymgeisio gan nad oeddent ar yr Haen Fisa cywir i dderbyn arian cyhoeddus. (Gweler uchod) Dywedodd rhiant arall eu bod yn meddwl y dylai pob plentyn oedd yn derbyn gofal ei gael o.

Fe soniodd un rhiant am y ffaith nad oedd myfyrwyr yn gymwys am y cyllid.

Fe fyddem ni wrth ein bodd, ond dydyn ni ddim yn gymwys. Rydw i'n gweithio ac mae fy mhartner yn fyfyrwr. Dim ond un cyflog sydd gennym ni, ond nid ydym ni'n gymwys am unrhyw gymorth gyda chostau gofal plant.

Fe soniodd y pedwerydd am broblemau bod yn rhiant sengl a chostau uchel Gofal Plant.

Byddai'n gwneud mwy o synnwyr petai'r cyllid yn dechrau'n 2 oed, fel mam sengl, fe hoffwn i ddim byd mwy na mynd i weithio ond mae'r costau gofal plant mor ddrud, nid yw werth o.

Oes gan rai o'ch plant anabledd neu salwch hirdymor?

O blith y 379 o rieni a atebodd y cwestiwn yma, dywedodd 39 (10.29%) bod gan eu plant anabledd neu salwch hir dymor.

A oes gan unrhyw un o'ch plant anabledd neu salwch hirdymor?	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Oes	10.29%	39
Na	88.92%	337
Wedi ateb		379
Wedi sgipio		2

A oes gan unrhyw un o'ch plant angen addysgol arbennig / angen dysgu ychwanegol (mae angen cefnogaeth ychwanegol arnyn nhw gyda'u dysgu)?

O blith y 379 a atebodd y cwestiwn yma, dywedodd 59 o rieni bod gan eu plentyn/plant anghenion addysgol arbennig anghenion dysgu ychwanegol.

Oes gan rai o'ch plant anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol)?	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Oes	15.57%	59
Na	83.38%	316
Mae'n well gen i beidio â dweud	1.06%	4
Wedi ateb		379
Wedi sgipio		2

Ydych chi'n defnyddio unrhyw un o'r mathau canlynol o ofal plant neu addysg gynnar YN YSTOD Y TYMOR?

Dewisodd 374 o rieni ateb y cwestiwn yma. Gofynnwyd i rieni gynnwys pob math o ofal plant maent yn ei ddefnyddio. Mae nifer y rieni'n defnyddio mwy nag un math o ofal plant. Mae'r mathau o ofal plant maent yn ei defnyddio i'w weld yn y tabl isod.

Ydych chi'n defnyddio unrhyw rai o'r mathau canlynol o ofal plant neu Addysg Gynnar yn ystod y tymor?	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Gwarchodwr Plant	8.56%	32
Clwb Cyn Ysgol / Clwb Brecwast	37.7%	141
Clwb Ar Ôl Ysgol	30.48%	114
Meithrinfa Ddydd Preifat	28.88%	108
Meithrinfa'r Ysgol	5.88%	22
Cylch Chwarae	7.49%	28
Cylch Meithrin	14.17%	53
Gollwng mewn Crèche	0.53%	2
Nani	0.53%	2
Au Pair	0.27%	1
Teulu/Ffrindiau (derbyn tâl)	4.28%	16
Teulu/Ffrindiau (di-dâl)	47.33%	177
Dim byd yn ystod y tymor	13.10%	49
Arall	3.48%	13

Wedi ateb		374
Wedi sgipio		13

Yr opsiwn sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf gan rieni yng Nghonwy ydi teulu a ffrindiau (di-dâl) - 177 (47.33%), ac yna Clwb Cyn Ysgol/Clwb Brecwast - 141 (37.7%), Clwb Ar Ôl yr Ysgol - 114 (30.48%), Meithrinfa Ddydd Preifat - 108 (28.88%). O blith y rhieni a ymatebodd, dim ond 32 (8.56%) oedd yn defnyddio Gwarchodwr Plant.

Rhoddwyd opsiwn i'r rhieni ddweud pa fathau eraill o ofal plant roeddynt yn ei ddefnyddio.

Mae'r hyn ddywedodd dau riant yn nodweddiadol o lawer o rieni, cyfuno ffurfiau gwahanol o ofal plant gyda chymorth gan deulu a ffrindiau.

Mae neiniau a theidiau yn gwarchod fy mhientyn 2 flwydd deuddydd yr wythnos ac yn casglu fy mhientyn 6 oed o'r ysgol ar rai diwrnodau. Rydym ni'n defnyddio clwb brecwast bob dydd a chlwb ar ôl ysgol ar nos Iau.

Rydw i dal i weithio o adref, na. Os ydw i nôl yn y swyddfa, rydym ni fel arfer yn defnyddio'r Clwb Brecwast yn yr ysgol a'r Clwb ar ôl Ysgol mewn meithrinfa breifat.

Dywedodd un rhiant bod eu plant yn defnyddio'r Llyfrgell leol. Does gennym ni ddim syniad beth yw oedran y plant yma.

Pan mae'r llyfrgell ar agor mae'r plant yn mynd yno ar ôl ysgol weithiau i wneud gwaith cartref neu ddarllen nes ein bod yn gorffen gwaith.

Dywedodd rhieni hefyd nad ydynt yn defnyddio gofal plant gan ei fod yn rhy ddrud a soniodd dau riant ei bod hi'n anodd/amhosibl dod o hyd i ofal plant ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol.

Ddim yn gallu dod o hyd i ofal plant ar gyfer fy mab 9 oed sy'n awtistig.

Ydych chi'n defnyddio unrhyw un o'r mathau canlynol o ofal plant neu addysg gynnar yn ystod gwyliau'r ysgol?

Dewisodd 324 o rieni ateb y cwestiwn yma. Gofynnwyd i rieni gynnwys pob math o ofal plant maent yn ei ddefnyddio. Mae'r mathau o ofal plant maent yn ei defnyddio i'w weld yn y tabl isod.

Ydych chi'n defnyddio rhai o'r mathau canlynol o ofal plant neu Addysg Gynnar yn ystod gwyliau'r ysgol?	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Gwarchodwr Plant	8.95%	29
Gofal yn ystod Gwyliau	17.9%	58
Meithrinfa Ddydd Preifat	34.57%	112
Ysgol Baratoadol (Preifat)	1.85%	6

Cylch Chwarae	2.78%	9
Cylch Meithrin	1.54%	5
Gollwng mewn Crèche	0.62%	2
Nani	0.31%	1
Au Pair	0.27%	1
Cynllun Chwarae	3.40%	11
Teulu/Ffrindiau (derbyn tâl)	4.01%	13
Teulu/Ffrindiau (di-dâl)	57.41%	186
Dim yn ystod gwyliau'r ysgol	15.74%	51
Arall	4.01%	13
Wedi ateb		324
Wedi sgipio		57

Yn ystod y gwyliau, mae'r dewis o ofal plant a ddefnyddir yn debyg iawn i'r hyn yn ystod y tymor gyda 186 (57.41%) o rieni yn defnyddio teulu a ffrindiau (di-dâl). Y math nesaf o ofal plant a ddefnyddir fwyaf ydi Meithrinfeydd Dydd - 112 (34.57%) a Gofal yn ystod gwyliau - 58 (17.9%). Mae'r ffigwr ar gyfer defnyddio Gwarchodwyr Plant yn debyg iawn i'r hyn yn ystod y tymor gyda 29 o rieni (8.95%) yn eu defnyddio nhw.

Gofynnwyd i rieni pa opsiynau roeddynt yn eu defnyddio yn ystod y gwyliau. O'r hyn maent wedi'i ddweud, mae'n ymddangos bod opsiynau mwy anffurfiol yn cael eu defnyddio yn ystod y gwyliau. Fe soniwyd am glybiau pêl-droed. Fe soniodd un rhiant am edrych ar ôl plant ei gilydd.

Criw o famau eraill yn edrych ar ôl plant ei gilydd fel nad oes rhaid i ni gyd gymryd yr un diwrnodau i ffwrdd, er mwyn hel ein gwyliau blynyddol dros y flwyddyn.

Dywedodd un rhiant nad yw'n defnyddio gofal plant cofrestredig:

Mae gwyliau'r ysgol yn anodd iawn gan fod y Cylch ar gau ac nid yw fy hoff raglen gwyliau ysgol yn derbyn Cyllid Gofal Plant neu Gynllun Gofal Plant Di-dreth.

Fe soniodd rhieni hefyd am gymryd gwyliau i edrych ar ôl eu plant yn ystod y gwyliau.

Fe soniodd rhieni unwaith eto am gost gofal plant yn ystod y gwyliau a diffyg gofal plant i blant sydd ag anghenion ychwanegol.

Nid oes gofal plant ar gael i fachgen 9 oed sy'n awtistig. Mae meithrinfeydd yn dweud nad oes ganddynt ddigon o staff.

Ar gyfartaledd, am sawl awr yr wythnos rydych chi'n defnyddio unrhyw fath o ofal plant?

Gofynnwyd i rieni ddweud sawl awr o ofal plant roeddynt yn ei ddefnyddio ar gyfartaledd bob wythnos. Os nad oeddent yn gallu rhoi cyfartaledd am fod yr oriau'n amrywio, gofynnwyd iddynt roi ystod o'r nifer y oriau roeddynt yn ei ddefnyddio. Roedd hi'n eithaf anodd dadansoddi a chymharu, yn enwedig peidio gwybod faint o blant roeddynt yn defnyddio gofal plant ar eu cyfer ac yn darparu gwybodaeth amdanynt.

Serch hynny, mae dadansoddiad cyflym yn awgrymu ar gyfartaledd bod rhieni yn defnyddio 20 (ystod o 19 - 22 awr) yn ystod y tymor ac ar gyfartaledd 21 (ystod 19 - 23) awr yn ystod y gwyliau.

Ar gyfartaledd, faint rydych chi'n ei dalu bob wythnos am eich gofal plant (heb gynnwys gofal plant a ariennir gan y llywodraeth)?

Atebodd 325 o rieni y cwestiwn yma. Er y gallwn ni edrych drwy eu hatebion, yn anffodus nid oes gennym syniad pa unai ydynt yn talu Gofal Plant am un plentyn neu am fwy. Ni ofynnwyd i rieni egluro'r symiau, felly nid oes gennym ragor o wybodaeth i'w ddefnyddio heblaw'r ffaith nad yw hyn yn cynnwys unrhyw ofal plant a ariennir gan y Llywodraeth. Mae'n debyg bod y ffigwr yma'n cynnwys cyfartaledd ar gyfer y ddwy wythnos o wyliau ac wythnosau yn ystod y tymor. Mae'r tabl isod yn dangos faint mae pobl yn ei dalu ar gyfartaledd ar gyfer eu Gofal Plant bob wythnos. Ffigwr rhwng £100 - £199 yr wythnos oedd y ffigwr oedd yn cael ei dalu gan y nifer fwyaf o rieni - 79 (24.31%).

Ar gyfartaledd, faint ydych chi'n ei dalu fesul wythnos am eich gofal plant? (Heb gynnwys gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth)	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
£0.00	23.88%	76
£0.01 - £10.00	2.46%	8
£10.00 - £49.00	19.69%	64
£50.00 - £99.00	17.85%	58
£100.00 - £199.00	24.31%	79
£200.00 - £299.00	9.85%	32
£300.00+	2.46%	
Wedi ateb		325
Wedi sgipio		56

Pa mor fodlon ydych chi gyda'ch darparwr gofal plant presennol?

Atebodd 326 o rieni y cwestiwn hwn. Roedd y mwyafrif o rieni'n fodlon iawn gyda'u darparwr presennol - 174 (53.37%) ac roedd 102 (31.29%) yn fodlon. Mae'n destun pryder darllen bod 15 o rieni (4.6%) yn eithaf anfodlon ac roedd 4 rhiant (1.23%) yn anfodlon iawn gyda'u darparwr. Mae'r tabl yn dangos y canlyniadau ar gyfer cwestiwn hwn.

Pa mor fodlon ydych chi gyda'ch darparwr Gofal Plant presennol?	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Bodlon iawn	53.37%	174
Eithaf bodlon	31.29%	102
Eithaf anfodlon	4.6%	15
Anfodlon iawn	1.23%	4
Amherthnasol	9.51%	31
Wedi ateb		326
Wedi sgipio		55

Gofynnwyd i rieni sut y gellir gwella eu gofal plant os nad oeddent yn hapus. Cawsant rhestr o feysydd yr hoffent eu gweld yn cael eu gwella a gofynnwyd iddynt farcio'r rhai roeddynt yn meddwl oedd yn bwysig. Dim ond 21 o rieni atebodd y cwestiwn yma. Y ddau beth roedd y rhieni fwyaf anhapus yn eu cylch oedd cost Gofal Plant (13 - 61.9%) a oedd eisoes wedi cael ei grybwyll mewn sylwadau eraill, a'r angen i ymestyn oriau agor ar adegau gwahanol o'r dydd. Dywedodd 14 rhiant yr hoffent weld oriau eu darparwyr Gofal Pant yn cael eu hystyngiadau ar adegau gwahanol o'r dydd. Yn ddiddorol, ni ddywedodd unrhyw riant yr hoffent weld gofal dros nos a dim ond un rhiant ddywedodd y byddent yn hoffi gweld gofal dros y penwythnos. Mae hyn yn ddiddorol iawn gan fod y diwydiant twristiaeth, manwerthu, a hamdden a'r sector gofal yn gyflogwyr mawr yng Nghonwy. Mae'r tabl isod yn dangos yr ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Os ydych chi'n anhapus gydag agweddau penodol o'ch gofal plant, beth y gellir ei wella?	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Mwy o oriau ar gael (lleoliadau yn rhy brysus neu'n rhy llawn)	23.81%	5
Ymestyn oriau agor - Boreau cynnar	38.1%	8
Ymestyn oriau agor - Nosweithiau	23.81%	5
Ymestyn oriau agor dros benwythnosau	4.76%	1
Ymestyn oriau agor dros nos	0%	0
Mwy o ofal hyblyg (sesiynau ad hoc)	23.81%	5
Mwy fforddiadwy	69.1%	13
Lleoliad gwahanol	0%	0
Gofal plant sy'n bodloni anghenion dysgu ychwanegol fy mhlentyn yn well	9.52%	2
Darpariaeth o ansawdd gwell	28.57%	6
Nid oes angen gwelliannau	4.76%	1
Arall	19.05%	4

Wedi ateb		21
Wedi sgipio		360

Roedd sylwadau gan y rhieni ynglŷn â pham nad oeddent yn fodlon yn cynnwys y canlynol

Rydw i'n gweithio'n llawn amser fel mam sengl ac mae hi'n chwerthinllyd ceisio fforddio gofal plant, nid ydi'r llywodraeth yn helpu i annog rhieni i weithio

Diffyg darpariaeth gofal plant yn y Gymraeg yn lleol i ni.

Angen gofal plant yn ystod y gwyliau ond nid ydi'r darparwyr yn lleol yn cynnig hynny i blant oedran ysgol h.y. 8 er mwyn i ni fynd i'r gwaith

Gorfod rhoi'r gorau i weithio oherwydd costau gofal

Os nad ydych chi'n manteisio ar unrhyw ofal plant, beth yw'r rheswm?

Gofynnwyd i rieni nad ydynt yn manteisio ar Ofal Plant am eu rhesymau dros hynny. Y tri phrif reswm oedd bod Gofal Plant yn rhy ddud (83 - 50.92%); rhieni'n defnyddio gofal plant anffurfiol megis aelodau'r teulu neu ffrindiau; a rhieni'n aros gartref a ddim angen Gofal Plant (28 - 17.18%). Mae'r rhesymau eraill dros beidio â defnyddio Gofal Plant i'w gweld yn y tabl isod.

Beth yw'ch rhesymau dros beidio â manteisio ar ofal plant?	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Rydw i'n defnyddio gofal plant anffurfiol megis ffrind neu aelod o'r teulu	34.36%	56
Rydw i'n dewis peidio manteisio ar ofal plant	4.91%	8
Rydw i'n rhiant sy'n aros gartref ac felly does gen i ddim angen am ofal plant	17.18%	28
Mae fy mhlant yn ddigon hen i edrych ar ôl eu hunain	4.29%	7
Nid oes yna ofal plant sydd o safon ddigonol	5.52%	8
Nid oes yna ddarpariaeth Gymraeg addas	2.45%	4
Nid oes yna ddarpariaeth addysg yn ein hiaith nad yw'n Gymraeg neu'n Saesneg	0%	0
Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion	10.43%	17
Mae cost gofal plant yn rhy ddud	50.92%	83
Mae amseroedd gofal plant yn anaddas	7.98%	13

Nid oes yna ofal plant ar gael sy'n addas ar gyfer oedran fy mhlentyn	8.59%	14
Mae yna broblem gyda chludiant	3.07%	5
Nid oes yna ofal plant lle rydw i ei angen	7.36%	12
Nid oes yna ofal plant sy'n gallu darparu ar gyfer anghenion penodol fy mhlentyn	10.43%	17
Dim ond ar sail ad hoc ydw i'n defnyddio gofal plant ac mae hi'n amhosibl cynllunio	6.75%	11
Arall	14.72%	24
Wedi ateb		163

Gofynnwyd i rieni roi gwybodaeth ychwanegol ynghylch pam nad ydynt yn defnyddio Gofal Plant. Roedd yr ymatebion yn amrywio. Nid oedd rhai rhieni ei angen gan eu bod yn gweithio o adref neu eu bod ar absenoldeb mamolaeth, neu'n gweithio yn ystod oriau ysgol. Nid oedd rhai rhieni'n hapus yn defnyddio Gofal Plant yn ystod COVID.

Rydw i wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau oherwydd y pandemig - mae fy ngŵr bellach yn gweithio o adref ac rydw i'n wylidwrus ynglŷn â fy mhlant yn cymysgu gydag ystod eang o blant eraill.

Dywedodd rhai rhieni nad oedd yna ddarpariaeth yn eu hardal yn eu dewis iaith, a dywedodd un arall mai ychydig iawn o ddarparwyr Gofal Plant oedd yn yr ardal maent yn byw.

Dywedodd rhieni plant anabl pa mor anodd oedd hi fel rhiant i blentyn anabl i ddod o hyd i Ofal Plant.

Mae o angen gofal 1-1 ac er bod ganddynt gyllid ar gyfer hyn, mae'r feithrinfa'n dweud nad oes ganddynt ddigon o staff, neu ddim digon o leoedd, hyd yn oed os ydw i'n trio archebu wythnosau ymlaen llaw, maen nhw'n dweud eu bod nhw am roi gwybod i mi ond eto, nid ydynt yn cysylltu tan y diwrnod cyn roeddw'n i eisiau lle (mae'n rhaid eu bod nhw'n derbyn archebion eraill yn y cyfnod yma), yna maent yn dweud nad oes ganddynt ddigon o le neu ddim ddigon o staff. GWAHANIAETHU ydi hyn.

Fe soniodd rhieni eraill bod cost Gofal Plant yn waharddedig, a'r teimlad nad yw rhieni sydd ddim yn gweithio yn cael cymorth.

Dydw i ddim yn cael fy nghefnogi ddigon oherwydd rydw i'n gweithio, ond eto roedd fy nghyflog yn mynd tuag at ofal plant gan wneud i mi deimlo fel rhoi'r gorau i weithio oherwydd mae'r rhai nad ydynt yn gweithio yn cael cymorth.

Ydych chi'n manteisio ar ofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg?

Atebodd 218 o rieni y cwestiwn yma. O blith y rhain, dywedodd 72 (33.03%) eu bod yn manteisio ar Ofal Plant drwy gyfrwng y Gymraeg, tra bod 129 (59.17%) wedi dweud nad ydyn nhw. Yn rhyfeddol, dywedodd 17 o rieni (7.08%) nad ydynt yn gwybod neu eu bod yn ansicr.

Ydych chi'n defnyddio Gofal Plant drwy gyfrwng y Gymraeg?	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Ydw	33.03%	72
Na	59.17%	129
Ddim yn siŵr/ddim yn gwybod	7.80%	17
Wedi ateb		218
Wedi sgipio		163

Gofynnwyd i rieni nad ydynt yn defnyddio Gofal Plant drwy gyfrwng y Gymraeg a hoffent wneud hynny. Rhoddir yr ymatebion yn y tabl isod. Er bod 68 (48.3%) wedi dweud na, dywedodd 56 (39.72%) ia neu efallai.

Hoffech chi fanteisio ar Ofal Plant drwy gyfrwng y Gymraeg?	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Hoffwn	14.89%	21
Efallai	24.82%	35
Na	48.23%	68
Wn i ddim	12.06%	14
Wedi ateb		141
Wedi sgipio		240

Fe ddywedoch chi ddweud wrthym nad ydych chi'n defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg, ond efallai yr hoffech wneud hynny. Pa broblemau rydych chi'n eu hwynebu o ran mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg?

Fe atebodd 52 o rieni y cwestiwn yma gan arwain at 76 o ymatebion. Gofynnwyd i rieni gynnwys pob problem oedd yn berthnasol. Mae'r tabl isod yn dangos y canlyniadau llawn.

Pa broblemau ydych chi'n eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at Ofal Plant cyfrwng Cymraeg?	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Pellter	17.31%	9
Argaeledd	67.31%	35
Ansawdd y gofal	3.85%	2
Gallu iaith y staff	28.85%	15
Y gost	21.15%	11
Oriau annigonol o ofal	7.69%	4

Wedi ateb		52
Wedi sgipio		329

Gofynnwyd i rieni roi rhagor o sylw. Roedd yr ymatebion yn eithaf amrywiol gyda rhai rhieni'n dweud ei bod hi'n anodd dod o hyd i Ofal Plant Cymraeg yn yr ardal roeddynt yn byw.

Nid ydw i'n ymwybodol o unrhyw gyfleuster gofal plant yn ein hardal ni sy'n cynnig y gwasanaeth yma. Fe hoffwn i petai fy merch yn gallu deall mwy o Gymraeg na mae hi ar hyn o bryd.

Rydym ni'n defnyddio gwarchodwr plant ac roedd dod o hyd i un oedd yn ddigon agos, oedd yn rhesymol o ran pris ac yn siarad Cymraeg yn amhosibl.

I rai rhieni, dewis personol a chyfleustra oedd y rheswm.

Alla i ddim bod yn gollwng plant mewn un ysgol, ac yna mewn un arall ar yr un pryd.

Fe hoffai rhai rhieni mwy o Gymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Fe hoffwn i petai mwy o Gymraeg yn cael ei siarad mewn lleoliadau Gofal Plant cyfrwng Saesneg er mwyn cael cymysgedd da o'r ddwy iaith gan mai'r blynyddoedd cynnar yw'r amser gorau i blentyn ddysgu iaith newydd, a does gennym ni ddim llawer o Gymraeg adref, felly nid ydym yn teimlo y gallwn roi digon o gefnogaeth yn y maes yma.

Roedd rhiant arall yn poeni am ddiystyru'r Saesneg yn y lleoliad Gofal Plant roeddynt yn ei ddefnyddio.

Fy mhrif broblem i yw bod yr unig leoliad gofal plant gerllaw yn mynnu gwneud popeth ac asesu popeth yn Gymraeg, er bod mwyafrif y plant sy'n mynychu yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf ac yn dysgu i gyfrif a darllen Saesneg gartref. Rydw i eisiau i fy mhlant ddysgu Cymraeg, ond ddim ar draul gallu darllen, ysgrifennu a chyfrif yn eu hiaith gyntaf, ac yn enwedig i beidio â chael rhywun yn dweud "nid yw'n cyfrif os nad ydi o'n Gymraeg", pan fo'r plant yn cael eu hasesu.

A allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?

Gofynnwyd i rieni a allent ddeall, siarad a / neu ysgrifennu Cymraeg. Atebodd 245 o rieni y cwestiwn yma. O blith y rhain, dywedodd 226 (92.4%) eu bod yn deall Cymraeg. Dywedodd 152 (62.04%) y gallent siarad a darllen Cymraeg a dywedodd 126 (51.43%) y gallent ysgrifennu Cymraeg.

A allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Deall	92.4%	226
Siarad	62.04%	152

Darllen	62.05%	152
Ysgrifennu	51.43%	
Wedi ateb		245
Wedi sgipio		136

Gan feddwl am yr holl ofal plant rydych chi'n ei ddefnyddio ar gyfer eich plant, neu'n ymwybodol ohono, i ba raddau rydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?

Gofynnwyd i rieni sut roeddynt yn teimlo am y gofal plant roeddynt yn ei ddefnyddio.

Bodddhad gyda gofal plant yn ystod y tymor

Rhoddodd 380 o rieni eu barn am y datganiad - Rydw i'n fodlon gyda fy ngofal plant yn ystod y tymor. Roedd 160 (42.1%) yn cytuno'n gryf eu bod yn fodlon tra bod 110 (28.9%) yn tueddu i gytuno eu bod yn fodlon. Yn y pen arall, dywedodd 27 (7.1%) eu bod yn tueddu i anghytuno â'r datganiad, tra bod 25 (6.6%) wedi dweud eu bod yn anghytuno'n gryf.

Rydw i'n fodlon gyda fy ngofal plant yn ystod y tymor	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Cytuno'n gryf	42.1%	160
Tueddu i gytuno	28.9%	110
Tueddu i anghytuno	7.1%	27
Anghytuno'n gryf	6.6%	25
Amherthnasol	15.3%	58
Wedi ateb		380

Bodddhad gyda gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol.

Ymatebodd 377 o rieni i'r datganiad - Rydw i'n fodlon gyda fy ngofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol. Dywedodd 203 o rieni (53.8%) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno, tra bod 71 (18.8%) wedi dweud eu bod naill ai yn tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf.

Rydw i'n fodlon gyda fy ngofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Cytuno'n gryf	28.1%	106
Tueddu i gytuno	25.7%	97
Tueddu i anghytuno	8.2%	31

Anghytuno'n gryf	10.6%	40
Amherthnasol	27.3%	103
Wedi ateb		377

Ansawdd y Gofal Plant

Fe ymatebodd 380 o rieni i'r datganiad hwn - mae ansawdd y gofal plant yn uchel. O blith y rhain, dywedodd 280 o rieni (73.7%) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno, tra bod 32 (8.4%) wedi dweud eu bod naill ai yn tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf.

Mae ansawdd y gofal plant yn uchel	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Cytuno'n gryf	42.9%	163
Tueddu i gytuno	30.8%	117
Tueddu i anghytuno	6.3%	24
Anghytuno'n gryf	2/1%	8
Amherthnasol	17.9%	68
Wedi ateb		380

Dewis o ofal plant

Fe ymatebodd 379 o rieni i'r datganiad - mae yna ddewis da o ofal plant yn fy ardal. O'r rhain dywedodd 186 (49.1%) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno, tra bod 157 (41.9%) wedi dweud eu bod naill ai yn tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf.

Mae yna ddewis da o ofal plant yn fy ardal i	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Cytuno'n gryf	19.0%	72
Tueddu i gytuno	30.1%	114
Tueddu i anghytuno	26.1%	99
Anghytuno'n gryf	15.3%	58
Amherthnasol	9.5%	36
Wedi ateb		379

Lleoliad y gofal plant

Fe ymatebodd 377 o rieni i'r datganiad - Mae Gofal Plant wedi'i leoli'n dda. O'r rhain dywedodd 265 o rieni (70.3%) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno, tra bod 68 (18.1%) wedi dweud eu bod naill ai yn tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf.

Mae gofal plant wedi'i leoli'n dda	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Cytuno'n gryf	32.1%	121
Tueddu i gytuno	38.2%	144
Tueddu i anghytuno	11.7%	44
Anghytuno'n gryf	6.4%	24
Amherthnasol	11.7%	44
Wedi ateb		377

Anghenion plant

Fe ymatebodd 379 o rieni i'r datganiad bod Gofal Plant yn darparu ar gyfer anghenion fy mhlentyn. O'r rhain dywedodd 257 o rieni (67.8%) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno, tra bod 59 (15.5%) wedi dweud eu bod naill ai yn tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf.

Mae gofal plant yn darparu ar gyfer anghenion fy mhlentyn	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Cytuno'n gryf	35.9%	136
Tueddu i gytuno	31.9%	121
Tueddu i anghytuno	8.4%	32
Anghytuno'n gryf	7.1%	27
Amherthnasol	16.6%	63
Wedi ateb		379

Nifer y lleoliadau gofal plant a fynychir

Fe ymatebodd 375 o rieni i'r datganiad yma - Fe hoffwn i i fy mhlentyn fynychu mwy o ofal plant cofrestredig. O'r rhain dywedodd 168 o rieni (44.8%) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno, tra bod 90 (24.0%) wedi dweud eu bod naill ai yn tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf.

Fe hoffwn i fy mhlentyn fynychu mwy o ofal plant cofrestredig	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
---	---------------	-----------------------

Cytuno'n gryf	18.7%	70
Tueddu i gytuno	26.1%	98
Tueddu i anghytuno	14.1%	53
Anghytuno'n gryf	9.9%	37
Amherthnasol	31.2%	117
Wedi ateb		375

Cost Gofal Plant

Fe ymatebodd 378 o rieni i'r datganiad - Mae Gofal Plant yn rhy ddrud. O'r rhain dywedodd 325 (86.0%) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno, tra bod 31 (8.2%) wedi dweud eu bod naill ai yn tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf.

Mae gofal plant yn rhy ddrud	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Cytuno'n gryf	63.8%	241
Tueddu i gytuno	22.2%	84
Tueddu i anghytuno	7.1%	27
Anghytuno'n gryf	1.1%	4
Amherthnasol	5.8%	22
Wedi ateb		378

Teulu a ffrindiau

Fe ymatebodd 375 o rieni i'r datganiad yma - Fe fyddai'n well gen i ddefnyddio teulu/ffrindiau ar gyfer gofal plant. O'r rhain dywedodd 143 (38.1%) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno, tra bod 157 (41.9%) wedi dweud eu bod yn naill ai yn tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf.

Fe fyddai'n well gen i ddefnyddio teulu/ffrindiau ar gyfer Gofal Plant	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Cytuno'n gryf	14.1%	53
Tueddu i gytuno	24.0%	90
Tueddu i anghytuno	29.6%	111
Anghytuno'n gryf	12.3%	46
Amherthnasol	20.0%	75
Wedi ateb		375

Dibynadwyedd gofal plant

Fe ymatebodd 372 o rieni i'r datganiad yma - Mae gen i broblem gyda threfniadau gofal plant sy'n annibynadwy. O'r rhain dywedodd 70 o rieni (18.8%) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno, tra bod 163 (43.8%) wedi dweud eu bod naill ai yn tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf.

Mae gen i broblem gyda threfniadau gofal plant sy'n annibynadwy	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Cytuno'n gryf	6.7%	25
Tueddu i gytuno	12.1%	45
Tueddu i anghytuno	15.6%	58
Anghytuno'n gryf	28.2%	105
Amherthnasol	37.4%	139
Wedi ateb		372

Sylwch fod yr arolwg rhieni wedi'i gynnal yn ystod cyfnod o ansicrwydd mawr i ddarparwyr gofal plant a oedd yn gorfod cau ar fyr rybudd yn aml iawn oherwydd sefyllfa Covid.

Rhwyrstr i gael mynediad at waith

Fe ymatebodd 375 o rieni i'r datganiad - Mae gofal plant yn rhwyrstr i fy atal rhag gweithio. O'r rhain dywedodd 171 o rieni (45.6%) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno, tra bod 106 (28.2%) wedi dweud eu bod naill ai yn tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf.

Mae gofal plant yn rhwyrstr i fy atal rhag gweithio neu hyfforddi	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Cytuno'n gryf	22.9%	86
Tueddu i gytuno	22.7%	85
Tueddu i anghytuno	14.1%	53
Anghytuno'n gryf	14.1%	53
Amherthnasol	26.1%	98
Wedi ateb		375

Gwybodaeth am ofal plant

Fe ymatebodd 377 o rieni i'r datganiad - Dwi'n gwybod lle i gael gwybodaeth am ofal plant. O blith y rhain, dywedodd 213 o rieni (56.5%) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno, tra bod 135 (35.84%) wedi dweud eu bod naill ai yn tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf.

Dwi'n gwybod lle i gael gwybodaeth am ofal plant	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Cytuno'n gryf	17.5%	66
Tueddu i gytuno	39.0%	147
Tueddu i anghytuno	24.4%	92
Anghytuno'n gryf	11.4%	43
Amherthnasol	7.7%	29
Wedi ateb		377

Gwybodaeth am gymorth ariannol

Fe ymatebodd 378 o rieni i'r datganiad - Dwi'n gwybod lle i gael gwybodaeth am gymorth ariannol. O blith y rhain, dywedodd 140 o rieni (37.1%) eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno, tra bod 206 (54.5%) wedi dweud eu bod naill ai yn tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf.

Dwi'n gwybod lle i gael gwybodaeth am gymorth ariannol	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Cytuno'n gryf	10.1%	38
Tueddu i gytuno	27.0%	102
Tueddu i anghytuno	30.2%	114
Anghytuno'n gryf	24.3%	92
Amherthnasol	8.5%	32
Wedi ateb		378

Yn ystod y flwyddyn flaenorol, a ydych chi neu'ch partner wedi profi problemau yn ymwneud â gofal plant?

Atebodd 262 o rieni y cwestiwn hwn. O'r rhain, dywedodd 165 (62.98%) bod problemau gyda gofal plant wedi achosi problemau yn y gwaith; dywedodd 71 (27.10%) ei fod wedi eu hatal rhag parhau i weithio; dywedodd 78 (29.77%) ei fod wedi eu hatal rhag cael swydd a dywedodd 77 (23.66) ei fod wedi eu hatal rhag hyfforddi.

Yn y flwyddyn flaenorol a ydych chi wedi cael problemau yn ymwneud â gofal plant?	Canran Ymateb	Cyfanswm yr ymatebion
Wedi achosi problemau yn y gwaith	62.98%	165
Wedi atal parhad o ran gwaith	27.1%	71
Wedi eich atal rhag gweithio neu gael gwaith	29.77%	78
Wedi eich atal rhag hyfforddi	23.66%	77
Arall	18.32%	48
Wedi ymateb		262

Gofynnwyd i rieni roi rhagor o wybodaeth. Un o'r problemau mwyaf cyffredin y soniwyd amdanynt oedd anhawster gweithio o gartref tra'n edrych ar ôl plant pan oedd y darparwyr Gofal Plant ar gau oherwydd COVID.

Mae gorfod gweithio o adref gyda dau o blant adref wedi bod yn heriol.

Mae wedi cael sgil effaith ar fy ngwaith a dwi wedi gorfod gweithio min nos ac ar benwythnosau i wneud yr oriau i fyny, ac yn ei dro ma hynny'n lleihau amser teulu.

Fe soniodd rhieni am yr angen i gyflogwyr fod yn fwy hyblyg gyda threfniadau gweithio i deuluoedd sydd â phlant.

Mae hi wedi bod yn anodd iawn gweithio gartref gyda phlentyn 3 oed pan oedd cylch chwarae ar gau oherwydd Covid. Mae angen mwy o hyblygrwydd mewn llywodraeth leol lle rydw i'n gweithio (Conwy) i roi mwy o absenoldeb arbennig â thâl oherwydd Covid. Do, maen nhw wedi rhoi hyblygrwydd i mi weithio fy oriau, ond ar adegau mae wedi effeithio ar fy iechyd meddwl a lles yn ceisio gweithio gyda phlentyn sâl gartref, heb unrhyw wyliau ar ôl nag absenoldeb gofalwr. Nid ydw i wedi gallu cymryd absenoldeb di-dâl gan fod gen i forgais a biliau sydd angen eu talu.

Dywedodd rhieni na fu modd iddynt ymgymryd â swyddi gwirfoddol i helpu pobl eraill yn y gymuned. Dywedodd un rhiant y bu'n rhaid iddynt adael eu gwaith a gweithio o adref ar gyflog llawer is. Tra bod eraill oedd yn hunangyflogedig wedi dweud bod eu busnesau wedi cael eu heffeithio gan fod Gofal Plant wedi cau oherwydd Covid.

Roedd cau lleoliad gofal plant oherwydd afiechyd heintus yn golygu nad oedd modd i mi weithio yn fy musnes fy hun gan olygu fy mod wedi colli enillion.

Roedd rhesymau eraill a roddwyd yn cynnwys dim Gofal Plant lleol oedd yn bodloni anghenion y rhiant. E.e. diffyg Meithrinfa ddydd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal neu'r ffaith nad oedd rhai ysgolion yn cynnig gofal plant oedd yn golygu bod yn rhaid i rieni ddibynnu ar berthnasau neu gymryd amser ffwrdd o'r gwaith.

Fe soniodd un rhiant bod cael pedair wythnos o rybudd i ddod o hyd i ofal plant arall wedi achosi problemau. Roedd hi bron yn amhosibl iddynt wneud hyn gan nad oedd yna leoedd gwag eraill gyda darparwyr Gofal Plant ac roedd hi'n anodd iawn mynd i weld lleoliadau gofal plant a siarad gyda darparwyr tra'u bod yn gweithio.

Dywedodd nifer y rieni bod cost gofal plant wedi effeithio o arnynt ac achosi llawer o straen. Roedd rhai rhieni wedi dewis gweithio'n rhan-amser oherwydd y gost nes byddai eu plentyn yn elwa o gyllid Addysg y Blynnyddoedd Cynnar a'r Cynnig Gofal Plant. Roedd rhieni'n credu bod angen mwy o ofal estynedig ac y dylai darparwyr gofal plant fod yn fwy hyblyg wrth gynnig diwrnodau arbennig.

Wedi gwario mwy na dau draean o fy nghyflog ar ofal plant. Bu'n rhaid i rieni gymryd tro pwy oedd yn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith yn sgil gofal plant oedd yn cael ei ganslo neu salwch plentyn.

Gan na allwn ni fforddio defnyddio mwy o ofal plant na rydym ni, mae'n rhaid i mi weithio'n hwyr min nos o gartref a cheisio dal i fyny gyda gwaith gweinyddol dwi methu ei wneud pan fo fy merch gyda fi y tu allan i oriau ysgol yn gynharach yn y dydd. Mae hyn wedi achosi straen i ni fel teulu.

Dywedodd rhieni nad oedd modd iddynt ddatblygu gyda'u gyrfaedd oherwydd cost gofal plant.

Dwi'n gwybod nad ydw i'n gallu datblygu yn fy ngyrfa fel rhiant sengl a'r unig opsiwn i mi yw i fynd tuag yn ôl. Bu nifer y gyfleoedd yn ddiweddar gyda gwaith ond dwi'n gwybod na fyddwn i'n gallu cyflawni'r oriau sydd eu hangen ar gyfer y contract.

Beth yw eich statws cyflogaeth presennol?

Gofynnwyd i'r rhieni a lenwodd yr arolwg yma beth oedd eu statws cyflogaeth. Mae'r tabl isod yn dangos y ffigyrau.

Statws cyflogaeth cyfredol	Chi	Eich partner (os yn berthnasol)	Cyfanswm yr ymatebion
Yn chwilio am waith ond ddim yn gweithio eto	80.0% (24)	20.6% (6)	30
Yn gyflogedig	55.9% (301)	44.1% (237)	538
Yn hunangyflogedig	38.6% (32)	61.4% (51)	83
Mewn addysg neu hyfforddiant	77.8% (35)	22.2% (10)	45
Ddim yn gweithio a ddim yn chwilio am waith	85.7% (18)	14.3% (3)	21
Methu gweithio	83.3% (20)	16.7% (4)	24
Wedi ateb			379
Wedi sgipio			2

Incwm gros eich cartref yr wythnos.

Gofynnwyd i rieni beth oedd incwm gros eu cartref yr wythnos. Mae'r tabl isod yn dangos y canlyniadau llawn.

	Ymateb fesul canran	Cyfanswm yr ymatebion
Hyd at £100	0.00%	0.00
£100 - £149	3.30%	12
£150 - £249	6.04%	22
£250 - £349	7.42%	27
£350 - £449	10.99%	40
£500 - £580	7.69%	20
£581 - £750	13.19%	48
£750 - £999	19.23%	70
Mwy na £1000	17.86%	65
Mae'n well gen i beidio â dweud	14.29%	52
Wedi ateb		364
Wedi sgipio		17

Ydych chi'n rhagweld y bydd angen mwy neu lai o ofal plant arnoch yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf?

Mae'r tabl isod yn nodi'r canlyniadau.

Ydych chi'n rhagweld y bydd angen mwy neu lai o ofal plant arnoch yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf?	Ymateb fesul canran	Cyfanswm yr ymatebion
Mwy	45.24%	171
Aros yr un fath	26.72%	101
Llai	17.2%	65
Ddim yn gwybod/ ddim yn siŵr	10.85%	41
Wedi ateb		378
Wedi sgipio		3

Gofynnwyd i'r rhieni a ddywedodd y byddent yn defnyddio llai o Ofal Plant beth oedd eu rhesymau. Mae'r tabl isod yn nodi'r canlyniadau.

Rhesymau dros ddefnyddio llai o ofal plant	Ymateb fesul canran	Cyfanswm yr ymatebion
Bydd y plentyn/plant yn hŷn	96.48%	65
Disgwyl gweithio/astudio llai o oriau	0.00%	0
Disgwyl gweithio/astudio mwy o adref	6.06%	4
Ceisio cael mwy o amser gyda'r teulu	4.55%	3
Pryderon am Covid-19/heintiau	1.52%	1
Pryderon am amhariad Covid-19 ar wasanaethau/cau	0.00%	0
Arall	3.03%	2
Wedi ateb		66
Wedi sgipio		315

Rhoddodd dau riant resymau 'arall' pam y byddent yn defnyddio llai o Ofal Plant. Dywedodd un mai oherwydd bod gan eu plentyn anghenion arbennig ac nad oedd unrhyw ddarpariaeth gofal plant yn gallu cynnig cefnogaeth un wrth un. Dywedodd y llall y byddent angen darpariaeth ar ôl ysgol yn hytrach na darpariaeth gydol y dydd ond nad oedd yr ysgol yn cynnig gofal ar ôl ysgol.

Gofynnwyd i'r rhieni a ddywedodd y byddent yn defnyddio mwy o ofal plant i ddweud pa fath o ofal plant roeddynt yn rhagweld ei ddefnyddio. Mae'r tabl isod yn nodi'r canlyniadau.

Y math o ofal plant roeddynt yn rhagweld ei ddefnyddio	Ymateb fesul canran	Cyfanswm yr ymatebion
Gwarchodwr Plant	19.08%	33
Clwb Cyn Ysgol / Clwb Brecwast	52.02%	90
Clwb Ar Ôl Ysgol	53.76%	93
Meithrinfa Ddydd Preifat	32.95%	57
Meithrinfa'r Ysgol	20.23%	35
Cylch Chwarae	16.76%	29
Cylch Meithrin	23.12%	40
Gollwng mewn Crèche	2.31%	4
Nani	1.16%	2
Au Pair	0.00%	0
Ysgol Baratoadol (Preifat)	0.58%	1
Clwb Gwyliau	26.59%	46
Teulu/Ffrindiau (derbyn tâl)	3.47%	6

Teulu/Ffrindiau (derbyn tâl)	40.46%	70
Amherthnasol	0.00%	0
Arall	7.51%	13
Wedi ateb		173
Wedi sgipio		208

Rhoddodd 13 rhiant resymau 'arall' pam y byddent yn defnyddio mwy o Ofal Plant. O'r 13 rhiant yma, roedd 6 ohonynt yn rhieni plant gydag anghenion ychwanegol. Fe soniodd pawb ohonynt am y cymorth ychwanegol y byddai eu plant eu hangen nid yn unig ar gyfer gofal plant, ond yr angen am oriau gweithwyr cefnogi, seibiant gwyliau a'r angen i'r plant gaffael sgiliau cymdeithasol.

Nid oes gennym fynediad at glybiau brecwast neu ar ôl ysgol gan mai ysgol AAA ydyw! Fe fydd fy merched angen cymorth gyda gweithgareddau cymdeithasol megis mynd i'r sinema neu fynd allan gyda ffrindiau gan nad ydynt yn gallu gwneud hynny hebdo i.

Roedd dwy o'r rhieni a ymatebodd ar absenoldeb mamolaeth felly fe fyddent angen Gofal Plant pan fyddent yn dychwelyd i'r gwaith.

Dywedodd rhieni eu bod yn rhagweld y byddent angen mwy o ofal yn ystod y gwyliau er fe soniodd un rhiant am yr angen am 'ddiwrnodau hwyliog' oedd yn addas i blentyn 9 oed - efallai y gellir ystyried hyn fel dewis arall i ofal plant.

Mynegodd rhieni eraill yr angen i ddefnyddio mwy o ofal plant wrth i'w plant fynd yn hŷn ac wrth i'w hanghenion newid.

Wrth i fy mhientyn ieuengaf dyfu, fe fydd fy ngofynion gofal yn newid i cyn ac ar ôl ysgol ac yn ystod amser gwyliau ond bydd yn cynyddu i ddechrau pan fyddaf yn mynd 'nôl i weithio'n llawn amser.

Fe soniodd rhieni hefyd y byddent yn defnyddio mwy o ofal plant petai'r ddarpariaeth gywir ar gael yn eu hardal.

Petai ein hysgol yn darparu clwb ar ôl ysgol, yna fe fyddwn i'n ei ddefnyddio

Ydych chi'n derbyn unrhyw gymorth arall tuag at gost gofal plant?

Fe ymatebodd 157 o rieni y cwestiwn hwn. Rhoddir yr ymatebion yn y tabl isod.

Help tuag at gostau gofal plant	Ymateb fesul canran	Cyfanswm yr ymatebion
Elfen Gofal Plant y Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol	31.21%	49
Talebau gofal plant/gofal plant heb dreth	47.77%	75
Grant gofal plant i fyfyrwyr	2.55%	4

Cyfraniadau Cyflogwyr	0.00%	0
Arall	21.56%	34
Wedi ateb		157
Wedi sgipio		224

Rhoddwyd dewis i rieni o flwch 'Arall' a gofynnwyd iddynt nodi beth maent yn ei dderbyn. O'r 34 rhiant a lenwodd y blwch yma, dywedodd 27 ohonynt nad ydynt yn derbyn unrhyw gymorth ariannol o gwbl. Roedd rhai o'r rhieni'n eithaf chwyn yn y modd y gwnaethant ateb hwn.

Dim, gwastraff amser llwyr i bobl sy'n gweithio, ond eto ni sydd ei angen.

Yn ôl rhiant arall na ddywedodd beth maen nhw'n ei dderbyn

Ydw, ond nid yw'n ddigon o gefnogaeth petawn i'n rhoi'r plant i mewn yn llawn amser

Dywedodd un rhiant nad ydynt yn derbyn unrhyw opsiynau cyllid a restrwyd ond fe wnaethant hefyd ddweud nad ydynt yn gwybod digon amdanynt. Dywedodd myfyriwr na fyddai'n gallu astudio heb grant Gofal Plant.

Grant Gofal Plant yw'r unig ffordd rydw i'n gallu mynd i'r Brifysgol, ni fyswn i'n gallu astudio na gweithio ar ôl oriau ysgol fel arall oherwydd fforddiadwyedd.

Dywedodd un rhiant eu bod yn derbyn cyllid gan Ymddiriedolaeth Plant Actorion (ACT). Yn ôl gwefan ACT...

Gall yr arian fod ar gyfer gofal plant...Mae grantiau am ddim ac nid oes angen eu talu yn ôl.

Roedd hi'n ddiddorol nodi na ddywedodd unrhyw riant eu bod yn derbyn y Cynnig Gofal Plant.

Ymatebwyr yn ôl grŵp ethnig

Mae'r tabl isod yn dangos yr ymatebwyr yn ôl ethnigrwydd.

Grŵp Ethnig	Ymateb fesul canran	Cyfanswm yr ymatebion
Gwyn		
Cymro/Cymraes/ Sais/Saesnes/ Albanwr/Albanes/ Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon/ Prydeinig	95.98%	358
Gwyddelig	0.54%	2
Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	0.27%	1

Unrhyw gefndir Gwyn arall	3.22%	12
* (1) Latfiad (2); Groegwr; Rwmaniad; Pwyliad; Coptic; Slofaciad; Ewropeaidd		
Wedi ateb		373
Wedi sgipio		8
Grŵp Ethnigrwydd Cymysg/ Lluosog		
Gwyn a Du Caribiaidd	71.43%	5
Gwyn a Du Affricanaidd	0%	0
Gwyn ac Asiaidd	28.5%	2
Unrhyw gefndir Cymysg/Aml-ethnig arall	0%	0
Wedi ateb		7
Wedi sgipio		374
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig		
Indiaidd	50%	2
Pacistanaidd	0%	0
Bangladeshaid	0%	0
Tsieineaidd	25%	1
Unrhyw gefndir Asiaidd arall*(2)	25%	1
*(2) Ffilipiniad		
Wedi ateb		4
Wedi sgipio		277
Du/ Affricanaidd/ Caribiaidd/ Du Prydeinig		
Affricanaidd	50%	1
Caribiaidd	0%	0
Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribiaidd arall	50%	1
Wedi ateb		2
Wedi sgipio		379
Grwpiau Ethnig Eraill		
Arab	100%	1
Unrhyw gefndir ethnig arall, disgrifiwch:	0%	0
Wedi ateb		1
Wedi sgipio		380

7.2. Galw am Ofal Plant - Adborth gan Fudd-ddeiliaid

Nid oedd yna lawer i'w adrodd o'r arolygon i fudd-ddeiliaid am y lefel o alw am ofal plant.

Gofynnwyd i gyflogwyr pa welliannau y gellir eu gwneud i ofal plant i'w helpu i recriwtio a chadw staff. Roedd 67% o'r rhai a ymatebodd yn teimlo y byddai mwy o fathau penodol o ofal plant yn ddefnyddiol ac roedd 57% yn credu y byddai gofal plant mwy hyblyg a rhatach yn ddefnyddiol. Roedd 50% yn teimlo bod yna ddiffyg gofal plant yn eu hardal ac roedd 33% eisiau gweld mwy o ofal plant oedd yn darparu gofal plant y tu allan i oriau craidd. Roedd 25% eisiau gweld mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg/dwyieithog ac roedd 17% eisiau gofal plant o ansawdd. Roedd 8% yn credu fod yna angen am fwy o ofal plant i blant gydag anghenion ychwanegol neu anabledd.

Roedd pob cyflogwr yn ymwybodol mai problemau gyda gofal plant oedd y rheswm bod staff yn absennol o'r gwaith a dywedodd 83% mai problemau gofal plant oedd y rheswm bod staff yn hwyr i'r gwaith. Efallai mai dyma'r rheswm eu bod yn credu bod gofal plant hyblyg yn ystyriaeth bwysig.

Gofynnwyd i Benaethiaid os oeddent yn gwybod am y math o ddarparwyr gofal plant allai gasglu plant o'u hysgolion. Nid oedd yn syndod mai clybiau y tu allan i oriau ysgol oedd y brif ddarpariaeth oedd yn casglu plant o'r ysgol ond cafodd pob darpariaeth arall eu cynrychioli yn y data ar gyfer y rhan yma. Mae'n ymddangos felly bod amrywiaeth y ddarpariaeth sy'n casglu plant o ysgolion yn dda ar draws y sir.

Fel rhan o'r ymgynghoriad gyda darparwyr gofal plant, gofynnwyd iddynt a oedd ganddynt ddigon o leoedd i ateb y galw ar gyfer grwpiau oedran gwahanol. O'r rhai a ymatebodd i'r rhan yma, dim ond darparu ar gyfer grŵp oedran penodol oedd rhai megis lleoliadau Sesiynol, felly dim ond "Amherthnasol" y gallent ei nodi. Mae'n rhaid ystyried hyn tra'n edrych ar y data. Ond mae'n ymddangos mai'r duedd yw bod yna gyflenwad digonol i ateb y galw yn y blynyddoedd cynnar.

8. Rhwystrau i Ddarpariaeth Gofal Plant

Yn yr adran hon rhoddwyd ystyriaeth i'r ymgynghoriad gyda rhieni, gofawyr, plant, partneriaid a rhanddeiliaid. Er bod yr ymateb i rai holiaduron yn gyfyngedig mae'r sylwadau a wnaed yn ddefnyddiol.

Gellir gweld sylwadau ynghylch hygrychedd, fforddiadwyedd a hyblygrwydd gofal plant yn yr adrannau canlynol wrth iddynt effeithio ar grwpiau amrywiol.

Y prif rwystrau y gofynnwyd i randdeiliaid eu hystyried oedd:

- Diffyg darpariaeth gofal plant o safon
- Diffyg gwahanol fathau o ddarpariaeth gofal plant e.e. gwarchodwr plant / meithrinfeydd dydd
- Diffyg cyflenwad o ofal plant yn gyffredinol
- Diffyg gofal plant fforddiadwy
- Diffyg gofal plant hyblyg e.e. amseroedd agor hyblyg
- Gofal plant heb ei leoli mewn ardaloedd sy'n hygrych i deuluoedd yn eu hardal leol
- Diffyg gofal plant cyfrwng Cymraeg / dwyieithog
- Dim un o'r uchod
- Eraill – gofynnwyd i'r atebwyr am fanylion

8.1. Rhwystrau a brofwyd gan grwpiau targed penodol

Gofynnwyd i randdeiliaid wneud sylwadau ar y rhwystrau a allai wynebu grwpiau targed penodol. Dewisodd rhai ymatebwyr wneud sylwadau cyffredinol fel:

“Mae yna lawer o faterion.... Fodd bynnag, rwy'n teimlo bod yr ALI a Llywodraeth Cymru yn gwneud eu gorau i gefnogi'r sector yn enwedig yn ariannol, gan sicrhau bod llawer o grantiau ar gael.”

Dywedodd eraill fod problemau gyda “fforddiadwyedd” a “diffyg hyblygrwydd o ran talu am ddiwrnodau llawn a hyblygrwydd amseroedd.”

Yn gyffredinol cyfeiriodd yr adborth gan gyflogwyr at ddiffyg gofal plant hyblyg a chost isel gydag un cyflogwr yn nodi bod rhieni'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i ofal plant wrth ddychwelyd o gyfnod mamolaeth.

Prif thema'r arolwg i gyflogwyr oedd diffyg gofal plant hyblyg a bod cost uchel gofal plant ynghyd â chyflogau isel yn rhwystr i'r rhai sy'n dymuno mynd i mewn i'r gweithle:

“Cost ac argaeledd gofal plant”

“Mae gofal plant yn costio gormod/ cyflogau yn talu am ofal plant ond yna dim digon o arian yn weddill.”

“Mae costau gofal plant yn rhy uchel ac mae gofal plant dan contract yn achosi problem drwy pheidio â bod yn hyblyg.”

“Mae angen darpariaeth gwell yng nghefn gwlad, mwy o safleoedd gofal plant mewn ysgolion/ar ôl ysgol”

Dangosir detholiad o'r sylwadau gan randdeiliaid a rhieni ar y rhwystrau a wynebier gan grwpiau penodol yn yr adrannau isod. Mae'r adborth gan sefydliadau ambarél gofal plant CWLWM a'r themâu a'r materion a godwyd wedi'u cynnwys yn yr adrannau ar gyfer y gwahanol fathau o rieni. Mae adborth a barn rhieni hefyd i'w gweld yma ac fe'u cymerwyd o'r dadansoddiad llawn o'r Arolwg Rhieni yn Adran 7 o'r adroddiad hwn.

i. Rhieni sy'n gweithio

Arolwg Rhieni:

Y rhwystr a nodwyd fwyaf yn yr arolwg rhieni oedd cost gofal plant. Roedd rhai eisiau gweld Cynnig Gofal Plant Cymru yn cael ei ymestyn i blant iau. Dyma flas o'r sylwadau a dderbyniwyd:

Rydw i a fy mhartner yn gweithio'n llawn amser ac ni allaf fforddio'r Gofal Plant ar gyfer fy ieuengaf. £1050 y mis 4 diwrnod yr wythnos. Ni allaf fforddio hyn ar fy nghyflog ond mae'n rhaid i mi dalu £50.20 y dydd o hyd. Nid wyf i na fy mhartner yn gallu fforddio gollwng oriau o dâl ar gyfer gofal plant fy merched ac nid oes gennym hawl i help heblaw am y taliadau di-dreth sy'n dal i gostio £840 y mis i ni. Mae hyn yn fwy na'n taliad morgais.

Os byddwn yn rhoi'r 2 iau mewn gofal plant 5 diwrnod yr wythnos mae'n golygu y byddai hanner ein hincwm wedi mynd. Byddai cael gofal plant dan 3 oed a ariennir gan y llywodraeth yn helpu pobl i fynd i weithio.

Mae gofal plant yn llawer rhy ddrud, mae teuluoedd sy'n gweithio yn cael eu cosbi. Rydw i'n mynd i weithio i dalu am ofal plant.

Roedd cost clwb ar ôl ysgol mor uchel fel bod yn rhaid i mi wneud trefniadau eraill.

Mae gen i efeilliaid a byddai eu rhoi mewn gofal meithrinfa amser llawn fel y gallwn ddychwelyd i'r gwaith yn costio tua £30k y flwyddyn. Sut mae hynny hyd yn oed yn bosibl? Byddai'n fwy na blwyddyn o gyflog. Yn ogystal â gofal ar ôl ysgol i fy hynaf. Nid yw plant/rhieni genedigaeith luosog byth yn cael eu hystyried yn yr achosion hyn.

Nid wyf yn teimlo y bydd yr arolwg hwn yn newid sefyllfa ariannol fy nheulu a byddwn yn parhau i weithio'n llawn amser a thalu mwy am ofal plant fy merched nag yr ydym yn gwneud ein taliadau morgais nes ei bod yn 3 oed ac yn dechrau Addysg Gynnar.

Fe nodwyd rhieni fod diffyg hyblygrwydd gofal plant yn enwedig oherwydd diffyg darpariaeth yn ystod gwyliau i blant hŷn. Roedd hefyd yn amlwg y byddai'r rhai a oedd yn gweithio oriau annodweddiadol yn cael trafferth dod o hyd i ofal plant.

Gofynnwyd i rieni beth oedd effaith Covid-19 arnynt. Roedd y rhai a oedd yn gweithio gartref yn ystod y pandemig wedi cael trafferth gweithio tra hefyd yn ceisio cartrefu plant ysgol.

O'r **darparwyr gofal plant** a atebodd maent wedi graddio'r ddarpariaeth gofal plant ar gyfer rhieni sy'n gweithio fel a ganlyn: 63% Da, 26% yn Boddhaol, 11% Ddim yn gwybod a 0% Gwael.

Teimlodd **penaethiaid** bod "Diffyg darpariaeth gofal plant arbenigol neu gynhwysol am gost fforddiadwy" hefyd "Byddai cefnogaeth ariannol i sefydlu Clybiau ar ôl Ysgol yn help mawr i'r rhieni sy'n gweithio".

Sylwadau sefydliadau ambarél gofal plant CWLWM ar y rhwystrau a wynebir gan rieni sy'n gweithio.

Cafwyd awgrym y dylid ymestyn Cynnig Gofal Plant Cymru (CGPC) i grŵp oedran ehangach er mwyn osgoi tlodi mewn gwaith. Croesawyd y Cynllun Gofal Plant Di-dreth ond teimlwyd bod angen ei hyrwyddo'n well. Teimlwyd hefyd bod hyrwyddo CGPC yn allweddol i helpu rhieni sy'n gweithio a bod gofal cofleidol ar safleoedd ysgol yn fwy defnyddiol i rieni sy'n gweithio gan leihau'r angen iddynt godi a gollwng o fwy nag un lleoliad os oes ganddynt fwy nag un plentyn. Yn dilyn Covid-19 dywedwyd y byddai mwy o gefnogaeth cynaliadwy i ddarparwyr gofal plant er mwyn sicrhau nad yw cynnydd mewn ffioedd er enghraifft yn effeithio'n negyddol ar deuluoedd sy'n gweithio.

Dywedodd un "Er mwyn parhau i alluogi teuluoedd i fod yn economaidd weithgar, mae angen sicrhau bod digon o ofal plant fforddiadwy o safon ym mhob cymuned sydd angen. Mae pob cymuned yn wahanol, ac mae dewis o ddarpariaeth gofal plant sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn y cymunedau hyn yn cefnogi cydlyniant cymunedol (math o wasanaeth, math o iaith, math o reolaeth)."

Amlygwyd ardaloedd gwledig fel maes anodd i deuluoedd sy'n gweithio lle'r oedd llai o ddewis o ofal plant yn ôl math, iaith ac oriau agor. Gall hygyrchedd a chost gofal yn ystod gwyliau ysgol yn arbennig fod yn her i rieni/gofalwyr sy'n gweithio.

Dywedodd PACEY Cymru y gall Gwarchodwyr Plant roi hyblygrwydd i rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol, shifftiau, neu hyd yn oed ddarparu gofal dros nos. Gall gwarchodwyr plant hefyd ofalu am blant o enedigaeth hyd at 14 oed (neu 16 os oes gan blant anghenion dysgu ychwanegol). Hefyd tynnodd PACEY Cymru sylw at y ffaith y gall nanis sy'n gweithredu o dan y Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant yn y Cartref fod yn opsiwn i gefnogi rhai teuluoedd sy'n gweithio gan y gall rhieni wedyn gael mynediad i ofal plant Di-dreth.

ii. Rhieni sy'n chwilio am gyfleoedd gwaith neu hyfforddiant

Holiadur rhieni: Gofynnwyd i'r rhieni a oeddent yn canfod bod gofal plant yn rhwysr i gael mynediad at gyflogaeth neu hyfforddiant. Mae'r tabl isod yn dangos sut y gwnaethant ateb y cwestiwn hwn.

Mae gofal plant yn rhwysr i mi gael mynediad at gyflogaeth neu hyfforddiant	Canran ymateb	Cyfanswm Ymateb
Cytuno'n gryf	22.9%	86
Tueddu i gytuno	22.7%	85
Tueddu i anghytuno	14.1%	53
Anghytuno'n gryf	14.1%	53
Ddim yn berthnasol	26.1%	98

Atebwyd	375
---------	-----

Ymddengys mai'r prif rwystrau i rieni sy'n chwilio am waith neu hyfforddiant yw cost y gofal plant, lleoliad, amseroedd gofal plant a gofal plant yn ystod y gwyliau. Mewn rhai achosion roedd rhieni'n wynebu mwy nag un o'r rhwystrau hyn. Dywedodd myfyriwr na fyddent yn gallu astudio heb grant Gofal Plant. Soniodd un teulu hefyd am y ffaith mae bod yn fyfyrwr yn rhwystr i gael mynediad at y Cynnig Gofal Plant.

Cefnogir hyn gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy a adroddodd mai'r rhwystr mwyaf i lawer o rieni yn y categori hwn yw nad yw myfyrwyr a'r rhai mewn hyfforddiant amser llawn yn gymwys ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru. Gall llawer o rieni sy'n cael bwrsariaeth y GIG er enghraifft hawlio costau gofal plant naill ai drwy'r fwrsariaeth neu drwy eu Credyd Cynhwysol ond yna maent yn canfod eu bod yn cael ei ailasesu gan olygu eu bod yn teimlo'n waeth eu byd na phan ddechreuon nhw hyfforddiant.

Roedd y **darparwyr gofal plant** a ymatebodd yn graddio'r ddarpariaeth gofal plant ar gyfer rhieni sy'n chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddi fel a ganlyn: 41% Da, 37% Boddhaol, Gwael 11% ac 11% Ddim yn gwybod.

Roedd adborth **pennaethiaid** yn cydnabod mai cost oedd y prif rwystr i'r grŵp hwn. Dywedodd un pennaeth "Diffyg darpariaeth gofal plant arbenigol neu gynhwysol am gost fforddiadwy."

Yr adborth gan **gyflogwyr** lleol ar y rhwystrau a wynebwyd ganddynt wrth geisio recriwtio staff oedd y diffyg gofal plant hyblyg a'r math o ofal plant.

Dyma'r sylwadau gan sefydliadau ambarél gofal plant CWLWM ar y rhwystrau a wynebir gan rieni sy'n chwilio am waith neu hyfforddiant:
 "Archwiliad (gan LI.C.) i ehangu cynlluniau cymorth ariannol presennol o ran cymhwyster i gynnwys rhieni/gofalwyr sy'n chwilio am waith. Gall costau gofal plant oedran ysgol barhau i fod yn rhwystr i rieni/gofalwyr gynyddu oriau gwaith / symud ymlaen mewn gyrfaedd / dechrau cyflogaeth."
 "Darparu cymorth ariannol gyda chostau gofal plant am gyfnod cychwynnol pan fydd rhiant yn dechrau cyflogaeth."
 "...gweithio gyda phartneriaid i greu diddordeb a chynyddu recriwtio i ddod yn warchodwr plant, sydd nid yn unig yn darparu opsiynau gofal plant ehangach i deuluoedd yn eu hardal leol ond yn cefnogi pobl yn ôl i waith".

iii. Cartrefi di-waith

Arolwg rhieni:

Dywedodd rhai ymatebwyr nad oeddent yn dymuno mynd i fyd gwaith ond yn hytrach fod yn rhieni sy'n aros gartref. Cafwyd sawl sylw ynglŷn â pheidio ag edrych i ddychwelyd i'r gwaith oherwydd cost gofal plant. Dywedwyd hyd yn oed pe baent yn derbyn cyllid Dechrau'n Deg neu gyllid Addysg Gynnar ni fyddai hyn yn talu am ddigon o oriau o ofal plant i'w galluogi i weithio. Nid oedd rhai yn sylweddoli y byddai ganddynt hawl i gyllid Addysg Gynnar er eu bod yn ddi-waith.

Roedd yn amlwg o'r arolwg Prifathrawon eu bod yn teimlo na allai llawer o deuluoedd yn y categori hwn gael mynediad at ofal plant fforddiadwy. "Diffyg darpariaeth gofal plant cynhwysol arbenigol am gost fforddiadwy".

Dyma'r sylwadau gan sefydliadau ambarél gofal plant CWLWM ar y rhwystrau y mae rhieni di-waith yn eu hwynebu:

Isod gwelir sylwadau ar fanteision i blant o fynychu gofal plant er mwyn cynorthwyo eu datblygiad.

“Sicrhau bod cyfathrebu effeithiol o'r holl gymorth ariannol sydd ar gael, yn arbennig ynghylch Dechrau'n Deg”

“Mae angen ddigon o grantiau er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gallu manteisio ar ofal plant. Mae tystiolaeth yn dangos y buddion i'r plentyn o fod yn mynychu lleoliad gofal plant felly mae angen sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle beth bynnag yw statws y rhiant/rhieni o ran Hyfforddiant a gwaith. Dylai gofal plant a gofal plant cyfrwng Cymraeg fod ar gael i bob plentyn yng Nghonwy ac felly hefyd y cynnig gofal plant.”

iv. Teuluoedd incwm isel

Arolwg rhieni: Roedd yn anodd amlygu pa sylwadau a ddaeth gan deuluoedd incwm isel. Fodd bynnag, y rhwystr llethol i'r rhan fwyaf o deuluoedd waeth beth fo'u hincwm oedd cost gofal plant. (Gweler yr adran teuluoedd sy'n gweithio). Hefyd dywedodd un teulu oherwydd nad oeddent yn gallu gyrru car golygai hyn nad oedd dewis o ofal plant yn agored iddynt.

Teimlai penaethiaid fod diffyg gofal plant fforddiadwy i deuluoedd incwm isel.

Dyma'r sylwadau gan sefydliadau ambarél gofal plant CWLWM ar y rhwystrau y mae teuluoedd incwm isel yn eu hwynebu:

Yn aml mae gweithwyr ar gyflog isel yn gweithio patrymau oriau annodweddiadol, ac felly gall diffyg argaeledd gofal plant cofrestredig yn ystod yr oriau hyn yn ei chadw yn yr un sefyllfa. Mae angen gwneud gwaith i ddatblygu, cynnal a hyrwyddo darpariaeth gofal plant sy'n cynnig oriau annodweddiadol. Ymchwilio i ehangu cynlluniau cymorth ariannol presennol o ran cymhwysedd ac ystod oedran i sicrhau y gellir cael effaith hirdymor ar y nifer fwyaf o deuluoedd â phosibl (gweler y nodiadau ychwanegol isod ar y pwynt hwn). Mae rhai cynlluniau presennol yn dibynnu ar feini prawf cymhwysedd penodol (e.e. Dechrau'n Deg sy'n defnyddio cod post ar gyfer cymhwysedd) sydd felly'n eithrio rhai teuluoedd incwm isel a fyddai'n elwa o fynediad at gyfleoedd o'r fath”)

Fe wnaethant amlygu'r angen i “Sicrhau bod teuluoedd yn cael eu hysbysu'n llawn am y mathau o ofal plant a'r dewisiadau sydd ar gael iddynt a chyfathrebu effeithiol am y cymorth ariannol sydd ar gael.”

v. Teuluoedd rhiant sengl

Arolwg rhieni: Dywedodd 70 (18.37%) o'r rhieni a gwblhaodd yr arolwg mai nhw yn unig sy'n gyfrifol am eu plant. Y prif rwystr i'r rhieni hyn rhag cael mynediad i ofal plant oedd y gost. Roedd hon yn thema a gododd dro ar ôl tro. Dywedodd rhiant unigol arall nad oeddent yn gallu symud ymlaen â'u gyrfaoedd oherwydd cost gofal plant.

Roedd adborth penaethiaid yn cefnogi'r farn bod diffyg gofal plant fforddiadwy.

Teimlai cyflogwyr fod dod o hyd i ofal plant fforddiadwy yn achosi straen i rieni sengl. Dywedasant hefyd "Mae angen gwneud mwy i helpu i gadw rhieni a rhieni sengl mewn cyflogaeth ag incwm isel."

Fel y nodwyd uchod mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy wedi canfod nad yw rhieni sy'n fyfyrwyr yn gallu cael mynediad at Gynnig Gofal Plant Cymru. Mae hyn yn arbennig o anodd i'r rheini sy'n sengl. Mae llawer o deuluoedd eraill lle mae un rhiant yn fyfyrwr yn cymryd gwaith cyflogedig yn ychwanegol at eu hastudiaethau a all olygu eu bod yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Mae'n anoddach i rieni unigol gyflawni hyn oherwydd patrymau sifftiau a diffyg gofal plant oriau anghymdeithasol.

Roedd y sylwadau gan sefydliadau ambarél gofal plant CWLWM ar y rhwystrau a wynebier gan rieni unigol yn debyg i'r rhai ar gyfer grwpiau rhieni eraill fel uchod.

vi. Teuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig

Arolwg rhieni: O ganlyniadau'r arolwg nid oedd unrhyw rwystrau cyffredin na chyson i gyflogaeth yn amlwg ar gyfer rhieni o leiafrifoedd ethnig. Nid oedd yn glir a oedd unrhyw rwystrau oherwydd ethnigrwydd y teulu neu a oeddent yn rhwystrau a oedd yn gyffredin i unrhyw riant.

Er enghraifft, dywedodd rhiant sengl o gefndir Gwyn a Du Caribiaidd nad oedd yn cytuno mewn gwirionedd â'r datganiad bod gofal plant yn darparu ar gyfer anghenion ei phlentyn a chytunodd hefyd â'r datganiad bod gofal plant yn ei rhwystro rhag cael gwaith. Fodd bynnag, dywedodd y rhiant hwn hefyd fod gan ei mab ASD – felly nid yw'n glir a oedd yn siarad am anghenion ethnigrwydd ei mab neu ei anghenion ychwanegol oherwydd Awtistiaeth.

Dywedodd un rhiant o gefndir Affricanaidd nad oedd hi'n gymwys i gael cyllid gan nad oedd ganddi Fisa Haen 2 (a elwir bellach yn fisa Gweithwyr Medrus). Fodd bynnag, roedd y teulu hwn yn y grŵp incwm uchaf ac yn hapus iawn gyda phob agwedd ar ofal plant. Felly nid oedd yn ymddangos bod y diffyg cyllid hwn yn rhwystr iddi gael mynediad at ofal plant neu gyflogaeth.

Nid oedd unrhyw gasgliadau clir ar gyfer y math hwn o deulu o'r holiaduron penaethiaid neu ddarparwyr.

Mae'r sylwadau gan sefydliadau ambarél gofal plant CWLWM ar y rhwystrau a wynebier gan deuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig fel a ganlyn:

"Sicrhau cyfathrebu effeithiol mewn gwahanol ieithoedd ac ar draws gwahanol gymunedau." Ni roddwyd unrhyw fanylion ynghylch sut y gellid cyflawni hyn. Fodd bynnag, o'r adran gyflenwad o'r adroddiad hwn, mae rhai darparwyr ar draws y sir sy'n darparu ar gyfer ieithoedd heblaw'r Gymraeg neu'r

Saesneg i'w gweld yn y tabl isod. Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy yn cynorthwyo darparwyr gofal plant i ddatgan y sgiliau hyn ar eu cofnod ar safle gwe Dewis Cymru (<https://www.dewis.cymru>) fel y gellir hysbysu rhieni sy'n ceisio wybodaeth o'r fath.

Cantoneg / Tsiec / Pwyleg	1 darparwr Gofal dydd Llawn yn ward Marl (Ardal 1 Gorllewin)
Ffrangeg / Pwyleg	1 gofalwr ward Tudno (Ardal 2 Gogledd)
Iaith Arwyddion	1 darpariaeth Sesiynol yn ward Eirias (Ardal 3 Canolog)
Sbaeneg	1 darparwr Gofal dydd Llawn yn ward Penrhyn (Ardal 2 Gogledd)

Nododd Mudiad Meithrin: Mae pob cylch Meithrin yn estyn croeso i blant, does dim gwahaniaeth beth yw eu cefndir ethnig. Mae'r cylchoedd i gyd, a'r sector gofal plant yn ei gyfarwydd yn gynhwysol iawn ac yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gynhwysol. O ran y sector Gymraeg mae angen sicrhau bod ddigon o wybodaeth yn cael ei rannu a theuluoedd o gefndiroedd ethnig gwahanol fel eu bod yn sylweddoli fod gofal ac Addysg Gymraeg ar gael i bawb. Mae hyn yn golygu fod gweithwyr proffesiynol fel ymwelwyr iechyd a bydwagedd yn ymwybodol o fanteision gofal ac Addysg Gymraeg.

vii. Teuluoedd â phlant ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau

Arolwg rhieni: Mae adborth o'r arolwg rhieni a rhanddeiliaid mewn perthynas â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd yn dangos y gall hwn fod yn faes heriol i deuluoedd a darparwyr gofal plant.

Dywedodd 39 o'r rhieni a ymatebodd fod gan eu plant naill ai anabledd neu salwch tymor hir. Dywedodd 59 o rieni fod gan eu plentyn / plant anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol. Dywedodd 17 o rieni mai'r rheswm nad oeddent yn defnyddio gofal plant oedd nad oedd unrhyw ofal plant a allai ddarparu ar gyfer anghenion penodol eu plentyn. Mynegodd llawer eu pryderon ynghylch gallu lleoliadau gofal plant i wneud hynny ond pan ofynnwyd iddynt ar sut y gellid gwella pethau dim ond dau riant a wnaeth sylw.

Er bod pob darparwr gofal plant yn agored i ddarparu ar gyfer anghenion plant ag anghenion ychwanegol neu anabledd, efallai cyfyngir eu gallu i wneud hynny oherwydd eu gallu neu brofiad addas. Mae'n debygol y bydd pryderon rhieni sy'n digwydd byw mewn ardal Dechrau'n Deg yn cael sylw yn gynharach oherwydd y cymorth ychwanegol sydd ar gael iddynt sef ydynt yn rhieni sy'n gweithio neu ddim.

O'r arolwg penaethiaid roedd yn ymddangos mai'r prif rwystr a wynebir gan deuluoedd â phlant ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau oedd diffyg gwahanol fathau o ddarpariaeth gofal plant a diffyg gofal plant fforddiadwy. Sgoriodd diffyg gofal plant hyblyg neu o safon uchel yma hefyd.

Gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant a oeddent yn bwriadu gwella'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau o fewn y 18 mis nesaf. Atebodd 56% o'r rhai a ymatebodd Na, atebodd 32% Ydw a dywedodd 12% nad oeddent yn gwybod.

Dyma'r sylwadau gan sefydliadau ambarél gofal plant CWLWM ar y rhwystrau a wynebwr gan deuluoedd plant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau:

- “Sicrhau bod cyllid ar gael a chymorth i ddatblygu a chynnal darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, yn ogystal â chyllid a chymorth i sicrhau bod yr holl ddarpariaeth gofal plant yn gallu bod yn gynhwysol a hygyrch (e.e. cyllid ar gyfer cymorth un i un / hyfforddiant ychwanegol ar gyfer staff).”
- “Sicrhau bod teuluoedd yn cael eu hysbysu'n llawn am eu dewisiadau. Dealltwriaeth lawn a hyfforddiant yn y systemau ADY newydd a'u gofynion ar ddarparwyr.”
- Mae'r sector gofal plant yn gynhwysol ac yn estyn croeso i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau. Yr her fwyaf all fod i gylchoedd ydi recriwtio staff 1:1 lle mae plentyn angen sylw arbennig. Mae angen sicrhau bod ddigon o grantiau ar gael i recriwtio staff. Mae angen hefyd sicrhau bod mynediad at Adnoddau arbenigol er mwyn cwrdd â gofynion pob plentyn yn unigol.”
- “Mae PACEY Cymru o'r farn y gallai Nanis wedi ei cymeradwyo fod yn opsiwn i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio, yn arbennig ar gyfer y teuluoedd hynny â phlant ag anableddau, gan y byddent yn gofalu am blant yn eu cartref eu hunain, a gall rhieni barhau i gael mynediad at yr elfen Di-dreth a talebau gofal plant cyflogwyr.”

viii. Teuluoedd Cymraeg eu hiaith

Arolwg rhieni: Gofynnwyd i rieni a oeddent yn gallu deall, siarad, darllen a / neu ysgrifennu Cymraeg. Atebodd 245 o rieni'r cwestiwn hwn. O'r rheini dywedodd 226 (92.4%) eu bod yn deall Cymraeg. Dywedodd 152 (62.04%) eu bod yn gallu siarad a darllen Cymraeg a 126 (51.43%) yn dweud eu bod yn gallu ysgrifennu yn y Gymraeg.

Gofynnwyd i rieni a oeddent yn defnyddio gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg. O'r 218 o rieni a atebodd y cwestiwn hwn dywedodd 72 (33.03%) 'ydwr' a dywedodd 129 (59.17%) nad oeddent. Dywedodd 17 (7.08%) o rieni nad oeddent yn gwybod neu eu bod yn ansicr.

Gofynnwyd i'r rhieni a ddywedodd nad oeddent yn defnyddio Gofal Plant cyfrwng Cymraeg i roi eu rhesymau pam. Atebodd 52 o rieni'r cwestiwn hwn gyda 76 o ymatebion yn dilyn. Y tri phrif reswm dros beidio â defnyddio Gofal Plant cyfrwng Cymraeg oedd argaeledd 35 (67.31%); gallu ieithyddol staff 15 (28.5%) ac atebodd 11 (21.15%). Mae'r tabl isod yn dangos y canlyniadau llawn.

Pa broblemau ydych chi'n eu hwynebu wrth gael mynediad at Ofal Plant cyfrwng Cymraeg?	Canran Ymateb	Cyfanswm Ymatebion
Pellter	17.31%	9
Argaeledd	67.31%	35
Ansawdd gofal	3.85%	2
Gallu ieithyddol staff	28.85%	15
Cost	21.15%	11

Dim digon o oriau gofal	7.69%	4
Atebwyd		52
Hepgor		329

Nid oedd rhwystrau iaith yn nodwedd fawr yn yr ymatebion o'r arolwg rhieni. Ni soniwyd yn helaeth am allu ieithyddol y staff gan rieni ond roedd argaeledd yn cael ei gyfleu fel y prif reswm pam nad oedd teuluoedd cyfrwng Cymraeg yn defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Teimlai rhai rhieni, er y gallai fod modd cael mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg, nad oedd o reidrwydd yn gyfleus iddynt wneud hynny. Er enghraifft, os oedd ganddynt fwy nag un plentyn neu os oedd angen gofal cofleidol arnynt.

Dywedodd un rhiant y gallai gofal plant cyfrwng Cymraeg fod yn ddrud pan nad oedd dewis arall neu ddim cystadleuaeth.

Gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant nodi a oedd ganddynt gynlluniau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu lleoliad dros y 18 mis nesaf. O'r rhai atebodd y cwestiwn dywedodd 48% na, dywedodd 40% ie a dywedodd 12% ddim yn gwybod. (Sylwer – efallai bod rhai o'r rhain eisoes yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnwyd i leoliadau hefyd a oeddent yn bwriadu cynnal y defnydd o'r Gymraeg yn eu lleoliadau dros y 18 mis nesaf. Dywedodd 83% o'r ymatebwyr eu bod yn fwriadau cynnal y defnydd presennol a dywedodd 17% na.

Dyma'r sylwadau gan sefydliadau ambarél gofal plant CWLWM ar y rhwystrau a wynebier gan deuluoedd Cymraeg eu hiaith:

“i gefnogi nod Llywodraeth Cymru - Cymraeg 2050 - mae hwn yn faes sydd angen twf”

“Sicrhau cyfathrebu effeithiol am leoliadau cyfrwng Cymraeg yr ardal a manteision defnyddio lleoliadau cyfrwng Cymraeg.”

“Angen mynediad at ofal ac Addysg blyneddodd Cymraeg o fewn pellter rhesymol i bob plentyn yng Nghonwy. Mae rhai cylchoedd yn brin o leodd oherwydd bod dal cyfyngiadau covid mewn lle ac felly'r plant ddim yn cael cyfle i fynychu mor aml ac yr hoffent.

Mae angen ddigon o grantiau er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gallu manteisio ar ofal plant. Mae tystiolaeth yn dangos y buddion i'r plentyn o fod yn mynychu lleoliad gofal plant felly mae angen sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle beth bynnag yw statws y rhiant/rhieni o ran Hyfforddiant a gwaith. Dylai gofal plant a gofal plant cyfrwng Cymraeg fod ar gael i bob plentyn yng Nghonwy ac felly hefyd y cynnig gofal plant.”

Gweithio gydag “asiantaethau eraill i greu diddordeb a chynyddu recriwtio i ddod yn warchodwr plant o fewn y gymuned Gymraeg/dysgwyr, gyda'r nod o ddarparu opsiynau gofal plant ehangach i deuluoedd cyfrwng Cymraeg yn eu hardal leol. Mae PACEY Cymru hefyd yn gweithio i gefnogi gwarchodwyr plant cofrestredig gyda datblygiad y Gymraeg, gan gynnwys mynediad i hyfforddiant iaith Gymraeg Camau ar gyfer y sector gofal plant.”

9. Traws Sirol

Galw presennol ac yn y dyfodol am ofal plant yng Nghonwy gan rieni sy'n byw y tu allan i ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Gofynnwyd i bob darparwr gofal plant ateb y canlynol:

Fel darparwr gofal plant, a fydddech cystal â dweud y canlynol wrthym:

- 1) Sawl plentyn ydych yn gofalu amdanynt sy'n byw tu allan i ardal Awdurdod Bwrdeistref Sirol Conwy?
- 2) Oes gennych blentyn/plant ar eich rhestr aros sy'n byw tu allan i ardal Awdurdod Bwrdeistref Sirol Conwy?

Ymatebodd 52.

Nid oedd gan 39 o'r rhai a ymatebodd unrhyw blant yn mynychu neu ar restr aros a oedd yn byw y tu allan i ardal Sir Conwy.

Roedd gan 13 o'r rhai a ymatebodd blant yn mynychu o'r tu allan i'r sir. Roedd 6 yn ddarparwyr gofal dydd llawn, 1 lleoliad sesiynol a 6 gwarchodwr plant:

Ardal 1 Gorllewin

1 Meithrinfa Ddydd Llawn - 12 yn mynychu ac 8 sydd wedi archebu lle ar gyfer y dyfodol.

1 darparwr Sesiynol - 1 yn mynychu o'r tu allan i'r ardal

Ardal 3 Canolog

1 Meithrinfa Ddydd Llawn – 1 yn mynychu

1 lleoliad Gofal Dydd Llawn (cofleidiol) - 2 yn mynychu

1 gwarchodwr plant – 1 yn mynychu

Ardal 4 Dwyrain

2 Feithrinfa Ddydd Llawn – un gyda 30 yn mynychu o siroedd eraill a'r llall gyda 65 yn mynychu a 10 ar restr aros sydd o'r tu allan i'r sir.

1 lleoliad Gofal Dydd Llawn (cofleidiol) – 1 yn mynychu a 2 ar y rhestr aros ar gyfer Medi 2022

4 o warchodwyr plant gyda chyfanswm o 7 o blant yn mynychu a 2 arall yn mynychu ym mis Awst 2022.

Ardal 5 De

1 gwarchodwr plant – 1 yn mynychu

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru wedi galluogi rhieni i dderbyn cyllid ar gyfer plant 3-4 oed o fewn Awdurdodau Lleol eraill. O dan y cynllun mae 1 darparwr gofal plant yng Ngwynedd wedi cofrestru ar hyn o bryd i ddarparu gofal plant i blant sy'n byw yng Nghonwy. 36 darparwr gofal plant yn Sir Ddinbych a 2 ddarparwr yn Ynys Môn.

Roedd yr ymatebion i'r arolwg rhieni ar yr adran hon yn isel ac ni ellir eu defnyddio i ddod i gasgliad pendant ynghylch y defnydd o ofal plant traws sirol.

Gweithio trawsffiniol:

Mae Tîm Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar Conwy a Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy yn gweithio ar y cyd â holl Dimau Gofal Plant Awdurdodau Lleol a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Gogledd Cymru.

Mae Tîm Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Conwy yn gweithio mewn partneriaeth â Gwynedd ar weinyddu a rheoli Cynnig Gofal Plant Cymru.

Mae Conwy hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda Sir Ddinbych yn enwedig gyda chyllid grantiau i sicrhau bod gan ddarparwyr gofal plant trawsffiniol feini prawf cyson wrth wneud cais am gyllid. Gall hyn leihau'r llwyth gwaith i ddarparwyr trwy beidio â gorfod dilyn prosesau ymgeisio gwahanol o un sir i'r llall.

10: COVID – 19

Mae pandemig Covid-19 wedi bod yn amser heriol i ddarparwyr gofal plant ac ar gyfer y Tîm Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghonwy fel y mae wedi bod i lawer o sectorau eraill hefyd.

Mae'r pandemig wedi dangos gwerth gofal plant mewn amseroedd o argyfwng cenedlaethol. Heb barodrwydd lleoliadau i ddarparu gofal i staff allweddol rheng flaen ni fyddai gwasanaethau a busnesau wedi gallu ymateb i anghenion y gymuned yn ystod y pandemig.

Penderfynodd rhai lleoliadau i gau. Roedd hyn yn sgil y cyngor a gafwyd gan y llywodraeth yn y lle cyntaf i holl fusnesau gau. Fodd bynnag daeth yn amlwg yn sydyn iawn fod gofal plant yn hanfodol i gefnogi gwasanaethau rheng flaen lle'r oedd eu gweithwyr angen gofal plant. Adroddodd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd fod yna lawer o ddryswch ar y pryd.

Cau:

Roedd lleoliadau yn cau am amryw o resymau gan gynnwys:

- Staff oedd angen gwarchod eu hunain
- Ar gyngor y sefydliadau ymbarél a deimlai y byddai lleoliadau yn fwy cynaliadwy pe bai staff i gyd ar ffyrlo
- Lleoliadau ar rai safleoedd ysgol neu neuaddau cymunedol heb gael caniatâd i ail-agor
- Diffyg eglurder ar ba rieni y dylid eu gweld fel gweithwyr allweddol o'r rhestr a gyflenwyd gan Lywodraeth Cymru
- Diffyg argaeledd o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar ddechrau'r pandemig
- Cau oherwydd plant a staff wedi profi'n positif neu gyda symptomau

Dyma'r wybodaeth sydd wedi cael ei gymryd o'r datganiad (Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth) ynglŷn â'r nifer a pha mor aml y caeodd lleoliadau yn y sector gofal plant hyd at y dyddiad pan gafodd y datganiad ei wneud ym Mehefin 2021. Mae rhai lleoliadau wedi cael cyfnodau o gau ers y dyddiad hwn oherwydd achosion positif o Covid-19. Dydi pob lleoliad heb ymateb i'r adran hwn o'r datganiad ac mae wedi bod yn amhosib cysylltu â'r 2 Nani yng Nghonwy fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Lleoliadau gofal plant oedd wedi cau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

POB ARDAL	Cyfanswm o wasanaethau yn yr ardal	Nifer y gwasanaethau wnaeth gau ar unrhyw adeg oherwydd Covid 19	Nifer y lleoliadau wnaeth gau ar ddyddiad y datganiad oherwydd Covid 19	Cyfanswm o'r nifer y weithiau y gwnaeth wasanaethau gau dros dro oherwydd Covid 19	Cyfanswm o Ddyddiau Calendr y caewyd gwasanaethau dros dro oherwydd Covid 19
Gwarchodwyr Plant	58	39	6	49	5725

Gofal Dydd Llawn	43	36	3	53	4311
Sesiynol	25	21	1	37	3903
Clybiau Tu Allan i Ysgol	20	16	4	25	2941
Cyfanswm	146	112	14	164	16880

Lleoliadau wedi cau yn ôl ardal ddaearyddol:

Ardal 1 GORLLEWIN	Cyfanswm o wasanaethau yn yr ardal	Nifer y gwasanaethau wnaeth gau ar unrhyw adeg oherwydd Covid 19	Nifer y lleoliadau wnaeth gau ar ddyddiad y datganiad oherwydd Covid 19	Cyfanswm o'r nifer y weithiau y gwnaeth wasanaethau gau dros dro oherwydd Covid 19	Cyfanswm o Ddyddiau Calendr y caewyd gwasanaethau dros dro oherwydd Covid 19
Gwarchodwyr Plant	11	9	3	16	1817
Gofal Dydd Llawn	8	6	0	8	601
Sesiynol	7	6	0	9	1176
Clybiau Tu Allan i Ysgol	7	5	2	7	875
Cyfanswm	33	26	5	40	4469

Ardal 2 GOGLEDD	Cyfanswm o wasanaethau yn yr ardal	Nifer y gwasanaethau wnaeth gau ar unrhyw adeg oherwydd Covid 19	Nifer y lleoliadau wnaeth gau ar ddyddiad y datganiad oherwydd Covid 19	Cyfanswm o'r nifer y weithiau y gwnaeth wasanaethau gau dros dro oherwydd Covid 19	Cyfanswm o Ddyddiau Calendr y caewyd gwasanaethau dros dro oherwydd Covid 19
Gwarchodwyr Plant	4	1	1	1	162
Gofal Dydd Llawn	11	9	2	12	1186
Sesiynol	3	3	1	8	686
Clybiau Tu Allan i Ysgol	4	3	0	6	713
Cyfanswm	22	16	4	27	2747

Ardal 3 CANOLOG	Cyfanswm o wasanaethau yn yr ardal	Nifer y gwasanaethau wnaeth gau ar unrhyw adeg oherwydd Covid 19	Nifer y lleoliadau wnaeth gau ar ddyddiad y datganiad oherwydd Covid 19	Cyfanswm o'r nifer y weithiau y gwnaeth wasanaethau gau dros dro oherwydd Covid 19	Cyfanswm o Ddyddiau Calendr y caewyd gwasanaethau dros dro oherwydd Covid 19
Gwarchodwyr Plant	21	15	1	18	2005
Gofal Dydd Llawn	13	10	1	17	1189
Sesiynol	8	6	0	7	839
Clybiau Tu Allan i Ysgol	7	7	2	10	1112
Cyfanswm	49	38	4	52	5145

Ardal 4 DWYRAIN	Cyfanswm o wasanaethau yn yr ardal	Nifer y gwasanaethau wnaeth gau ar unrhyw adeg oherwydd Covid 19	Nifer y lleoliadau wnaeth gau ar ddyddiad y datganiad oherwydd Covid 19	Cyfanswm o'r nifer y weithiau y gwnaeth wasanaethau gau dros dro oherwydd Covid 19	Cyfanswm o Ddyddiau Calendr y caewyd gwasanaethau dros dro oherwydd Covid 19
Gwarchodwyr Plant	15	11	0	11	1024
Gofal Dydd Llawn	6	6	0	10	653
Sesiynol	1	1	0	2	308
Clybiau Tu Allan i Ysgol	1	0	0	0	0
Cyfanswm	23	18	0	23	1985

Ardal 5 DE	Cyfanswm o wasanaethau yn yr ardal	Nifer y gwasanaethau wnaeth gau ar unrhyw adeg oherwydd Covid 19	Nifer y lleoliadau wnaeth gau ar ddyddiad y datganiad oherwydd Covid 19	Cyfanswm o'r nifer y weithiau y gwnaeth wasanaethau gau dros dro oherwydd Covid 19	Cyfanswm o Ddyddiau Calendr y caewyd gwasanaethau dros dro oherwydd Covid 19
Gwarchodwyr Plant	7	3	1	3	717
Gofal Dydd Llawn	5	5	0	6	682
Sesiynol	6	5	0	11	894

Clybiau Tu Allan i Ysgol	1	1	0	2	241
Cyfanswm	19	14	1	22	2534

Gellir ei weld o'r data'r datganiad fod rhai lleoliadau wedi cau sawl gwaith hyd at ddyddiad y datganiad. Mae llawer o ddarparwyr yn cofnodi fod hyn wedi cael effaith ar eu cynaliadwyedd wrth symud ymlaen oherwydd colli enillion a lleihad mewn galw.

Mae llawer o glybiau tu allan i oriau ysgol yn arbennig wedi cofnodi lleihad mewn galw gan fod llawer o rieni yn gweithio gartref ac wedi dewis casglu eu plant o'r ysgol yn ystod y diwrnod gwaith yn hytrach na thalu am ofal ar ôl ysgol. Gweler yr adroddiad hwn [Adroddiad Cyflwr y Sector](#).

Er na wyddwn effaith llawn y pandemig eto mae'n ymddangos fod gostyngiad mewn galw am ofal plant yn gyffredinol. Gall hynny fod oherwydd ni all rhieni fforddio talu am ofal plant ar hyn o bryd.

Ni wyddwn beth yw effaith hirdymor pandemig Covid-19 eto ond mae'n amlwg mai'r rhai mwyaf diamddiffyn sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf. Ymysg y lleoliadau hynny a gaeodd, y lleoliadau Addysg Gynnar Sesiynol (llawer ar safleoedd ysgol) oedd y rhai a fu ar gau am y cyfnod hiraf.

Effaith pandemig Covid-19 ar hyfforddiant yn y sector gofal plant:

Mae adran o'r cwestiynau a ofynnwyd i ddarparwyr gofal plant yn y datganiad yn cyfeirio at bandemig Covid-19. O'r rheiny wnaeth ymateb i'r adran hwn mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

Oes yna effaith wedi bod ar hyfforddiant oherwydd COVID-19?	
Llai o Hyfforddiant	48
Mwy o Hyfforddiant	22
Na	7
Dim newid	69
Os llai o hyfforddiant ydi hynny oherwydd Mynediad Annigonol i TG?	
Amherthnasol	91
Na	40
Ydi	8

Cynigwyd hyfforddiant ychwanegol ar ddefnyddio Masgiau Falf Bag (gweler isod)

Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)

Nid oedd Cyfarpar Diogelu Personol ar gael yn nyddiau cynnar y pandemig ond fe drefnodd y Tîm Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant eu dosbarthu i leoliadau gofal plant cyn gynted ag oedd cyflenwad ar gael. O Fawrth 2020 i heddiw mae cyflenwadau rheolaidd o PPE a hylif diheintio yn cael eu cyflenwi i leoliadau.

O'r datganiad mae'r holl leoliadau ar wahân i 3 wedi dweud fod ganddyn nhw fynediad i ddigon o PPE trwy gydol y pandemig (2 gwarchodwyr plant yn Ardal 1 Gorllewin sy'n gwarchod efo'i gilydd, a 1 lleoliad gofal dydd llawn yn ward Crwst (Ardal 5 De). Dim ond y lleoliad yn Crwst a ddywedodd fod ganddyn nhw dal ddim digon o PPE. Ar ddyddiad yr ysgrifennwyd yr adroddiad hwn cafodd tri chyflenwad pellach o PPE eu dosbarthu.

Prynwyd Masgiau Falf Bag (BVM) mewn 3 maint a'u dosbarthu i'r holl leoliadau gofal plant yng Nghonwy i'w cynnwys yn y Pecynnau Cymorth Cyntaf. Mae masg falf bag (BVM) yn cael ei ddefnyddio i ddarparu awyru pwysedd positif i gleifion sydd wedi rhoi'r gorau i anadlu. Roedd angen y rhain am ei fod yn annoeth i ddefnyddio technegau dadebru ceg wrth geg draddodiadol oherwydd y risg o Covid -19. Cynigwyd hyfforddiant ar ddefnyddio BVMS hefyd.

Prawf Llif Unffordd (LFT)

Rhannwyd gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar argaeledd LFT gyda lleoliadau gofal plant yng Nghonwy. Er gwaethaf gwybodaeth anghyson i ddechrau daeth y system gyflenwi yn rhan sylfaenol o weithdrefnau ymateb Covid 19. Fe wnaeth yr holl leoliadau ar wahân i'r gwarchodwyr plant dderbyn eu pecynnau profi ar sail cyflenwi genedlaethol. Mae Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy wedi trefnu i gyflenwi cyflenwad gwerth 6 wythnos o becynnau profi LFT i warchodwyr plant ar ddau achlysur. Oherwydd ymdrech o ran cost a chyflenwi i drefnu hyn, gofynnwyd i warchodwyr plant archebu pecynnau profi eu hunain yn y ffordd arferol o borth ar-lein y llywodraeth o hynny ymlaen. Roedd hyn yn ymddangos i fod yn gweithio'n dda gan fod llawer o warchodwyr plant yn teimlo y dylai holl aelodau'r teulu gael eu profi hefyd ac roedd hi'n bosib iddynt archebu cyflenwadau fel ag y dymunent.

Ymgynghori â rhieni am Covid-19:

Mae dadansoddiad llawn o'r arolwg rhieni i'w weld yn Adran 7 o'r adroddiad hwn. Gofynnwyd i rieni a oedd problemau wedi codi ynghylch gofal plant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Atebodd 262 o rieni y cwestiwn hwn. O'r rhain, dywedodd 165 (62.98%) fod materion yn ymwneud â gofal plant wedi achosi problemau yn y gwaith; 71 (27.10%) ei fod wedi achosi iddynt fethu parhau i weithio; Dywedodd 78 (29.77%) eu bod wedi cael eu dal yn ôl o ddod o hyd i swydd a dywedodd 77 (23.66%) ei fod wedi eu dal yn ôl o chwilio am gyfleodd hyfforddiant.

Un o'r anawsterau a soniwyd amdanynt amlaf gan rieni oedd pa mor anodd oedd hi i weithio o gartref a gofalu am eu plant ar yr un pryd pan roedd darparwyr Gofal Plant ar gau oherwydd Covid-19 neu pan nad oedd rhieni yn cael/gallu talu am ofal plant.

“Mae wedi cael effaith gynyddol ar fy ngwaith ac rwyf wedi gorfod gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau i wneud oriau i fyny sydd wedyn yn lleihau amser teulu”

Fe ddywedodd rhieni fod angen i gyflogwyr fod yn fwy hyblyg gyda threfniadau gweithio i deuluoedd â phlant.

Dywedodd rhieni nad oeddent wedi gallu cymryd swyddi gwirfoddol i helpu eraill yn y gymuned. Dywedodd un rhiant y bu rhaid iddynt adael ei swydd a gweithio o gartref ar gyflog llawer is. Dywedodd eraill a oedd yn hunangyflogedig fod y cyfnod pan fu gofal plant ar gau oherwydd COVID wedi effeithio ar eu busnesau.

Ymgynghoriad gyda Sefydliadau Ambarél

Gofynnwyd i 5 aelod o gonsortium CWLWM i lenwi holiadur a oedd yn cynnwys adran ar effaith pandemig Covid -19 ar leoliadau gofal plant yng Nghonwy. Gofynnwyd y cwestiwn:

Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw broblemau sydd wedi codi yn y sector gofal plant yn arbennig o ganlyniad i bandemig Covid 19? Yr opsiynau a ddarparwyd oedd Ydw / Nac ydw / Ansicr

Mae'r ymatebion fel a ganlyn:

Cwestiwn	Nifer wnaeth ymateb Ydw	Nifer wnaeth ymateb Nac ydw	Nifer wnaeth ymateb Ansicr
Nifer y plant yn mynychu	4	1	0
Effaith ariannol ar y busnes	4	1	0
Lles staff	3	0	2
Cyfathrebu gyda theuluoedd	4	1	0
Dilyn canllawiau Covid-19	3	1	1
Cadw staff	4	0	1
Recriwtio staff	4	0	1

Mae adborth ychwanegol o sefydliadau ambarél ynglŷn â'r cymorth y maen nhw wedi'i roi i'w haelodau a'u pryderon ar gyfer y dyfodol oherwydd y pandemig fel a ganlyn:

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi tynnu sylw at rai o'r materion sy'n wynebu Clybiau Tu Allan i Oriau Ysgol o ganlyniad i'r pandemig. Gellir gweld sylwadau pellach ar gynaliadwyedd y sector yn "Adran 11 Cynaliadwyedd" yr adroddiad hwn. Hefyd gweler yr adroddiad hwn [adroddiad ar Sefyllfa'r Sector](#)

Tynnodd Cymdeithas Meithrinfeidd Dydd Cenedlaethol (CMDC) sylw fel hyn - "Mae Covid 19 a'r mesurau amddiffyn wedi'u mabwysiadu gan feithrinfeidd wedi golygu diffyg incwm sylweddol i lawer o feithrinfeidd ac wedi creu ansicrwydd am y dyfodol. Mae Nifer y lleoliadau yn wynebu problemau o ran cynaliadwyedd a fydd yn cael effaith ar argaeledd lleoedd gofal plant yn y dyfodol."

Nododd adborth Mudiad Meithrin fod y rhan fwyaf o'u lleoliadau wedi dewis cau am gyfnodau hir yn ystod y pandemig a rhoi eu staff ar ffyrlo er mwyn sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol.

Dyweddodd PACEY Cymru fod eu haelodau wedi gweld gostyngiad yn nifer y plant sy'n mynychu gan arwain at effaith ariannol ar ddarparwyr. Mae PACEY yn awyddus i sicrhau bod ffynonellau cymorth ariannol parhaus ar gael i warchodwyr plant yn y cyfnod ar ôl y pandemig. Roeddent hefyd yn teimlo bod "pryderon mewn perthynas â chynaliadwyedd eu lleoliad pe bai achos yn codi yn eu cartref gan olygu y byddai angen iddynt gau eu gwasanaeth. Mae'r pryderon a godwyd wedi cynnwys yr effaith ariannol uniongyrchol, yn ogystal â sut y byddai hyn yn effeithio ar y teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw, ac a fyddai hyn yn effeithio ar farn y teuluoedd am ddibynadwyedd eu gwasanaeth. Mae PACEY Cymru hefyd yn deall bod costau tanwydd cynyddol a'r angen i dderbyn awyr iach i'r tŷ yn ystod misoedd y gaeaf yn ychwanegu at y pwysau ariannol ar y sector.

Nododd Blynnyddoedd Cynnar Cymru ostyngiad yn nifer y plant sy'n mynychu gofal plant yn ystod y pandemig yn eu lleoliadau, a fyddai wedi effeithio'n ariannol ar fusnesau.

Roedd pob sefydliad ymbarél gofal plant yn teimlo bod y pandemig wedi cael effaith niweidiol ar les staff ac yn teimlo bod recriwtio a chadw staff yn y sector yn fwy heriol o ganlyniad i'r pandemig.

Ymgynghori gyda chyflogwyr:

Dyma ganlyniadau'r cwestiynau oedd yn berthnasol i Covid 19 yn holiadur y cyflogwyr. Cafwyd ymateb gan 12.

Yn ystod pandemig COVID-19 a yw rhieni wedi gallu gweithio'n fwy hyblyg?



Dyma'r dewisiadau gweithio'n hyblyg a roddwyd i rieni gan gyflogwyr wnaeth gymryd rhan yn yr holiadur:

- Gweithio gartref gyda phlant gartref
- Shifftiau byrrach oherwydd diffyg gofal plant
- Gweithio gartref / mwy o ddewisiadau i weithio o gartref
- Mewn rhai achosion os nad yw gweithwyr yn hanfodol i weithrediad dyddiol mae wedi bod yn bosib iddyn nhw weithio gartref
- Dim ond gyda'r cynllun ffyrlo


Mae 75% o'r cyflogwyr wnaeth ateb yr holiadur wedi nodi fod pandemig Covid-19 wedi achosi mwy o broblemau gofal plant i staff. Y rhesymau a roddwyd ar gyfer hyn oedd:

- Dim gofal plant o gwbl yn unman

- Dim gofal plant cyn / ar ôl ysgol a neiniau a theidiau yn ynysu
- Gofal Plant
- Ceisio jyglo mwy o oriau neu lai o oriau a cheisio gofalu am eu plant ar yr un pryd
- Gweithwyr sy'n dibynnu ar deulu am ofal yn ei chael yn anodd
- Dau riant yn gorfod mynychu gweithle, dim gofal ar gael.
- Staff methu dibynnu ar aelodau'r teulu / ffrindiau i helpu gyda gofal plant oherwydd cadw pellter cymdeithasol ayb.

Ymgynghoriad gyda Darparwyr Gofal Plant

Yn ystod y pandemig a gawsoch chi broblemau gydag unrhyw un o'r canlynol? Ticiwch bob un sydd yn berthnasol



Roedd 12% (3) o'r rheiny wnaeth gymryd rhan yn yr arolwg yn poeni am y dyfodol oherwydd yr angen i ddilyn canllawiau Covid-19.

Fe wnaeth 96% (26) o'r rheiny wnaeth ymateb nodi eu bod wedi derbyn cyllid neu adnoddau ychwanegol yn ystod y pandemig sydd wedi eu helpu nhw yn y ffyrdd canlynol:



Roedd hyn yn cynnwys cyflenwadau glanhau a grant tuag at gostau gwresogi.

Ychwanegodd darparwyr y sylwadau hyn hefyd am y gefnogaeth a gawsant:

- Fel grŵp hoffem ddweud bod Conwy wedi cynnig cefnogaeth wych i ni trwy gydol y cyfnod pandemig
- Rwy'n teimlo fy mod yn cael cefnogaeth dda gan yr awdurdod lleol a gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd.
- Dim ond eisiau diolch yn fawr iawn i dîm blynyddoedd cynnar Conwy sydd wedi gweithio'n galed iawn yn ystod y pandemig. Maent wedi parhau i gefnogi cylchoedd o dan amgylchiadau anodd dros ben ac wedi bod ar ben y ffôn neu'r e-bost i helpu gydag unrhyw ymholiadau.
- Roedd yn rhaid i xxxx xxxxx (enw'r lleoliad) nid yn unig ymdopi â straen Covid ond yn ystod 3 wythnos olaf blwyddyn anodd roedd yn rhaid i ni reoli E-Coli a heb gefnogaeth tîm y blynyddoedd cynnar nid ydym wir yn gwybod sut y gallem fod wedi ymdopi.

Ymgynghoriad gyda Phenaethiaid Ysgolion

Er yn gyffredinol y cafwyd ymateb gwael i'r holiadur hwn dyma ganlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd ynglŷn â Covid-19.

O'r rheiny a gymerodd ran, dywedodd 71% oedd â gofal plant ar eu safle ysgol eu bod wedi cael problemau agor oherwydd COVID-19. Dyma'r rhesymau dros hynny:

- Achosion ar y safle a'r ffaith fod y lleoliad yn darparu gofal o amryw ffynhonnell h.y. ysgolion, yn lleol
- Diffyg staff neu gau dros dro (un prynhawn / un diwrnod) ar ddau achlysur
- Bu cyfnodau lle mae cael staff ar gyfer lleoliad wedi achosi problemau ac wedi arwain at gau lleoliadau
- Nifer ddim y cyrraedd y meini prawf

Fe wnaeth 67% (10) o'r rheiny wnaeth ymateb ddatgan fod y pandemig wedi achosi problemau gofal plant i rieni mewn ysgolion oherwydd:

- Pan roedd y lleoliad ar gau bu'n rhaid i rieni wneud trefniadau eraill
- Oherwydd hunan ynysu
- Methu defnyddio neiniau a theidiau ar gyfer gofal plant
- Lleoliad wedi cau am gyfnod o amser, a staff yn ynysu ar gyfnodau eraill
- Cylch chwarae cyfrwng Saesneg wedi cau ym Mawrth 2020 ac nid oes cylch chwarae cyfrwng Saesneg yn Abergele
- Plant angen gofal plant pan oedd rhieni angen mynd yn ôl i'r gwaith ond nad oeddent yn weithwyr allweddol
- Rhieni yn cwyno am anawsterau gofal plant – ddim eisiau peryglu iechyd neiniau a theidiau
- Trafferth dod o hyd i ofal disgyblion cyn oed ysgol yn lleol
- Cyfleusterau gofal plant ddim bob tro ar gael nac yn hyblyg

Ymgynghori gyda rhanddeiliaid eraill

Yn anffodus gwael fu'r ymateb i'r holiadur hwn ond cafwyd rhai sylwadau defnyddiol gan y rheiny wnaeth ymateb.

Pan ofynnwyd a oedden nhw'n ymwybodol o unrhyw effaith y mae pandemig Covid-19 wedi'i gael ar y sector gofal plant cafwyd y sylwadau hyn:

- Staff gofal plant wedi gadael i weithio mewn sectorau eraill
- Cost isel gweithgareddau am ddim wedi lleihau hygyrchedd
- Rhieni yn bryderus am y niferoedd cynyddol o Covid mewn lleoliadau cymdeithasol
- Plant yn cyflwyno gyda phroblemau ymddygiad ac emosiynol
- Gweithlu yn teimlo nad yw'n cael ei werthfawrogi

Cyllid grant yn ystod Covid 19 a thu hwnt:

Cefnogwyd y sector drwy ddarparu cyllid grant i fynd i'r afael â'r gofynion sy'n cael eu rhoi ar leoliadau gofal plant oherwydd y pandemig.

Grantiau Darparwyr Gofal Plant – lleihad mewn incwm net (cofrestru gyda Busnes Cymru)

Mae'r grant hwn yn darparu cymorth ariannol i fusnesau gofal plant wedi'u cofrestru â'r AGC sydd wedi profi lleihad mewn incwm net o ganlyniad i argyfwng COVID-19 ac sydd heb allu cael mynediad i grantiau o gynlluniau eraill Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Dyfarnwyd y grant yn seiliedig ar leihad mewn incwm net ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 30 Mehefin 2020 o'i gymharu ag 1 Ebrill 2019 i 30 Mehefin 2019. Datblygwyd proses ar-lein i leoliadau allu gwneud cais am gyllid. Cododd y lleoliadau rai problemau sef bod y broses yn anodd, byddai'r system yn goramseru a

byddai'n rhaid i leoliadau ail-ddechrau mewnbynnu'r wybodaeth unwaith eto. Mae asesu'r ceisiadau'n heriol iawn oherwydd safon y wybodaeth a dderbyniwyd.

Grantiau Darparwyr Gofal Plant

Roedd y grant hwn ar gael i ddarparu cyllid cynaliadwyedd i helpu lleoliadau gofal plant i barhau i weithredu drwy gydol heriau Covid-19, lle nad oes cyllid cyhoeddus arall yn cael ei ddarparu i dalu'r un costau. Dyrannwyd y cyllid i Grant Gofal Plant a Chwarae trwy GDGP. Roedd gan y grant bedair elfen lle gallai lleoliadau wneud cais:

1) Costau Cynyddol

Rhoddwyd cyllid penodol i bob darparwr tuag at gostau cynyddol yn gysylltiedig â Covid-19 i brynu PPE, costau gwresogi ychwanegol oherwydd cynnydd mewn awyru neu gostau'n gysylltiedig â gofynion glanhau ychwanegol. £500 i bob lleoliad a £250 ar gyfer darparwyr gofal plant domestig, yn cynnwys cyllid ar gyfer glanhau dwfn yn dilyn cau lleoliadau oherwydd COVID.

2) Colli incwm (cynaliadwyedd)

Roedd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi darparwyr a oedd wedi profi colled mewn incwm o ganlyniad i lai o alw am leoliadau gofal plant, lle'r oedd hyn yn cael ei ystyried i fod yn broblem dros dro o ganlyniad i Covid-19. Cyfnod o golli incwm rhwng 14 Medi a 31 Rhagfyr 2020 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

3) Grant Hunan-ynysu (lleoliad yn cau'n gyfan gwbl neu'n rhannol)

Roedd y grant hwn ar gael i gefnogi lleoliadau unigol y bu'n ofynnol iddynt gau'n llawn neu'n rhannol oherwydd y Coronafeirws.

4) Gostyngiad mewn Galw

Defnyddir yr arian i gefnogi darparwyr sy'n colli incwm o ganlyniad i lai o alw am leoedd gofal plant, lle credir bod hyn dros dro ac o ganlyniad i Covid-19, ac na ellir ei ariannu na'i dalu drwy ddulliau eraill, gan gynnwys cymorth presennol y llywodraeth.

Defnyddiwyd yr arian hefyd i dalu am gostau staff wrth weinyddu cyllid ychwanegol trwy'r ffrwd Grant Gofal Plant a Chwarae.

Cynllun Grantiau Bach Cyfalaf a Chynllun Grant Bach Covid Ychwanegol

Mae darparwyr gofal plant wedi cael cyfle i wneud cais am gyllid i gynyddu'r Nifer y lleoliadau Cynnig Gofal Plant y gallan nhw eu cynnig neu i wella safon eu cyfleusterau. Roedd disgwyl i'r holl leoliadau gyflawni asesiadau risg er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r canllawiau cadw pellter cymdeithasol.

Defnyddiodd llawer o ddarparwyr y cyllid grant i gyflawni canlyniadau'r asesiadau risg hyn ac i wneud addasiadau i'w heiddo er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau cadw pellter cymdeithasol ac i wella llefydd chwarae tu allan wrth ystyried y dystiolaeth wyddonol oedd yn awgrymu bod trosglwyddo'r feirws wedi lleihau'n sylweddol yn yr awyr agored. Dyma nifer y lleoliadau wnaeth adrodd yn y SASS eu bod wedi addasu eu heiddo fel a ganlyn:

Nifer y lleoliadau sydd wedi gwneud newidiadau	Ardal 1 Gorllewin	Ardal 2 Gogledd	Ardal 3 Canolog	Ardal 4 Dwyrain	Ardal 5 De
Gwarchodwyr Plant	1	2	7	2	3

Gofal Dydd Llawn	0	0	5	3	2
Sesiynol	2	0	1	1	1
Clybiau Tu Allan i Ysgol	0	1	1	0	0
CYFANSYMAU	3	3	14	6	6

Dyma restr o sylwadau ychwanegol mewn perthynas â gwneud newidiadau i'w heiddo oherwydd Covid-19:

- Rydym yn adeiladu mwy o leoedd dysgu a chwarae blêr i'r plant tu allan.
- Oherwydd Covid rydym wedi prynu sied storio i gadw dodrefn ac adnoddau ond yna dyma xxxxxxx yn gwagio eu hadnoddau allan o'n sied arall ac yna dyma ni'n ei lenwi gyda'r dodrefn a'r adnoddau sydd rŵan yn ein galluogi ni ddefnyddio'r sied fel dosbarth tu allan.
- Mae'r brif ystafell chwarae wedi cael ei rhannu'n ddwy swigen drwy ddefnyddio rhanwyr ystafell wnaethon ni eu prynu.
- Mae cysgodfa wedi cael ei ychwanegu i'r ardal awyr agored ac mae'r ardal tu allan yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd. Mae'r cyllid ar gyfer yr ardal hon wedi'i sicrhau trwy wahanol grantiau.
- Mae'r ardal tu allan rŵan yn cynnig mwy o gyfleoedd i blant chwarae tu allan beth bynnag y tywydd, ac wedi bod yn amhrisiadwy yn ystod amseroedd ansicr gyda Covid.
- Gazebo (3 metr wrth 6 metr) tu allan oherwydd Covid fel bod plant yn gallu bod tu allan gymaint â phosib.
- Ym mis Ionawr 2021 cafodd yr ardd gefn ei thrawsnewid yn llwyr i'w gwneud yn ofod mwy ymarferol i gefnogi dysgu yn yr awyr agored, i helpu cynyddu'r cyfanswm o amser a dreulir tu allan yn ystod Pandemig Coronafeirws yn unol â'r canllawiau.
- Rydym hefyd yn defnyddio ystafell mewn adeilad y cyngor sir drws nesaf dros dro gan fod y ganolfan yn cael ei defnyddio ar gyfer brechu pobl dros gyfnod y pandemig.
- Er mwyn darparu amgylchedd diogel o ran Covid, mae mynediad i fy lleoliad rŵan trwy'r drws cefn er mwyn sicrhau y gallaf wahanu fy nheulu oddi wrth y plant yr wyf yn eu gwarchod yn ystod oriau gwaith.
- Dydi'r cyntedd ddim yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd gan blant sy'n cael eu gwarchod ond rydym wedi defnyddio pergola gyda tho tu allan i'r drws cefn fel bod rhywun yn sych beth bynnag y tywydd. Mae dau iât ochr y gellir eu cloi wedi cael eu gosod er mwyn sicrhau diogelwch.
- Mae'r ardal chwarae tu allan sydd y tu ôl i'r grŵp wedi cael ei uwchraddio. Yn dilyn grant rydym wedi ail-ddylunio'r ardal i'n galluogi ni i wneud defnydd rheolaidd ohono. Rydym yn y broses o gael adeiladu to fel bod modd chwarae tu allan yn ystod tywydd gwlyb. Rydym hefyd wedi cynnwys gofod cyfathrebu cyfeillgar yn y cynlluniau.
- Mae mynediad i'r ystafell ymolchi trwy'r ystafell chwarae rŵan ac nid trwy'r ystafell gyfleustodau mwyach.
- Fel esboniwyd yn ein hadolygiad diweddaraf mae llawer o waith wedi ei wneud i'r adeilad i ateb gofynion diogelwch ar gyfer delio â'r gofynion yn gysylltiedig â Covid 19 gan gynnwys gosod ffenestri newydd sy'n agor drwy'r adeilad, drysau tân newydd i'r ardaloedd chwarae allanol, to mewnol newydd i'r ystafell ganol er mwyn rheoli'r tymheredd yn well gyda ffan wedi'i osod yn y to, sinciau golchi dwylo wedi eu gosod tu allan yn y lleoedd chwarae, llawr newydd yn fewnol, glaswellt newydd tu allan a sillfoedd.
- Mae gweithdrefnau gweithredol wedi newid yn rheolaidd yn unol â'r sefyllfa covid presennol.

- Mae gweithdrefnau gweithredol wedi newid yn unol â'r sefyllfa Covid presennol.
- Ardal chwarae tu allan newydd
- Mae'r newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r lleoliad yn y 12 mis diwethaf yn ymateb i'r hyn a gynghorodd Llywodraeth Cymru ar sut i ddiogelu plant a'n hunain mewn lleoliad rhag Covid-19. Rydym yn glanhau'r lleoliad yn rheolaidd, ni chaniateir i rieni neu ymwelwyr ddod i mewn i'r eiddo, erbyn hyn rydym yn cwrdd â rhieni ym mynedfa'r eiddo. Mae staff yn profi eu hunain ddwywaith yr wythnos, maen nhw'n gwisgo PPE, rydym yn gwneud yn siŵr fod plant yn golchi eu dwylo yn aml ac nid ydym yn caniatáu i blant sy'n sâl i fynychu'r lleoliad.
- Wedi symud i neuadd yr ysgol fel bod mwy o le i sicrhau bod swigod dosbarthiadau ddim yn cymysgu oherwydd coronafeirws
- Wedi symud yr eiddo dros dro gan fod y gofod cymunedol ddim ar gael bellach

Mae rhai o'r grantiau hyn wedi cael eu hailadrodd y flwyddyn ariannol hon.

Cynllun Cymorth Gofal Plant i Weithwyr Hanfodol a Phlant sy'n Agored i Niwed (C-CAS)

Yr her fwyaf i ddarparwyr gofal plant a staff Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd oedd goruchwyllo'r cynllun Cynnig Gofal Plant i Gymru a gafodd ei ddisodli gan y cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws (C-CAS) hyd at ddiwedd Awst 2020. Dyma gynllun gan Lywodraeth Cymru a ddatblygwyd i gefnogi awdurdodau lleol i weithredu trefniadau brys i ddarparu cymorth gofal plant cyn-ysgol i weithwyr allweddol a phlant diamddiffyn yn ystod pandemig COVID-19 yn 2020.

Dechreuwyd y cynllun grant yn Ebrill a daeth i ben ar 31 Awst 2020. Roedd gan Gonwy 69 o ddarparwyr a Sir Ddinbych 9 o ddarparwyr wnaeth gofrestru i gyflenwi C-CAS a darparu gofal plant i blant gweithwyr allweddol a phlant diamddiffyn. Yn ystod yr amser hwn mae'r nifer canlynol o blant wedi'u hariannu a grantiau wedi'u dyrannu i leoliadau gofal plant:

2020/21	Nifer y Plant a Ariannwyd
C-CAS - Ebrill	55
C-CAS - Mai	112
C-CAS - Mehefin	242
C-CAS - Gorffennaf	214
C-CAS - Awst	368

Er bod y cynllun C-CAS yn werthfawr i rieni ac wedi creu incwm i'r lleoliadau hynny wnaeth aros ar agor roedd yn system anodd ei sefydlu a'i brosesu. Roedd y rhestr o weithwyr allweddol yn rhy eang ar gyfer dibenion C-CAS ac roedd dryswch mewn sawl achos h.y. nyrsys deintyddol, milfeddygon, adeiladwyr. I ddechrau roedd diffyg eglurder ar y cymhwyster 2 neu 1 gweithiwr allweddol – os oedd rhaid i'r ddau riant fod yn weithwyr allweddol, neu dim ond un – nes iddo gael ei newid i ganllawiau un gweithiwr allweddol yn genedlaethol. Roedd rhieni sy'n weithwyr allweddol ac yn derbyn budd-daliadau am eu bod ar incymau isel yn cael eu rhoi mewn sefyllfa lle'r oedd posibilrwydd y byddent yn colli'r budd-daliadau hynny os byddan nhw'n

gwneud cais am C-CAS. Roedd parhau i ariannu C-CAS tan ddiwedd mis Awst yn fanteisiol i weithwyr allweddol oedd yn rhieni i blant cyn-ysgol ond arweiniai hynny at ymdeimlad o anghydraddoldeb i rieni gyda phlant oedran ysgol.

Plant diamddiffyn – darpariaeth gwyliau'r haf (Awst 2020)

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cyflwyno cynnig ar y cyd â gwasanaethau ac adrannau eraill i Lywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau ar gyfer ein plant diamddiffyn, a'r rheiny sydd heb eu hadnabod o fod yn elwa o sesiynau gofal plant yn ystod yr haf i atal chwalfa teuluoedd a helpu gyda datblygiad plant pan nad ydyn nhw yn yr ysgol. Oherwydd nifer y lleoliadau wnaeth gau roedd yn anodd dod o hyd i leoliadau ar gyfer plant diamddiffyn, yn enwedig plant 9 – 12 oed.

Darparodd Dechrau'n Deg ddarpariaeth gwyliau haf i'r teuluoedd mwyaf diamddiffyn.

Mae'r sector gofal plant wedi ymateb yn sydyn i ffyrdd newydd o weithio wedi'u datblygu i gadw staff a phlant yn ddiogel. Trwy weithio mewn cydweithrediad â'r Tîm Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwybodaeth i Deuluoedd mae darparwyr gofal plant wedi cydymffurfio â gwaith Swyddogion Iechyd Yr Amgylchedd a Thimau Profi Orlhain Diogelu i rwystro llif y pandemig.

Cynaliadwyedd:

Mae'r heriau a wynebwn yn sgil pandemig Covid 19 wedi effeithio ar gynaliadwyedd rhai adrannau o'r sector gofal plant i raddau mwy helaeth nag eraill. Roedd ambell i don ac yna lleihad yn y galw am ofal plant pan gafodd mesurau gwahanol eu cyflwyno ac yna eu hymllacio wnaeth achosi ansicrwydd i lawer o ddarparwyr gofal plant wrth wybod beth oedd gwir natur y farchnad wrth symud ymlaen. Dydi gwir effaith y pandemig ddim yn gwbl amlwg eto gyda rhai mesurau cyfnod clo dal yn eu lle. Y cyfarwyddyd i bobl yw parhau i weithio gartref pan yn bosib sydd wedi effeithio'r sector clwb ar ôl ysgol yn arbennig.

Yn gyffredinol yn 2020-21 mae'r pecynnau o gefnogaeth a roddwyd yn eu lle yn ystod y pandemig wedi helpu'r sector i aros yn gynaliadwy. Roedd yn heriol gweinyddu rhai o'r cynlluniau o ystyried amserlenni byr iawn a heriau cyflenwi oherwydd y mesurau cyfnod clo.

11. Cynaliadwyedd


Mae'r Asesiad yn rhoi ystyriaeth i gynaliadwyedd y farchnad gofal plant, gan gynnwys ffactorau sydd wedi effeithio ar gynaliadwyedd darparwyr gofal plant ar hyn o bryd. Mae'r ffactorau canlynol wedi'u hystyried:

- Pandemig Covid - 19
- Grantiau / cyllid uniongyrchol ar gyfer darparwyr gofal plant
- Cyllid Addysg Gynnar ar gyfer plant 3 oed
- Cefnogaeth i rieni fel defnyddwyr gofal plant megis Cynnig Gofal Plant Cymru, Dechrau'n Deg, Gofal Plant Di-dreth, Credyd Cynhwysol, cyllid Cyfnod Sylfaen. Gall y cynlluniau hyn roi mwy o gyfrifoldeb a baich gweinyddol ar ddarparwyr gofal plant.
- Prosiectau eraill sy'n galluogi darparwyr i gynnig lleoedd i blant lle gallai rhwystr fodoli iddynt gael mynediad at ofal plant fel:
 - Cymorth ariannol ar gyfer cefnogaeth 1:1 i blant ag anghenion ychwanegol o fewn lleoliad y tu allan i oriau ysgol (Extra Hands)
 - Cynllun Cefnogi Cyn Ysgol Conwy – cymhorthdal ar gyfer cefnogaeth 1:1 i blant ag angen ychwanegol o fewn lleoliad cyn-ysgol
 - Grant Gofal Plant Lleoedd Gyda Chymorth – gall dalu cyfran o ffi gofal plant i rieni sy'n bodloni meini prawf penodol
 - Cynlluniau cyflogadwyedd amrywiol gan gynnwys PaCE yn cynnig cymorth ariannol dros dro i rieni wrth chwilio am waith neu hyfforddiant.

Mae darparwyr gofal plant ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn cael cynnig rhaglen hyfforddiant naill ai am ddim neu am ffi ostyngol trwy Bartneriaeth Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PBCGP).

Canlyniadau ymgynghoriad gyda Darparwyr Gofal Plant.

Gofynnwyd i'r darparwyr gofal plant nodi beth oedd y 3 prif bryder ar gyfer eu busnes dros y 18 mis nesaf.



Dywedodd un lleoliad mai eu prif bryder oedd “ysgolion yn cymryd drosodd ein marchnad.”


Gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant a oeddent yn bwriadu cynyddu nifer y lleoedd cofrestredig dros y 18 mis nesaf. O'r rhai atebodd y cwestiwn hwn atebodd 78% nad oeddent, 13% eu bod yn bwriadu a 9% ddim yn gwybod.

Gofynnwyd i ddarparwyr a oeddent yn bwriadu lleihau nifer y lleoedd cofrestredig dros y 18 mis nesaf. O'r rhai atebodd y cwestiwn hwn atebodd 86% na, nid oedd 9% yn gwybod ac atebodd 5% eu bod yn bwriadu.

Gofynnwyd i ddarparwyr a oeddent yn bwriadu cau eu lleoliad dros y 18 mis nesaf. O'r atebion nid oedd yr un ohonynt â chynlluniau i gau.

Gofynnwyd hefyd i leoliadau nodi beth fyddai fwyaf defnyddiol iddynt – fel a ganlyn:

Pe hoffech dderbyn help gyda'ch cynlluniau ar gyfer y dyfodol, beth fyddai fwyaf defnyddiol i chi? Ticiwch y tri pwysicaf i chi



Gofynnwyd i ddarparwyr wneud sylwadau pellach ar y cwestiwn hwn. Yr ymatebion a dderbyniwyd oedd:

“Cynnydd blynyddol mewn cyllid i gyd-fynd â chwyddiant! Cynnydd mewn lleoedd a lleoliadau Dechrau'n Deg”

“Atal ysgolion rhag cymryd plant 3 oed gan mai dyma faes proffidiol y busnes”

Sylwadau pellach am ofal plant yng Nghonwy oedd:

“Byddai'r gallu i gynnig parhad gofal neu ofal hyblyg munud olaf/brys o fudd”

“Mae diffyg symudiad mewn niferoedd ar gyfer plant oed meithrin yn cyfyngu ar ein cyflogau ac yn achosi straen i rieni”

“Dylai grantiau fod yn seiliedig ar niferoedd mewn gosodiadau yn hytrach na bod yn seiliedig ar eich statws Cofrestru”

“Dylai gwarchodwyr plant gael ychydig mwy o hyblygrwydd o ran niferoedd fel y maen nhw yn Lloegr”

“Fel grŵp hoffem ddweud bod Conwy wedi cynnig cefnogaeth wych i ni trwy gydol cyfnod y pandemig”

“Yn y dyfodol gobeithio ehangu ac agor meithrinfa”


“Rwy'n teimlo fy mod yn cael cefnogaeth dda gan yr awdurdod lleol a'r gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd”

“Os bydd y broses o dresmasu yn parhau bydd angen i ni gau lleoliadau”

“mwy o blant = mwy o staff = mwy o gyflogau – mae angen codi'r cyllid fesul plentyn i FS (Dechrau'n Deg) a CCW” (Cynnig Gofal Plant Cymru)

Gofynnwyd i'r darparwyr gofal plant a oedd cyflwyno Cynnig Gofal Plant Cymru wedi effeithio ar eu busnes mewn unrhyw ffordd. O'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn, atebodd 63% Do, 37% Naddo. Yna gofynnwyd iddynt sut yr effeithiwyd arnynt fel a ganlyn:

Ticiwch bob un sydd yn berthnasol



Dywedodd un fod Cynnig Gofal Plant Cymru “wedi caniatáu i ysgolion gymryd mwy o'r farchnad o leoliadau gofal dydd preifat”. (Mae'n ymddangos bod y sylwadau hyn yn cyfeirio at leoliadau gofal plant cofleidiol yn seiliedig ar safleoedd ysgol yn hytrach nag ysgolion eu hunain).

Adborth gan randdeiliaid cyffredinol:

Wrth ymgynghori â rhanddeiliaid, nodwyd rhywfaint o bryder ynghylch cynaliadwyedd oherwydd materion recriwtio a chadw'r gweithlu.

Pan ofynnwyd iddynt awgrymu sut i ddatblygu gofal plant mwy cynaliadwy, hygyrch neu fforddiadwy yng Nghonwy dros y 18 mis nesaf, yr ymatebion a gafwyd oedd:

"Cynnig cyfraddau cyflog uwch a cheisio recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg"

"Datblygu'r gweithlu o ran hyfforddiant chwarae"

"Mae rhai plant yn gymwys i gael lleoedd am ddim yn dibynnu ar pa bryd mae eu penblwyddi, tra nad yw eraill"

"Cymru gyfan. Dylid ymestyn y cynnig gofal plant ar draws oedrannau"

Roedd canlyniadau ymgynghoriad Sefydliad Ymbarél Gofal Plant ynghylch cynaliadwyedd fel a ganlyn:

Sylwadau Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs:

"Pryderon ynghylch cynaliadwyedd y ddarpariaeth bresennol (Mae Adroddiad Cyflwr y Sector Clybiau Plant Cymru [Adroddiad Cyflwr y Sector](#) yn cynnwys ystadegau o'r sector cyfan - 2021) – oherwydd effaith Covid-19, mae rhai Darparwyr wedi tynnu'n ôl o ddarparu'r gofal a gynigiwyd yn flaenorol. ar safleoedd ysgolion..."

Yn aml, mae hi'n well gan rieni/gofalwyr gael gofal plant ar safle ysgol (yn hytrach nag opsiynau mewn lleoliadau cymunedol) ac mae'n opsiwn mwy cynaliadwy i ddarparwyr (trafnidiaeth).

Fodd bynnag, mae mynediad i safleoedd ysgol gan ddarparwyr gofal plant yn aml yn cael ei rwystro gan:

- Broblemau gydag agor/cloi
- Dim ystyriaeth ddigonol i Ofal plant yn y camau cynllunio wrth adeiladu ysgolion newydd
- Galw cynyddol am leoedd ysgol yn arwain at ddiffyg lle ar gyfer gofal plant ar y safle

Pryderon parhaus ynghylch Covid-19 ac amharodrwydd i ganiatáu cymysgu grwpiau blwyddyn

Mae materion cadw/recriwtio yn arwain darparwyr i redeg ar gapasiti llai, cau dros dro, ystyried dadgofrestru neu gau'n barhaol. Mae angen gwneud ymdrechion ar lefel leol a chenedlaethol i annog pobl i mewn i'r sector ac i gefnogi cadw'r rhai sy'n gweithio yn y sector ar hyn o bryd.

"Gall mentrau a rhaglenni eraill a ddefnyddir fel gofal plant heb ei reoleiddio megis gwersylloedd chwaraeon, 'SHEP', Rhaglen Gwyliau 'Playworks', effeithio ar hyfywedd tymor byr a chynaliadwyedd hirdymor lleoliadau cofrestredig presennol o dan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yn enwedig y rhai sy'n cynnig gofal plant yn ystod y gwyliau, oni bai bod gwasanaethau'n cydweithio wrth gynllunio, a fod gofal plant cofrestredig yn cael ei ystyried ar lefel strategol."

Sylwadau Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeidd Dydd (NDNA):

Mae Covid-19 a'r mesurau amddiffynnol a gymerwyd gan feithrinfeydd wedi arwain at ddiffyg incwm sylweddol i lawer o feithrinfeydd ac wedi creu ansicrwydd ynghylch y dyfodol. Mae llawer o leoliadau yn wynebu problemau cynaliadwyedd a fydd yn effeithio ar argaeledd lleoedd gofal plant yn y dyfodol.

Mae recriwtio, yn enwedig staff cymwys, yn broblem fawr i'r sector. Bydd costau staffio uwch, yn anochel, yn effeithio ar fforddiadwyedd gofal plant i rieni.

Mae pryder y gallai lleoliadau newydd sy'n agor ar safleoedd ysgol fentro disodli'r lleoedd gofal plant presennol mewn meithrinfeydd. Bydd hyn yn y pen draw yn arwain at feithrinfeydd yn dod yn anghynaliadwy neu bydd baich ariannol mwy ar deuluoedd plant iau/heb eu hariannu.

Sylwadau Mudiad Meithrin

*Mae'r grantiau sydd wedi bod ar gael i'r cylchoedd ynghlwm efo'r defnydd o'r cynllun Saib wedi golygu nad oedd y colledion ariannol yn y sector mor ddrwg ac yr oedd pawb wedi disgwyl

**Mae problemau o ran cadw a recriwtio staff yn y sector Gymraeg OND mae hi yn anodd dweud os mae'r pandemig yw'r achos. Wedi colli staff i ysgolion wrth i'r ysgolion cael cyllid ychwanegol ar gyfer Cymorthyddion dosbarth i helpu plant i ddal i fyny.

Sylwadau PACEY Cymru:

"Mae PACEY Cymru yn bryderus i nodi gostyngiad cyffredinol yn nifer y gwarchodwyr plant ledled Cymru....., O fis Ebrill 2021, mae PACEY Cymru wedi bod yn canolbwyntio ar hyrwyddo gwarchod plant fel dewis gyrfa ac fel opsiwn gofal plant i deuluoedd er mwyn cefnogi cynaliadwyedd, niferoedd gofalwyr plant ac argaeledd dewis o ofal plant i rieni."

Roedd PACEY Cymru yn awyddus i sicrhau y byddai ffynonellau parhaus o gymorth ariannol ar gael i warchodwyr plant yn yr adferiad presennol o bandemig Covid-19. Gwnaethant y sylwadau a ganlyn hefyd:

"Mae'r pryderon a godwyd wedi cynnwys yr effaith ariannol uniongyrchol, yn ogystal â sut y byddai hyn yn effeithio ar y teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw, a'u canfyddiad o ddibynadwyedd eu gwasanaeth. Mae PACEY Cymru hefyd yn deall bod costau tanwydd cynyddol a'r angen am awyru yn ystod misoedd y gaeaf yn ychwanegu at y pwysau ariannol ar y sector..... Mae ymholiadau cyffredinol a phryderon a godwyd wedi cynnwys; pryderon ariannol a chynaliadwyedd, gwybod am y canllawiau cyfredol/newydd a'u bodloni. Mae ymholiadau a phryderon cyffredinol eraill a godwyd gan warchodwyr plant wedi ymwneud ag amddiffyn eu hunain, eu teulu ac aelodau'r cartref, yn ogystal â'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw rhag y feirws."

"Mae sgiliau digidol ac adnoddau hefyd wedi bod yn bwysig er mwyn l leoliadau allu cael mynediad a dilyn canllawiau cyfredol (Covid). Mae'n hynod gadarnhaol bod yr awdurdod lleol yng Nghonwy ar hyn o bryd yn cynnig grantiau i gefnogi darparwyr Cynnig Gofal Plant Cymru gydag offer digidol addas a fydd yn cefnogi hyn."

Mae PACEY Cymru yn gallu cynnig ac ariannu pecyn o hyfforddiant a chymorth cyn cofrestru i ddarpar warchodwyr plant, nanis a chynorthwywyr gwarchodwyr plant yng Nghymru, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael mewn hyfforddiant a ariennir yng Nghymru. Fodd bynnag, er mwyn cefnogi recriwtio parhaus i'r sector a chynyddu nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig, mae angen cyllid ar gyfer cyn-gofrestru sydd wedi'i dargedu, sy'n hir dymor, sydd ar gael, ac yn hawdd ei gyrchu, ar draws holl ardaloedd Cymru.

Sylwadau Blynyddoedd Cynnar Cymru:

Mewn ymateb i'r cwestiwn ar ddigonolrwydd, ansawdd, fforddiadwyedd y gofal plant sydd ar gael, roedd sylwadau Blynyddoedd Cynnar Cymru fel a ganlyn:

Ansawdd - "...byddai lleoliadau'n elwa o gymryd rhan yn un o'r cynlluniau ansawdd sydd ar gael ar draws y sector."

Fforddiadwyedd – "...ddim yn ymwybodol fod yna faterion yn y sir o ran ffioedd a fforddiadwyedd, teimlaf gan fod nifer fawr o'r darparwyr yn ddarparwyr dielw bod ganddynt fforddiadwyedd mewn golwg wrth osod prisiau, mae hyn yn un o fanteision mawr y math hwn o statws cyfreithiol, mae'n helpu i gadw costau i lawr ac nid yw'n caniatáu iddynt wneud elw afresymol o'u teuluoedd."

Sylwadau Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy:

Newidiodd pandemig Covid-19 dirwedd cyflenwad a galw o fewn y sector gofal plant am y rhan fwyaf o 2020. Am y rhan fwyaf o'r flwyddyn dim ond gweithwyr allweddol rheng flaen oedd yn defnyddio gofal plant. Ar rai adegau roedd darparwyr gofal plant yn cael eu cyfarwyddo i ddarparu gwasanaethau ar gyfer y rhan hon o gymdeithas yn unig. Roedd rhai darparwyr o'r farn bod hon yn anghynaliadwy a dewiswyd rhoi'r holl staff ar ffyrlo. Arweiniodd hyn at brinder cyflenwad mewn rhai ardaloedd.

- Penderfynodd rhai darparwyr gau ar rai adegau o'r flwyddyn oherwydd ofnau ynghylch diogelwch staff yn ystod y pandemig. Roedd rhai aelodau o staff yn gwarchod eu hunain oherwydd eu cyflyrau iechyd a oedd yn bodoli ganddynt eisoes. Golygodd hyn bod agor eu darpariaeth yn amhosibl oherwydd niferoedd annigonol o staff cymwysedig i gadw at reoliadau AGC.
- Roedd rhieni a fyddai fel arfer yn dibynnu ar aelodau'r teulu am eu gofal plant yn cael eu rhwystro rhag gwneud hynny ar adegau yn ystod y flwyddyn oherwydd cyfyngiadau Covid 19. Arweiniodd hyn at alw sydyn am ofal plant ar adeg pan oedd capasiti cyfyngedig oherwydd y pandemig. Mae'n debygol y bydd y rhai a oedd yn defnyddio gofal plant cofrestredig yn ystod y cyfnod hwn yn dychwelyd i ddibynnu ar aelodau o'r teulu a ffrindiau.
- Bu gostyngiad yn y galw am ofal plant ar ôl ysgol oherwydd bod rhieni'n cael eu cyfarwyddo i weithio gartref lle bynnag y bo modd. Dewisodd llawer o rieni gymryd amser o'u diwrnod gwaith i godi eu plant o'r ysgol ac yna parhau i weithio gartref ar ôl iddynt wneud hynny.

Mae nifer y grantiau wedi bod ar gael i gynorthwyo darparwyr gofal plant gyda materion cynaliadwyedd. Mae lefel y math hwn o gymorth wedi cynyddu oherwydd y pwysau a brofwyd yn ystod pandemig Covid-19.

12: Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg (CSGA) 2022-2032

Adborth o Holiadur Rhieni: Daeth argaeledd ar draws fel y prif reswm pam nad oedd teuluoedd Cymraeg eu hiaith yn defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg. Gellir gweld dadansoddiad llawn o arolwg rhieni yn Adran 7 o'r adroddiad hwn.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd adroddiad drafft CSGA Conwy i'w weld ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer ymgynghori arno.

[Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Conwy 2022–2032 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy](#)

Yr amcanion yw:

- Sicrhau bod plant a phobl ifanc Conwy yn meddu'r sgiliau angenrheidiol i'w paratoi i fod yn ddinasyddion dwyieithog/amlieithog y dyfodol.
- Hyrwyddo manteision amlieithrwydd trwy godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o fanteision economaidd, gwybyddol, cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol Cymru.
- Datblygu sgiliau dwyieithog dysgwyr o fewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol fel bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol i gyfathrebu.
- Hyrwyddo manteision y Gymraeg ac amlieithrwydd i rieni gan gynnal cyfres o ymgyrchoedd a digwyddiadau cymunedol i deuluoedd mewn partneriaeth ag ystod o randdeiliaid perthnasol.
- Sicrhau bod darpariaeth y gwasanaethau a gynigir yn cynnig cyfleoedd dysgu ac addysgu o'r ansawdd orau ar gyfer plant a phobl ifanc Sir Conwy lle bynnag y maent ar hyd y continwwm iaith.
- Sicrhau bod egwyddorion Cwricwlwm i Gymru 2022 yn galluogi plant a phobl ifanc Sir Conwy i wireddu eu potensial addysgol ac i fod yn hyderus ddwyieithog ac amlieithog.
- Datblygu a hyrwyddo rhaglenni hyfforddiant sirol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n cynnig cyfleoedd i uwch sgilio'r gweithlu lleoliad gofal plant / ysgolion i allu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn hyderus.
- Parhau i hybu a chefnogi Trochi cynnar, cynnig cyfleoedd Trochi ieithyddol dwys i ddisgyblion cynradd trwy Ganolfan Iaith Conwy a chefnogi cynlluniau Trochi canolog / hwyr y sir.
- Ystyried ehangu'r ddarpariaeth Trochi ieithyddol dwys yn y sir yn ddibynnol ar faterion megis cyllid, staffio a lleoliad.
- Adolygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ADY y sir yn ddibynnol ar faterion megis cyllid, staffio a lleoliad

Yn unol â'r amcanion hyn bydd Tîm Blynnyddoedd Cynnar Conwy yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Grŵp Strategol y CSGA a phartneriaid allweddol i ddatblygu ymhellach mentrau iaith Gymraeg i gyflawni nodau Cynllun Strategol Addysg Gymraeg ar draws y Sir. Mae'r camau gweithredu canlynol wedi'u cytuno a'u cynnwys yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a byddant yn cael eu hymgorffori yng Nghynllun Gweithredu'r ADGP. Yn ogystal, mae Conwy wedi gwneud ceisiadau niferus am arian grantiau cyfalaf i wella ac ehangu darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg yn y sir. Mae rhai prosiectau cyfalaf eisoes ar y gweill a chynigion newydd wedi'u cyflwyno.

Cynlluniau Sirol CSGA Conwy

- Ymgynghori i gynllunio i gynyddu'r ddarpariaeth cyn ysgol cyfrwng Cymraeg yn ystod oes cynllun y CSGA, gan hwyluso dilyniant ieithyddol ar draws y Cyfnod Sylfaen trwy raglenni cyfalaf.
- Trwy'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, nodi a chynllunio mesurau i gryfhau ac ehangu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg i sicrhau llwybr di-dor tuag at addysg cyfrwng Cymraeg
- Gweithio gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) i hysbysu rhieni am gyfleoedd i gael mynediad at weithgareddau a llwybrau Cymraeg / dwyieithog i mewn i wefan DEWIS Cymru, gwefan GGD a Mudiad Meithrin.
- Gweithio gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i hysbysu rhieni am gyfleoedd i gael mynediad at weithgareddau addysg gynnar cyfrwng Cymraeg. Medi 2022 ymlaen lleoliadau nas cynhelir i ddilyn Cwricwlwm pwrpasol ar gyfer y sector o dan arweiniad a chefnogaeth Swyddogion y Sir a Thîm Athrawon Cynghori Addysg y Blynyddoedd Cynnar.
- Cyfeirir rhieni newydd plant oed ysgol at y Swyddog Derbyniadau a fydd yn dosbarthu gwybodaeth yn nodi darpariaeth ieithyddol i ddisgyblion o fewn sefydliadau blynyddoedd cynnar hyd 7 oed yr awdurdod. Bydd hefyd yn nodi manteision dwyieithrwydd a byw mewn cymdeithas ddwyieithog/amlieithog y dyfodol.

Marchnata a Chyfathrebu

- Hyrwyddo manteision y Gymraeg ac amlieithrwydd i bawb beth bynnag fo'u cefndir ieithyddol trwy gydweithio â rhanddeiliaid lleol / cenedlaethol a thrwy lwyfannau digidol a chymdeithasol y sir.
- Cydweithio gyda phartneriaid yn y colegau addysg bellach i hyrwyddo manteision y Gymraeg yn y gweithle a'r angen am warchodwyr/gweithlu gofal plant Cymraeg eu hiaith yn y dyfodol.
- Hyrwyddo gweithgareddau iaith Gymraeg ym mhob lleoliad gofal plant ledled y sir yn unol â digwyddiadau / rhaglenni cenedlaethol (Eisteddfod / Urdd / Cymraeg i Blant)
- Parhau i ymgychu ac annog mwy o unigolion sy'n siarad Cymraeg i ymuno â'r proffesiwn.

Hyfforddi a Recriwtio

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i recriwtio a chadw staff sy'n siarad Cymraeg ac yn ddwyieithog
- Gweithio gydag asiantaethau partner i godi'r proffil ac annog gofal plant fel opsiwn gyrfa.
- Sicrhau partneriaeth agos gydag ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach Conwy, cynlluniau a phrentisiaethau Mudiad Meithrin, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg i sicrhau bod gweithlu digonol cyfrwng Cymraeg yn y sector gofal plant.
- Parhau i hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi i ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus yn y sector blynyddoedd cynnar / gofal plant trwy raglen Academi Mudiad Meithrin.
- Hyrwyddo rhaglen gefnogol o ddysgu proffesiynol am ddulliau trochi iaith effeithiol yn y blynyddoedd cynnar trwy raglen genedlaethol Mudiad Meithrin Croesi'r Bont. Rhaglen ar gael ar gyfer cylchoedd, meithrinfeydd preifat sydd awydd cychwyn cynnig mwy o Gymraeg a chylchoedd meithrin Dechau'n Deg gyda phlant 2 oed. Mae'r Adnoddau yn barod ar gael i'w rhannu â dosbarthiadau meithrin.
- Hyrwyddo rhaglenni hyfforddiant iaith cenedlaethol i weithlu gofal plant presennol (a'r dyfodol).

- Adolygu a chynllunio darpariaeth cyn ysgol ar y cyd a rhaglen Sefydlu A Symud (SAS) Mudiad Meithrin sy'n cyd-fynd ag amserlen ad-drefnu ysgolion yn unol â chanllawiau ac amserlen Categoriaddio Ysgolion yn ôl eu Darpariaeth o'r Gymraeg i hybu a chefnogi ysgolion ar hyd y continwrm iaith

Mudiadau a Sefydliadau Allanol sy'n cefnogi Cyd-weithio


- Mudiad Meithrin / Blynyddoedd Cynnar Cymru (sy'n cefnogi'r lleoliadau) / NDNA / Clybiau Plant Cymru / PACEY Cymru a Phwyllgorau Rheoli i:
 - i wella dealltwriaeth rhieni o addysg cyfrwng Cymraeg a'r manteision o gychwyn y daith addysg yn gynnar.
 - gwella dealltwriaeth a rhesymeg wrth drosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg Meithrin 3 oed yn yr ysgolion lleol.
 - parhau i gyd weithio gyda Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant, Cylchoedd Ti a Fi, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Canolfannau Teulu a Dechrau'n Deg i gefnogi rhieni a phlant i ddechrau'r daith addysg cyfrwng Cymraeg trwy'r dull trochi.
 - annog lleoliadau gofal plant i gymryd rhan mewn rhaglenni Cymraeg fel 'Croesi'r Bont' a 'Cam wrth Gam'.

Gweithlu Gofal Plant


O'r data cyflenwad a gyflwynir yn Adran 5 o'r adroddiad hwn mae'n amlwg bod nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn llawer llai na'r rhai sy'n gallu siarad Saesneg neu sy'n siarad ychydig o Gymraeg. Er enghraifft, yn Ardal 3 Canolog mae llawer llai o staff sy'n siarad Cymraeg nag ardaloedd eraill.



Gallu staff i siarad Cymraeg	Faint o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg	Faint o staff sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg	Faint o staff sy'n gallu siarad ychydig neu ddim Cymraeg	Nifer y staff sy'n gweithio mewn lleoliadau ar hyn o bryd
Ardal 1 Gorllewin	31	35	63	129
Ardal 2 Gogledd	19	38	65	122
Ardal 3 Canolog	29	56	118	203
Ardal 4 Dwyrain	20	27	53	100
Ardal 5 De	53	7	4	64
Cyfanswm	152	163	303	618


O'r tabl hwn gallwn weld bod canran y staff ar draws y sir sy'n gallu siarad Cymraeg fel a ganlyn:



Yn Adran 6 o'r adroddiad hwn gallwn weld darpariaeth iaith y gwahanol fathau o ofal plant yng Nghonwy.







Amlygodd adborth y grŵp CAGC y canlynol:

- O'u hymarferion ymgynghori canfyddwyd bod gofal cyfrwng Cymraeg yn gymharol ddrytach
- Angen mwy o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg mewn rhai ardaloedd.

Pan ofynnwyd iddynt a oedd ganddynt bryderon am gynaliadwyedd gofal plant cyfrwng Cymraeg, rhestrwyd y canlynol:

- Cyflenwad priodol o staff gyda'r gallu ieithyddol angenrheidiol
- Parhad unrhyw hyfforddiant i gefnogi'r gweithlu
- Cyllid i gefnogi a chynyddu'r ddarpariaeth

Gofynnwyd iddynt sut y byddai gofal plant cyfrwng Cymraeg yn dangos cynnydd o fewn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Roedd yr ymateb fel a ganlyn:

- Angen gwarchod yr hyn sydd gennym yn barod.
- Angen cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o leiaf 3 cylch ychwanegol dros y 10 mlynedd nesaf 2022-32
- Angen ystyried a thargedu ardaloedd penodol o fewn y sir.
- Angen ystyried darpariaeth feithrin, a'r berthynas rhwng gofal plant ac addysg feithrin cyfrwng Cymraeg.

- Er mwyn ymestyn capasiti Addysg feithrin rhaid cysylltu'r cynlluniau Gofal Plant cyfrwng Cymraeg efo CSGA Conwy ar gyfer hyrwyddo a datblygu'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod mwy o blant yn cychwyn ar y daith mewn addysg cyfrwng Cymraeg.
- Edrych yn fanwl ar y cyfraddau trosglwyddo o'r cylchoedd meithrin unigol i Addysg cyfrwng Cymraeg gan nodi unrhyw batrwm sy'n amlygu ei hun.

Cafwyd awgrymiadau ar sut y gall gofal plant helpu i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o Filiwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel a ganlyn:

- Cynyddu deunyddiau a gwybodaeth marchnata manteision dwyieithrwydd i ddarbwylllo rhieni/gwarchodwyr.
- Ystyried hawl y plentyn i gael mynediad i Addysg Gymraeg a Saesneg. Rhaid cael cysail gadarn o'r cyfnod cychwynnol.
- Ehangu capasiti gofal plant cyfrwng Cymraeg / dwyieithog o fewn y sir

13. Rhaglenni Ariannu Gofal Plant

13.1. Cynnig Gofal Plant Cymru (CGPC)

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn gynllun newydd sydd wedi'i gyflwyno yn y cyfnod ers cwblhau'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant llawn ddiwethaf. Mae manylion y cynllun a'r meini prawf cymhwysedd ar gael ar wefan Conwy [Cynnig Gofal Plant Cymru - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy](#) Mae Tîm Blynnyddoedd Cynnar a Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy yn ateb llawer o ymholiadau gan rieni, gan fod y cynllun yn gallu bod yn gymhleth iddynt benderfynu ar yr opsiynau gofal plant gorau ar gyfer eu hamgylchiadau penodol hwy.

Gan fod Conwy yn awdurdod ymgysylltu ar gyfer y cynllun mae Tîm Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant Conwy yn gweithio mewn partneriaeth â Gwynedd (awdurdod cyflawni) ar weinyddu a rheoli Cynnig Gofal Plant Cymru.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru werthusiad o'r Cynnig Gofal Plant Cymru ar y themâu sy'n amlygu drwy weithredu'r cynllun <https://llyw.cymru/gwerthusor-cynnig-gofal-plant-i-gymru-blwyddyn-4>. Amlygodd faterion tebyg i'r rhai a gododd yng ngwerthusiad Llywodraeth Cymru o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Dîm Blynnyddoedd Cynnar Conwy a Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy fel rhan o'r adroddiad hwn.

Mae'r baich gweinyddol yn parhau i fod yn broblem i ddarparwyr gofal plant. Mae hyn yn arbennig am y rhai llai galluog o ran sgiliau digidol ac angen cefnogaeth a gafael llaw arnynt i gyflawni'r tasgau angenrheidiol. Mae'r baich gweinyddol yn drymach i'r rhai sy'n gorfod delio â mwy nag un awdurdod ac ar draws dwy system.

Unwaith eto, roedd yr adborth gan rieni yn debyg i'r hyn a gafwyd o fewn adroddiad Llywodraeth Cymru gan fod rhieni yn gweld y broses o ymgeisio yn eithaf cymhleth a hir ac yn gofyn am lawer iawn o wybodaeth bersonol. Mae dryswch ynghylch sut mae'r cynllun yn cyd-fynd â hawl i Addysg Gynnar a sut y gall derbyn y Cynnig effeithio ar fudd-daliadau eraill fel Credydau Treth, Credyd Cynhwysol neu fudd-dal tai. Mae dryswch hefyd ynghylch yr hawl i 9 wythnos o wyliau. Dyma'r prif feysydd o ymholiadau y mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy yn delio â nhw, i gynorthwyo rhieni i ddod o hyd i'r cyfuniad gorau ar gyfer eu hamgylchiadau penodol. Mae'n rhaid i rai rhieni wneud dewisiadau ynghylch a yw'n werth iddynt gymryd lle Addysg Gynnar i'w plentyn er enghraifft. Roedd adborth pellach o'r Arolwg Rhieni a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru at ddibenion Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant fel a ganlyn:


Arolwg Rhieni - Mae dadansoddiad llawn o'r adborth gan rieni i'w weld yn Adran 7 o'r adroddiad hwn. Atebodd 119 o rieni gwestiwn Cynnig Gofal Plant Cymru. O'r rhain, dywedodd 55 (47.9%) o rieni eu bod wedi defnyddio'r Cynnig Gofal Plant yng Nghonwy, a dywedodd 1 rhiant (0.84%) eu bod yn ei ddefnyddio mewn awdurdod lleol gwahanol. Roedd 20 (16.81%) yn meddwl efallai y byddent yn cael mynediad ato yn y dyfodol agos. Tra nad oedd gan 18 (7.56%) gydag unrhyw gynlluniau i'w ddefnyddio ac roedd 9 rhiant (7.56%) yn ansicr.

Gofynnwyd i'r rhai oedd wedi dewis peidio â manteisio ar y Cynnig Gofal Plant am eu rhesymau.

- Nid oedd un rhiant yn gallu gwneud cais gan nad oedd yn meddu ar yr Haen Fisa cywir i fod â hawl i arian cyhoeddus.
- Dywedodd un arall ei fod yn meddwl y dylai pob plentyn mewn gofal dderbyn y cynnig.

- Soniodd un rhiant am y ffaith nad oedd myfyrwyr yn gymwys ar gyfer y cyllid. “Byddem wrth ein bodd yn gwneud hynny, ond nid ydym yn gymwys. Rwy'n gweithio ac mae fy mhartner yn fyfyrwr. Dim ond un cyflog sydd gennym, ond nid ydym yn gymwys i gael unrhyw help gyda chostau gofal plant.”
- Cyfeiriodd rhiant sengl arall at gost uchel y costau gofal plant sy'n weddill – “Byddai'n gwneud mwy o synnwyr pe bai'r cyllid yn dechrau oed 2, i mi fel mam sengl fyddwn i'n caru dim mwy na mynd i'r gwaith ond mae'r costau gofal plant mor ddrud nid yw'n werth o.”

Adborth Darparwyr Gofal Plant - Gofynnwyd i ddarparwyr a oedd Cynnig Gofal Plant Cymru wedi effeithio ar eu busnes mewn unrhyw ffordd. O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd y canlyniadau fel a ganlyn:



Dywedodd un darparwr ei fod “wedi galluogi ysgolion i gymryd mwy o'r farchnad oddi ar lleoliadau gofal dydd preifat”. Sylwer: Credwn y gallai hyn fod yn gamddehongliad o'r sefyllfa ac y gallai'r person fod yn cyfeirio at leoliadau gofal plant ar safleoedd ysgol yn hytrach nag at ysgolion eu hunain.

Sylw a wnaed gan randdeiliaid eraill oedd “Mae rhai plant, yn dibynnu ar eu penblwyddi, yn gymwys i gael lleoedd am ddim, tra nad yw eraill yn gymwys ar gyfer Cymru gyfan. Dylid ymestyn y cynnig gofal plant ar draws oedrannau.”

Y nifer sy'n manteisio ar y Cynnig ym Mwrdeistref Sirol Conwy:

Cyfanswm y plant a ariannwyd bob mis yn ystod **Blwyddyn 1 (2018-19)**. Pan gyflwynwyd y Cynnig i ddechrau dim ond rhieni a oedd yn byw mewn ardaloedd peilot penodol a gafodd eu cynnwys yn y cynllun.

2018/19	Nifer y Plant
Tachwedd	188
Rhagfyr	190
Ionawr	473

Chwefror	520
Mawrth	540

Cyfanswm y plant a ariannwyd bob mis yn ystod **Blwyddyn 2 (2019-20)** - Blwyddyn lawn a'r sir gyfan wedi'u cynnwys

2019/20	Nifer y Plant
Ebrill	657
Mai	779
Mehefin	754
Gorffennaf	668
Awst	405
Medi	438
Hydref	485
Tachwedd	485
Rhagfyr	495
Ionawr	622
Chwefror	645
Mawrth	645

Cyfanswm y plant a ariannwyd bob mis yn ystod **Blwyddyn 3 (2020-21)** - Blwyddyn lawn a'r sir gyfan wedi'u cynnwys

2020/21	Nifer y Plant
Ebrill	474
Mai	516
Mehefin	466
Gorffennaf	214
Awst	242
Medi	325
Hydref	361
Tachwedd	399
Rhagfyr	408
Ionawr	453
Chwefror	518
Mawrth	549

Yn ystod Blwyddyn 3 2020-21 a phandemig Covid-19

Daeth Cynnig Gofal Plant Cymru i ben i rieni newydd o 1 Ebrill 2020. Cafodd y cyllid ei ailgyfeirio a'i ddefnyddio ar gyfer y Cynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws (C-CAS) i gefnogi gweithwyr hanfodol gyda'u costau gofal plant a chefnogi plant all fod mewn perygl o fod yn agored i niwed.

Parhaodd taliadau Cynnig Gofal Plant Cymru i gael eu talu ar gyfer oriau a archebwyd eisoes i leoliadau oedd ar agor neu ar gau tan y 19 o Fehefin. Y tu hwnt i'r amser hwn, parhaodd taliadau ar gyfer oriau a archebwyd am ofal plant ar gyfer y plant hynny a oedd yn gymwys ar gyfer y Cynnig ac yn ei ddefnyddio cyn diwedd mis Mawrth, ac a oedd yn mynychu lleoliad agored yn rheolaidd. Hawliwyd oriau ychwanegol i blant rhieni yr ystyriwyd eu bod yn weithwyr allweddol neu'n blant all fod mewn perygl o fod yn agored i niwed trwy C-CAS.

